

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a Helen Finlayson
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 23 Medi 2021 0300 200 6565
Amser: 09.00 Seneddlechyd@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

Rhag-gyfarfod preifat (09.00–09.30)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)
- 2 **COVID-19: y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, y Prif Gynghorydd Gwyddonol ar gyfer Iechyd a Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru**
(09.30–10.45) (Tudalennau 1 – 24)
Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol
Dr Rob Orford, Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd
Fliss Bennée, Cydgadeirydd y Gell Cyngor Technegol

Briff Ymchwil

Papur 1 – Llywodraeth Cymru

Egwyl (10.45–11.00)



3 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
(11.00–13.15) (Tudalennau 25 – 70)

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru

Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Newid

Briff Ymchwil

Papur 2: Llywodraeth Cymru

4 Papurau i'w nodi

(13.15)

4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at bwyllgorau'r Senedd ynghylch Craffu Ariannol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022–23
(Tudalennau 71 – 74)

4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch blaenoriaethau o ran plant a phobl ifanc ar gyfer y Chweched Senedd
(Tudalennau 75 – 76)

4.3 Llythyr gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ynghylch ei phroses o ran Gwasanaeth sy'n creu Pryder ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru
(Tudalennau 77 – 88)

4.4 Ymateb gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad Gwaddol Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd
(Tudalennau 89 – 90)

- 4.5 Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ynghylch y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod cam olaf ymchwiliad y Pwyllgor blaenorol i effaith y pandemig COVID-19, a'r ymateb iddo, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**
(Tudalennau 91 – 102)
- 4.6 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod cam olaf ymchwiliad y Pwyllgor blaenorol i effaith y pandemig COVID-19, a'r ymateb iddo, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**
(Tudalennau 103 – 122)
- 4.7 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at bwyllgorau'r Senedd ynghylch gweithio ar y cyd yn y Chweched Senedd**
(Tudalen 123)
- 4.8 Llythyr gan Altaf Hussain AS at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol ar gyfer Pobl Ddall (RNIB) Cymru**
(Tudalennau 124 – 125)
- 4.9 Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i Altaf Hussain AS ynghylch Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol ar gyfer Pobl Ddall (RNIB) Cymru**
(Tudalen 126)
- 4.10 Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd ar iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru**
(Tudalennau 127 – 142)
- 4.11 Llythyr at y Pwyllgor Busnes ynghylch amserlen pwyllgorau'r Chweched Senedd**
(Tudalennau 143 – 145)

- 5 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfod ar 7 Hydref**

- 6 **COVID-19 a chraffu cyffredinol: Trafod y dystiolaeth**
(13.15-13.25)

- 7 **Blaenraglen waith**
(13.25-13.30) (Tudalennau 146 - 149)
Papur 3: Blaenraglen waith

- 8 **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal**
(13.30-13.45) (Tudalennau 150 - 173)
Papur 4: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal: Atodiad A
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal: Nodyn cyngor cyfreithiol: Atodiad B

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- **Yr wybodaeth ddiweddaraf am bandemig COVID-19, gan gynnwys effaith llacio'r cyfyngiadau dros yr haf.**

Mae pandemig y coronafeirws ymhell o fod ar ben. Mae'r potensial ar gyfer niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol yn parhau'n sylweddol iawn. Dylid ystyried COVID-19 yn her barhaus a digynsail i iechyd y cyhoedd.

Mae achosion COVID-19 wedi cynyddu dros Gymru ac maent yn debygol o gynyddu ymhellach wrth i addysgu mewn ysgolion a phrifysgolion aildechrau. Ar hyn o bryd, mae'n anodd rhagweld gydag unrhyw sicrwydd pa effaith y mae llacio'r cyfyngiadau a mwy o gymysgu cymdeithasol ar Lefel Rhybudd 0 wedi'i chael ac yn parhau i'w chael ar y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r achosion cynyddol a arsylwyd (481 o achosion fesul 100,000 o bobl ar adeg ysgrifennu) a chyfradd bositif uchel o 18.7% yn dangos y dylid monitro'r clefyd yn ofalus drwy wylidwriaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae amcangyfrif consensws Cyd-Ganolfan Bioddiogelwch y DU (JBC) o'r rhif atgynhyrchu yng Nghymru rhwng 1.2 ac 1.4 (ar 10 Awst 2021), tra bod amcangyfrif Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) rhwng 1.5 ac 1.6 (25 Awst 2021). Sylwer bod fel arfer oedi o 2-3 wythnos yn amcangyfrif JBC a bod oedi yn achos amcangyfrif PHW, sy'n defnyddio methodoleg wahanol, o tua 1 wythnos.

Er bod cyfraddau brechu uchel wedi effeithio'n sylweddol ar y gymhareb rhwng yr heintiau COVID a gofnodwyd ac effeithiau mwyaf difrifol y clefyd, mae nifer y bobl sydd ag achosion tybiedig neu a gadarnhawyd o COVID-19 sy'n cael eu derbyn bob dydd i ysbytai yn cynyddu. Mae cyfanswm nifer y gwelyau llawn mewn ysbytai bellach yn uwch nag yn ystod tonnau blaenorol, er nad yw'r rhan fwyaf o gleifion yn gysylltiedig â COVID-19. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r gymhareb rhwng achosion a derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau yn parhau'n isel, gyda nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID, a derbyniadau sy'n gysylltiedig â COVID i unedau gofal dwys (ICU) yn parhau'n is o'u cymharu â'r un pwynt mewn tonnau blaenorol. Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos iawn; bwrw ymlaen â'r

blaenoriaethau brechu; ac asesu priodoldeb mesurau'n barhaus i leihau trosglwyddiad.

- **Brechu, gan gynnwys pigiadau atgyfnerthu COVID a'r ffliw.**

Brechu yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o amddiffyn ein teuluoedd, ein cymunedau a'n hunain rhag COVID-19. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae bron i 2.4 miliwn (90.7%) o bobl yng Nghymru sy'n 16+ oed (yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2020) wedi cael y dos cyntaf o frechiad COVID-19, ac mae bron i 2.2 miliwn (84.2%) o bobl wedi cael yr ail ddos.

Mae ymdrechion i hybu'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig o frechlyn yn parhau, gydag amrywiaeth o gamau gweithredu ar waith i alluogi mynediad hawdd iddo ac i feithrin ymddiriedaeth, er enghraifft defnyddio clinigau brechu allgymorth a dros dro mewn ffordd wedi'i thargedu.

Mae'r dos cyntaf o frechlyn Covid bellach yn cael ei gynnig i bob plentyn 16 ac 17 oed ac mae wedi'i dargedu at y rhai sy'n 12-17 oed ac a ystyrir mewn perygl yn glinigol, yn unol ag argymhellion y Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI). Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awgrymu bod mwy na 67% o bobl ifanc 16 ac 17 oed (yn seiliedig ar ddata yn System Imiwneiddio Cymru) bellach wedi cael y dos cyntaf.

Mae bylchau anghydraddoldeb o ran darparu'r brechlyn rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol, grwpiau oedran a grwpiau ethnig yn ogystal ag yn rhyngwladol yn parhau i fod yn bwysig. Gwneir ymdrech o hyd i geisio mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros betrustrer ynghylch cael y brechlyn, megis ymleiddio hanesyddol a phryderon ynghylch diogelwch ac effeithiau hirdymor posibl ar iechyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys digwyddiadau ymgysylltu â grwpiau crefyddol/diwylliannol, defnyddio dylanwadwyr, gweminarau mewn gwahanol ieithoedd a digwyddiadau cyhoeddus 'Holi'r arbenigwyr'.

Yn y cyfamser, mae Rhaglen Frechu COVID-19 wedi bod yn cynllunio ar gyfer pigiadau atgyfnerthu'r hydref yn seiliedig ar gyngor dros dro y JCVI. Yn amodol ar

gyngor terfynol y JCVI, bydd y rhaglen pigiadau atgyfnerthu yn dechrau o fis Medi ymlaen gyda'r grwpiau mwyaf agored i niwed a'u gofalwyr.

Bydd angen dehongli tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar gynnal imiwnedd ar gyfer Cymru fel bod yr effeithiau a ragwelir yn cael eu deall a'u defnyddio i lywio camau gweithredu.

- **Brechu rhag y fflw**

Y gaeaf diwethaf, cafodd y nifer mwyaf erioed yng Nghymru eu brechu rhag y fflw. Y tymor nesaf yr her fydd sicrhau bod y nifer mwyaf posibl mewn grwpiau blaenoriaeth yn manteisio ar y brechlyn gan mai nhw sydd fwyaf mewn perygl o ddal y fflw ac o ddiodef canlyniadau difrifol, neu sydd mewn mwy o berygl o heintio pobl eraill.

Yn benodol, mae angen inni baratoi ar gyfer lefelau uwch o'r fflw a allai fod ar led, ynghyd ag achosion tymhorol eraill o heintiau anadlol, o ystyried y lefelau isel a gofnodwyd drwy gydol 2020-21. Bydd sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael eu brechu yn flaenoriaeth bwysig yr hydref hwn i leihau afiachusrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r fflw, ac i leihau'r nifer sy'n mynd i'r ysbyty yn ystod cyfnod pan allai'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol fod yn rheoli brigadau o achosion o Covid-19 yn y gaeaf.

Bydd rhaglen fflw 2021-22 unwaith eto'n cynnwys pawb rhwng 50 a 64 oed, a ddylai gael cynnig brechiad rhag y fflw ochr yn ochr ag eraill fel rhan o'r brif ymgyrch. Yn ogystal â hynny, ar gyfer 2021-22 bydd y rhaglen frechu yn cael ei hymestyn ymhellach i gynnwys pob plentyn ym mlynnyddoedd ysgol uwchradd 7 i 11.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, yn cynnal ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr a fydd yn annog pawb sy'n gymwys i gael y brechlyn fflw i fanteisio ar y cyfle.

- **Data/modelau wedi'u dadgyfuno i archwilio effeithiau ar/materion ar gyfer grwpiau/cymunedau penodol.**

Yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig, deallom yn well sut yr oedd COVID-19 yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl ac roedd hynny'n dibynnu ar ffactorau fel eu hoedran, eu rhyw, eu hethnigrwydd, eu statws iechyd isorweddol a'u hamodau

economaidd-gymdeithasol. Mae effeithiau anuniongyrchol y clefyd a'n hymateb iddo hefyd wedi effeithio ar bobl yn wahanol. Er enghraifft, mae nifer yr achosion o COVID, derbyniadau i ysbytai a marwolaethau wedi bod rhyw ddwywaith yn uwch o fewn cwintel mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (cyfraddau wedi'u safoni yn ôl oedran yw'r rhain felly nid ydynt yn gysylltiedig â gwahaniaethau mewn strwythur oedran). Mae dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol/Cymru yn parhau i ddangos bod COVID-19 wedi effeithio'n fwy ar bobl o leiafrifoedd ethnig hyd yn oed ar ôl cymryd camau i reoli anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae llai o weithgarwch economaidd yn ystod y pandemig wedi effeithio'n benodol ar bobl ifanc sydd am gychwyn arni yn y farchnad lafur.

Mae iechyd meddwl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn bwysig er lles unigolion sy'n gweithio yn y sectorau hyn yn ogystal â chynaliadwyedd cyffredinol y sector, yn enwedig gan fod pandemig COVID-19 yn ymestyn i'r Gaeaf 21/22. Yn dilyn adolygiad sydyn¹, mae tystiolaeth yn awgrymu y bu effaith andwyol sylweddol ar iechyd meddwl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Efallai y bydd angen y rhan fwyaf o gymorth ar staff benywaidd, pobl ag anhwylder iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes neu sydd ag anhwylder iechyd meddwl blaenorol a rhai sydd â phryderon am drosglwyddo COVID-19/ PPE. Mae'n werth nodi hefyd y gallai'r sector Gofal Cymdeithasol fod yn gweld mwy na'r trosiant staff cyfartalog ar adeg pan fo'r angen am weithwyr gofal cartref a gofal preswyl yn cynyddu. Mae Cymru'n parhau i weithio gydag ONS ac arbenigwyr academiaidd i ddeall yr effaith y gallai straen ar y sector gofal cymdeithasol ei chael dros y gaeaf a thu hwnt.

- **Amrywiolynnau sy'n dod i'r amlwg neu rai posibl.**

Mae'r risg o amrywiolyn newydd yn dod i'r amlwg sydd â mantais drosglwyddo, sy'n dianc rhag ymateb imiwnyddol, neu sy'n arwain at ganlyniadau iechyd mwy difrifol neu gyfuniad o'r ffactorau hyn yn parhau i fod yn bosibilrwydd realistig. Yr amrywiolyn Delta yw'r prif amrywiolyn presennol yng Nghymru, sy'n parhau i gyfrif am y rhan fwyaf o achosion sydd newydd eu cadarnhau a'u dilyniannu. Mae amrywiolynnau newydd o SARS-CoV-2 yn gysylltiedig â faint o'r feirws sydd ar led,

¹ Impact of the COVID-19 pandemic on the mental health of health and social care workers within the UK. RR_00002. (Gorffennaf 2021) Ar gael yma:

gyda chyfraddau lledaenu a throsglwyddo uwch yn creu cyfleoedd i amrywiolynnau newydd ddod i'r amlwg. Un o'r risgiau mwyaf i'n rhaglen frechu ac wrth lacio'r cyfyngiadau yw'r perygl nad yw'r brechlynnau presennol yn effeithiol, a allai arwain at fwy o risg y bydd y GIG yn mynd yn drech wrth i straen newydd o'r coronafeirws wneud pobl yn ddifrifol wael unwaith eto, er iddynt gael eu brechu.

Mae'r tonnau blaenorol wedi dangos bod y dirywiad a thwf amrywiolyn newydd yn digwydd dros gyfnod byr, 7-8 wythnos. Mae lleihau throsglwyddo a defnyddio strategaethau sy'n torri cadwyni throsglwyddo, cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu brechu, monitro amrywiolynnau newydd a'r gallu i ddiweddarau brechiadau yn allweddol i sicrhau ymateb cynnar ac effeithiol. Mae monitro poblogaethau a lleoliadau sensitif yn ofalus, ar lefelau lleol a rhanbarthol yn ogystal ag ymgysylltu ar lefel y DU a rhyngwladol, yn parhau i fod yn strategaeth ataliol bwysig.

Mae SARS-CoV-2 yn glefyd sy'n effeithio ar bobl yn bennaf a throsglwyddiad rhwng pobl² sy'n dal i yrru'r lledaeniad ar draws cymunedau ac yn rhyngwladol. Hyd yma, nid oes unrhyw dystiolaeth o rywogaethau anifeiliaid sy'n gweithredu fel cronfa o haint sy'n arwyddocaol o safbwynt epidemiolegol a drosglwyddir i bobl.

Felly, bydd dilyniannu a dadansoddi genomeg yn gynrychiadol ac mewn ffordd wedi'i thargedu yn parhau i fod yn elfen bwysig o'n hymateb, yn enwedig o ran nodi a nodweddu amrywiolynnau newydd – er bod dibenion genomeg pathogenau yn ehangach.

- **Teithio rhyngwladol**

Mae teithio rhyngwladol yn parhau i beri'r risg o fewnforio haint y coronafeirws i Gymru, yn enwedig Amrywiolynnau sy'n Peri Pryder. Mae angen mesurau iechyd cadarn ar y ffin i helpu i atal fewnforio heintiau a lliniaru risgiau throsglwyddo ymlaen. Mae cyfres o fesurau'n bodoli i lliniaru risgiau, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i deithwyr ddarparu manylion personol/teithio a thystiolaeth o brawf coronafeirws

² [SARS-CoV-2 in animals – Situation Report 2 \(oie.int\)](https://www.oie.int)

negyddol cyn teithio i'r DU, a chadw at y trefniadau cwarantín a phrofi ar ôl cyrraedd. Mae polisi sgorio risg gwlad yn pennu'r profion sydd angen eu cymryd ar ôl cyrraedd a'r trefniadau cwarantín.

Bu newidiadau diweddar i fesurau iechyd ar y ffin, yn enwedig dileu cwarantín a llacio'r gofynion profi ar gyfer oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn o wledydd sydd ar y rhestr oren. Nid yw'r newidiadau hyn heb risg; maent yn gwanhau'r llinell amddiffyn yn erbyn mewnfario heintiau ac yn cynyddu cyfleoedd i heintiau amrywiolynnau gyrraedd y DU a Chymru. Gall brechlynnau helpu i leihau'r risg hon, ond dim ond os ydynt yn effeithiol yn erbyn Amrywiolynnau sy'n Peri Pryder ac Amrywiolynnau risg uchel sy'n cael eu harchwilio.

Mae'r mesurau iechyd ar y ffin sydd ar waith ledled y DU yn gwneud tipyn i barhau i ddiogelu rhag mewnfario heintiau a chyflwyno amrywiolynnau. Mae dull cydweithredol pedair gwlad yn hanfodol i werthuso a gweithredu trefniadau rheoli ffiniau effeithiol. Gan fod Cymru'n rhannu ffin agored â Lloegr, a'r rhan fwyaf yn cyrraedd Cymru drwy borthladdoedd y tu allan i Gymru, nid yw'n effeithiol cael trefniadau polisi ar wahân ar gyfer Cymru.

Mae risgiau iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â theithio rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n gyson gan y JBC; mae eu cylch asesu risg tair wythnos yn ystyried data epidemiologol byd-eang, galluoedd dilyniannu ac adroddiadau Amrywiolynnau sy'n Peri Pryder, nifer y bobl sy'n cael y brechlyn a nifer y teithwyr, ymhlith metrigau eraill. Mae'r broses sylfaenol hon o asesu risgiau byd-eang yng nghyd-destun teithio i'r DU yn parhau i fod yn hanfodol, yn ogystal â'r angen i sicrhau cydymffurfiaeth dda â gofynion profi (a dilyniannu genomig) i gynhyrchu data gwyliadwriaeth cadarn; gall y ddau lywio camau i liniaru risgiau drwy ymyraethau polisi a newidiadau i ddeddfwriaeth, a hynny mewn modd amserol.

- **Modelu llwybr y pandemig yn y dyfodol, yn enwedig wrth i ni symud tuag at y gaeaf, ac effaith bosibl ffactorau eraill e.e. y ffliw.**

Mae mwy o gymhlethdod yn y system gan fod cymdeithas bellach yn fwy agored, sy'n dod â llawer mwy o ansicrwydd i fodelu. Mae sawl ansicrwydd o hyd gan gynnwys: esblygiad pellach SARS-CoV-2, ail-heintio ac imiwnedd yn gwanhau, natur dymhorol, cyd-heintio a statws posibl yn y dyfodol fel clefyd endemig. Mae'r deinameg yn y misoedd nesaf yn anrhagweladwy iawn a gallai hyd yn oed cyfnod byr o gynnydd trosglwyddo fod yn broblem fawr os yw nifer yr achosion eisoes yn uchel ("ar y terfyn") - prin iawn fyddai modd lleihau nifer yr achosion wedyn (efallai dyblu 1-2, 10-20 diwrnod). Bydd y risg hon yn gwaethygu os yw'r fflw a heintiau eraill hefyd yn bwydo i mewn i'r galw am ofal iechyd os yw imiwnedd yn gwanhau'n sylweddol yn y tymor agos. Efallai y bydd angen lleihau COVID er mwyn gwneud lle i heintiau eraill. Byddai ailgyflwyno Ymyriadau Anfferyllol (NPI) hefyd yn lleihau COVID a'r fflw (a heintiau eraill).

Gall y gaeaf fod yn heriol wrth i heintiau anadlol aciwt tymhorol eraill ddod i'r amlwg ochr yn ochr â COVID-19. Oherwydd y newid mewn deinameg trosglwyddo a achoswyd o ganlyniad i'r mesurau i reoli COVID-19, efallai y bydd cyfnod o epidemigau anrhagweladwy o'r clefydau hyn cyn i'w patrymau tymhorol arferol ddychwelyd. Os yw heintiau sydd ar led yn rhyngweithio, gallai gymryd cryn dipyn o amser i sefydlu cytbwysedd (e.e. gallai tymor y feirws sincytiol anadlol (RSV) symud i batrwm o fod ar led yn gynharach).

Bydd rhagolygon tymor byr a thymor canolig ochr yn ochr â modelu polisïau dros y tymor hwy, gyda thybiaethau diwygiedig, yn allweddol i benderfyniadau polisi. Er enghraifft, os dangosir bod imiwnedd is yn cynyddu'n sylweddol nifer y bobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol a phobl hŷn sy'n cael eu derbyn i ysbytai yn y tymor byr i ganolig (e.e. dros y gaeaf), gallai hyn greu pwysau ychwanegol ac anghynaliadwy ar y GIG a gofal cymdeithasol.

Gellir modelu firysau anadlol eraill fel y fflw ac RSV hefyd. Roedd y firysau hyn yn absennol i raddau helaeth yn ystod gaeaf 2020/21 ond maent yn debygol o ddigwydd eto, a gallant ddychwelyd ar gyfradd uwch na gaeaf nodweddiadol, yn rhannol oherwydd 'dyled o ran imiwnedd', er enghraifft mewn pobl ifanc 1-2 oed nad ydynt wedi dod i gysylltiad ag RSV. Mae nifer yr achosion o RSV mewn plant yn cynyddu'n gyflym, gyda thymor yr RSV yn dechrau 15 wythnos yn gynharach nag arfer yng Nghymru. Gall fflw ac RSV ddangos twf anghydamseredig mewn

gwahanol rannau o Gymru, a bydd effaith y ffliw yn dibynnu ar ei fath, y cytras a chyfansoddiad y brechlyn.

Efallai y bydd ymddygiadau unigol o ran gwisgo gorchuddion wyneb, hunanyngysu ac aros gartref os oes symptomau, a newidiadau eraill o ran atal a rheoli heintiau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn cael effeithiau tymor hwy ar atal trosglwyddo sawl feirws. Ond, amser a ddengys ac mae angen inni baratoi ar gyfer y posibilrwydd o gyflyrau heriol iawn gyda llawer o feirysau ar led. Mae modelau a rennir gyda JCVI wedi awgrymu y gallai tymor ffliw 2021-22 fod 50%-100% yn uwch na thymor nodweddiadol a gallai gyrraedd uchafbwynt ar adeg wahanol.

Mae ymateb diogelu iechyd i salwch anadlol ar gyfer y gaeaf yn yr arfaeth. Mae ganddo'r nodau canlynol;

- Lleihau heintiau Covid-19 a'r ffliw drwy gyflawni'r rhaglenni brechu ac ymyraethau fferylol eraill yn effeithiol.
 - Darparu rhaglen fonitro gynhwysfawr sy'n: darparu gwybodaeth amserol am nifer yr achosion o heintiau anadlol; caniatáu ar gyfer canfod digwyddiadau ac achosion yn gyflym a chefnogi'r system iechyd cyhoeddus i gymryd camau priodol i leihau niwed.
 - Darparu strategaeth brofi sy'n caniatáu adnabod feirws achosol yn gyflym yn y rhai sy'n symptomatig.
 - Darparu model olrhain cysylltiadau wedi'i dargedu.
 - Sicrhau bod lleoliadau allweddol, megis iechyd a gofal cymdeithasol, carchardai a gwasanaethau critigol eraill, yn cael eu cefnogi gan ganllawiau priodol ar reoli achosion anadlol.
 - Drwy gyfathrebu'n effeithiol, mae'n cefnogi'r cyhoedd i leihau'r risg bersonol o salwch feirysol anadlol drwy olchi dwylo'n aml, hylendid anadlol, cadw pellter cymdeithasol a gwisgo masg lle y cynghorir i wneud hynny.
 - Drwy weithredu ar y cyd, lleihau'r niwed ehangach a gafwyd drwy ein hymateb i achosion anadlol neu epidemigau.
- **Rolau deddfwriaeth, canllawiau a negeseuon mewn perthynas â'r ymateb parhaus i'r pandemig.**

Fel y nodir yn y ddogfen gyhoeddus [Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefel Rhybudd Sero \(Gorffennaf 2021\)](#), mae cam diweddaraf y pandemig yn pwysleisio'r angen i reoli ar y cyd; gydag ymdrechion cydgysylltiedig gan y llywodraeth, unigolion, y sector preifat, y trydydd sector ac eraill.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n weddill yn canolbwyntio ar feysydd lle nad oes gan bobl ddewis neu reolaeth lawn dros reoli eu risgiau personol eu hunain (fel mynd i'r gwaith neu gael mynediad at wasanaethau) ac mae'n cynnwys gofynion cyfreithiol i hunanynysu, gofynion cyfreithiol ar fusnesau, cyflogwyr a sefydliadau eraill i gynnal asesiad risg coronafeirws a rhoi mesurau rhesymol ar waith i liniaru'r risg o ledaenu'r coronafeirws, a gofynion cyfreithiol i wisgo gorchuddion wyneb mewn lleoliadau dan do. Rydym yn parhau i ofyn i bobl yng Nghymru weithio gartref lle gallant; mae hwn yn fesur rhesymol yr ydym yn disgwyl i gyflogwyr ei roi ar waith lle bo hynny'n briodol.

Er bod y ddeddfwriaeth hon yn parhau i fod ar waith, mae llawer o'r cyfyngiadau manwl wedi'u tynnu allan o'r rheoliadau. Mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar bobl yn rheoli eu risg personol eu hunain. Mae'r symudiad i lefel rhybudd sero wedi gofyn am gyfnod newydd penodol mewn cyfathrebu cyhoeddus, gyda mwy o bwyslais ar normaleiddio ymddygiadau amddiffynnol i gwtogi ar ledaeniad y feirws. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu cyfres lai o ganllawiau craidd i gyfleu'r cyfyngiadau parhaus sydd ar waith ac i ailadrodd negeseuon pwysig i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol sy'n canolbwyntio ar yr hyn y dylai pobl fod yn ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud yn gyfreithiol. Nod hyn yw helpu pobl i reoli eu risgiau eu hunain a chefnogi busnesau a sefydliadau eraill i gynnal eu hasesiadau risg gofynnol.

Mae newidiadau mewn ymddygiadau poblogaeth (a all fod yn wahanol mewn gwahanol grwpiau) ac yn enwedig pa mor gyflym y byddant yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig yn ansicrwydd allweddol. Bydd uchafbwynt yr ymchwydd yn llawer is os ydym yn dychwelyd yn raddol i'n hymddygiad cyn y pandemig, waeth beth fo'r penderfyniadau deddfwriaethol (h.y. mae unrhyw newidiadau'n

digwydd dros sawl mis) nag os wnawn ni hynny gyflym, ac os caiff mwy o fesurau i leihau'r trosglwyddiad eu cynnal (hyder uchel).

Wrth godi'r cyfyngiadau, mae'n parhau i fod yn bwysig i negeseuon gyfleu risgiau parhaus COVID-19 a mesurau lliniaru effeithiol, gan gynnwys gwybodaeth am sut i leihau lledaeniad o fewn y cartref. Mae SAGE yn cynghori bod parhau i ddarparu gwybodaeth leol amser real am nifer yr achosion yn angenrheidiol er mwyn datblygu modelau a chynllunio ymyriadau priodol yn effeithiol³. Bydd cyfathrebu wedi'i dargedu at unigolion a sefydliadau yn bwysig.

- **Dangosyddion a mesurau mewn perthynas â niwed anuniongyrchol o'r pandemig a'r ymateb iddo.**

Mae cryn ddadlau ynghylch effaith mesurau i reoli brigiadau o achosion SARS-COV-2. Yn 'Arwain Cymru allan o'r Pandemig Coronafeirws: fframwaith ar gyfer adfer a datgloi ein cymdeithas a'n heconomi: parhau â'r sgwrs', disgrifir y cydbwysedd gofalus rhwng y niwed uniongyrchol o COVID-19 a niwed anuniongyrchol mesurau cyfyngol fel cyfyngiadau symud megis yr effaith ar iechyd meddwl, llesiant, yr economi a chymdeithas. Nodir y rhain ochr yn ochr â'r dangosyddion a'r mesurau sy'n cael eu hystyried wrth benderfynu ar rôl rheoliadau fel rhai 'angenrheidiol' a 'chymesur' i gyfyngu ar nifer yr achosion o'r coronafeirws a'i lledaeniad yng Nghymru.

³ [SPI-M-O: Local interventions and spatial scales, 6 August 2020 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/spi-m-o-local-interventions-and-spatial-scales-6-august-2020)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Mae ymatebion manwl i'r meysydd a nodwyd gan yr Aelodau wedi'u nodi isod:

1. Aseiad cyfredol o sefyllfa ariannol pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth GIG.

Mae holl sefydliadau GIG Cymru, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, yn rhagweld y byddant yn sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2021-22. Y diffyg a ragwelir ar gyfer y ddau sefydliad hyn ar hyn o bryd yw £49.4m, sy'n gyson â'u cynlluniau gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol. Rydym yn disgwyl y bydd y ddau sefydliad yn cynnal neu'n gwella ar eu sefyllfa alldro ar gyfer 2020-21. Mae ein swyddogion, ac Uned Cyflenwi Cyllid y GIG, yn gweithio gyda thimau cyllid y ddau sefydliad i olrhain cynnydd yn erbyn cyflawni'r disgwyliad hwn.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd cyllid ychwanegol gwerth £551m ar gyfer y GIG eleni i helpu gyda'r ymateb parhaus i'r pandemig a gwneud cynnydd ar adfer gofal arferol. Mae'r cyllid hwn yn ychwanegu at y £540m a gadarnhawyd trwy broses gyllideb 2021-22 a'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer costau Covid a chyllid cychwynnol i gefnogi adferiad. Rydym yn darparu tua £1.1 biliwn o gyllid ychwanegol yn 2021-22 ar gyfer y GIG i helpu gyda'r ymateb i Covid a mynd i'r afael â'r ôl-groniad o restrau aros.

Yn anochel, nid yw'r GIG wedi gallu cyflawni'r lefel arferol o arbedion effeithlonrwydd wrth iddynt ganolbwyntio ar ymateb i'r pandemig a dechrau adfer gofal arferol. Mae effaith y diffyg hwn o ran sicrhau arbedion ar sefyllfaoedd ariannol yn cael ei rheoli ar hyn o bryd drwy gymorth cyllid afreolaidd. Bydd angen i ni sicrhau bod y GIG yn gallu cynnal cynaliadwyedd ariannol wrth i gyllid ddychwelyd i lefelau llinell sylfaen rheolaidd.

2. Diweddariad ar y cymorth ariannol sy'n cael ei ddarparu i awdurdodau lleol a darparwyr gofal i helpu gyda phwysau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Yn 2020-21, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gefnogi gofal cymdeithasol i oedolion a darpariaeth gofal iechyd gysylltiedig yn ystod y pandemig coronafeirws. Gweinyddwyd cyllid ar gyfer Awdurdodau Lleol drwy'r Gronfa Caledi Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a derbyniodd Byrddau Iechyd Lleol gyllid ar wahân cyfatebol er mwyn cefnogi'r elfen gofal iechyd ychwanegol yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Fel rhan o'r gyfres o gymorth a ddarparwyd i'r sector, fe wnaethom ddarparu dros £160 miliwn i dalu'r costau cyffredinol o ymateb i'r pandemig a helpu i wrthbwysu'r pwysau ychwanegol yn deillio o fylchau heb eu hariannu ym maes gofal preswyl drwy Gronfa Caledi Llywodraeth Leol a Byrddau Iechyd Lleol yn 2020-21.

Roedd y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22 yn cynnwys y Gronfa Caledi ac ymateb y GIG i Covid-19 a oedd yn cefnogi parhad y cyllid hwn hyd at fis Medi 2021. Roedd y cymorth hwn ar ffurf ymgodiad ffi cyfradd safonol i gefnogi gofal wedi'i gomisiynu, cymorth ar gyfer bylchau cymwys heb eu hariannu ac elfen cymorth sectoraidd lleol sy'n darparu cyllid dewisol i helpu Awdurdodau Lleol i gefnogi anghenion lleol. Mae dros £25 miliwn wedi'i ddarparu hyd yma. Bydd cymorth ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Cydnabyddir bod angen i'r sector ddatblygu llwybr gwahanol yn hytrach na dibynnu ar lefel uchel o gymorth, sy'n cadw hyblygrwydd ar gyfer pwysau gan y pandemig, ond sy'n sicrhau bod y sector yn gallu diwallu anghenion y boblogaeth yn y cyfnod sydd i ddod. O'r herwydd, bydd y cynllun yn cael ei raddio i ddarparu llwybr ymadael arfaethedig o'r lefel bresennol o adnoddau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y cymorth sy'n cael ei ddarparu i helpu i wrthbwysu costau bylchau heb eu hariannu yn cael ei raddio o fis Medi ymlaen, a bydd yr ymgodiadau cyfradd safonol ar gyfer gofal preswyl a gwasanaethau byw â chymorth yn cael eu graddio o fis Hydref; bydd yr ymgodiad cyfradd safonol ar gyfer gofal cartref yn parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn.

3. Cynlluniau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaeth, gan gynnwys blaenoriaethu cleifion/gwasanaethau.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau sy'n ein hwynebu wrth geisio adfer gwasanaethau i'w cyflwr cyn y pandemig a'u gwella wrth symud ymlaen. Ar hyn o bryd, rhaid i ni ganolbwyntio ar leihau rhestrau aros er mwyn lleihau effaith y pandemig ar ganlyniadau. Bydd yn anodd cyflawni hyn o ystyried y cyfyngiadau sy'n deillio o reolaethau atal heintiau yn ein llwybrau diagnostig, llawfeddygol a thriniaeth eraill; yn ogystal â'r angen i ddarparu ac adfer gofal clinigol brys arall. Fodd bynnag, rwyf wedi gosod hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y system, sy'n cael ei hadlewyrchu yng nghynlluniau blynyddol y byrddau iechyd.

Mae ôl-groniad hefyd mewn adolygiadau a gwiriadau rheolaidd ar gyfer pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor, megis asthma a diabetes, i'w helpu i gadw'n iach. Mae Prif Weithredwr GIG Cymru wedi nodi yn glir iawn ei fod yn disgwyl i fyrddau iechyd hyrwyddo prosesau cydweithio rhwng practisau meddygon teulu a thimau iechyd y gymuned i ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn cyn y gaeaf.

Mae'r rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio yn datblygu dull newydd o ymdrin â gofal wedi'i gynllunio, gyda 'Pum Nod ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio' wedi'u datblygu ochr yn ochr ag arweinyddiaeth clinigol a gweithredol. Y pum nod yw atgyfeiriadau effeithiol; cyngor a chanllawiau; trin yn unol â hynny; gofal dilynol darbodus; mesur yr hyn sy'n bwysig. Bydd y pum nod yn cael eu hategu gan ddatganiadau ansawdd.

Bydd y rhaglen yn cael ei rheoli drwy dair rhaglen waith: Rhaglen Glinigol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio; Trawsnewid Systemau Cleifion Allanol; a mesur y system gyfan. I ddechrau, canolbwyntiodd y Rhaglen Glinigol ar bum maes gyda'r amseroedd aros hwyaf; orthopedeg; wroleg; dermatoleg; y glust, y trwyn a'r gwddf; ac offthalmoleg. Yn seiliedig ar y niferoedd presennol sy'n aros, cytunwyd i ymestyn cwmpas y rhaglen i gynnwys llawdriniaeth gyffredinol a gynaeoleg hefyd. Bydd hyn yn awr yn sicrhau bod yr arbenigeddau sydd â'r amseroedd aros hwyaf yn cael eu cwmparu gyda rhaglen drawsnewid i helpu adferiad.

Ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, mae camau gweithredu eisoes ar waith. Ar gyfer orthopedeg, mae strategaeth glinigol yn cael ei datblygu, mae clinigau rhithwir ar gyfer y cymalau, a rheoli cyhyrsgerbydol. Ar gyfer wroleg, mae rhaglen hunanreoli antigen penodol i'r prostad (PSA) ar waith ochr yn ochr â gwell canllawiau atgyfeirio ar gyfer gofal sylfaenol. Mae llwybr tele-dermoscopi yn cael ei ddatblygu ar gyfer dermatoleg ochr yn ochr â Sylw yn ôl Symptomau (SOS) ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf (PIFU).

Rydym wedi buddsoddi £140 miliwn pellach i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion. Mae fy swyddogion wrthi'n cwblhau'r

dyraniadau a sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio. Mae hyn ar ben y £100 miliwn a ddyrannwyd ym mis Mai 2021.

Y nod yw datblygu dulliau rhanbarthol o drin ôl-groniadau orthopedeg a chataractau yn ogystal â'r ôl-groniad endosgopi. Mae arian ychwanegol yn cael ei roi ar gael yn y rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio i gefnogi'r gwaith o drawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau a sefydlu arferion da ledled Cymru. Argymhellir hefyd y dylid darparu cronfa drawsnewid genedlaethol yn debyg i'r dull yr ydym wedi'i weithredu ar gyfer gofal heb ei drefnu.

Bydd Unedau Gofal Ôl-Anesthetig (PACU) yn cael eu hehangu ar gyfer y cleifion hynny nad oes angen yr un lefel o ofal arnynt ar ôl llawdriniaeth ag y mae uned gofal critigol arferol yn ei ddarparu. Bydd cymorth hefyd i gronfeydd adfer cenedlaethol ar gyfer canser ac offthalmoleg a chymorth i gadw cleifion yn iach tra byddant yn aros am lawdriniaeth.

Mae'r Bwrdd Clinigol Orthopedig cenedlaethol wrthi'n datblygu strategaeth glinigol ar gyfer orthopedeg yn y tymor hir. Yn y tymor byr, mae byrddau iechyd yn edrych ar atebion rhanbarthol, gan gynnwys y posibilrwydd o addasu Ysbyty Seren i ddarparu canolfan ranbarthol yn y De-ddwyrain i drin y cleifion orthopedig hynny sydd wedi aros dros ddwy flynedd ac i ddatblygu safle Castell-nedd Port Talbot i ddarparu canolfan ranbarthol yn y De-orllewin i ddarparu 5,000 o lawdriniaethau ychwanegol y flwyddyn.

Mae byrddau iechyd eisoes yn datblygu cynlluniau rhanbarthol ar gyfer cataractau, gyda chynlluniau i gynyddu capasiti yn y De-ddwyrain ar draws y tri bwrdd iechyd gyda'r bwriad o gael canolfan ranbarthol yn y tymor hwy. Ar gyfer y De-orllewin, y cynllun yw cynyddu capasiti ar ddau safle a rhannu'r gweithlu ar draws y ddau safle.

O ran endosgopi, y nod yw datblygu gweithlu a chapasiti sy'n gallu cyflawni yn erbyn yr ôl-groniad.

Mae atebion ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer y Gogledd. Mae'r bwrdd iechyd yn edrych ar ddatblygu dull rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau cleifion allanol, cataractau, diagnosteg, gan gynnwys endosgopi ac orthopedeg cleifion mewnol.

Cynhelir Uwchgynhadledd Gofal wedi'i Gynllunio yn fuan lle bydd clinigwyr a rheolwyr yn gallu trafod cynlluniau.

4. Trawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys cyflwyno'r weledigaeth a nodir yng nghynllun Cymru Iachach a myfyrio ar wersi a ddysgwyd yn ystod pandemig COVID-19.

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi bod ar flaen y gad wrth ymateb i'r pandemig Covid-19. Mae Covid-19 wedi cyflymu'r broses o newid sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu. Trwy ddatblygu sylfeini *Cymru Iachach* rydym wedi mynd ati i roi ein cynllun hirdymor ar waith mewn rhai meysydd.

Mae'r weledigaeth wreiddiol ar gyfer *Cymru Iachach* wedi'i dilysu ac mae'n parhau'n berthnasol i Gymru heddiw. Wrth i ni symud i gyfnod 'adfer ar ôl covid', *Cymru Iachach* yw ein fframwaith strategol o hyd ar gyfer datblygu a defnyddio dulliau gweithio newydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar y cyfle i ailddatgan blaenoriaethau *Cymru Iachach* ac adolygu'r 40 cam gweithredu yn y Rhaglen Trawsnewid er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn canolbwyntio ar y materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig a champau gweithredu diwygiedig ym mis Mawrth gan gynnwys saith cam gweithredu newydd i greu cymunedau cryf yng Nghymru a chanolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd, atal, iechyd meddwl, plant a phobl ifanc a datgarboneiddio.

Mae ein dull integredig o ymdrin â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy *Cymru Iachach* wedi cryfhau partneriaethau a chydweithio ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol, gan ddangos ymrwymiad cyfunol gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i anghenion cymunedol. Rydym wedi greu amgylchedd lle mae ein partneriaid a'n gweithlu wedi croesawu a chyflawni'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn gyflym, gan gyflawni mewn amgylchiadau anodd iawn yn aml.

Mae buddsoddiad sylweddol a charlam mewn technoleg ddigidol wedi helpu i drawsnewid gwasanaethau yn gyflym a pharhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol mewn amgylchedd diogel. Mae TEC Cymru wedi nodi bod dros 225,000 o ymgynghoriadau rhithwir wedi'u cynnal, gan arbed dros 215,000 o oriau i gleifion nad oes angen iddynt deithio.

Gyda chymorth y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu modelau gofal newydd sydd wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod yr ymateb i Covid-19, gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn gyflym a modelau ar gyfer osgoi derbyn cleifion. Sefydlwyd Cymunedau Ymarfer i rannu profiadau ac arferion gorau ar draws y themâu hyn, ac maent yn cael eu cyflwyno bellach ar gyfer gofal yn y gymuned, iechyd emosiynol ac iechyd meddwl a gofal a alluogir gan dechnoleg. Estynnwyd y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig yn ystod y pandemig a byddant yn dod i ben ym mis Mawrth 2022. Gan adeiladu ar y dysgu a'r arferion gorau o'r rhaglenni presennol, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo penderfyniad i gyflwyno cronfa refeniw pum mlynedd newydd yn ddiweddar a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2022 i gefnogi gwaith integreiddio.

Er mwyn cipio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig, aeth Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru ati ar y cyd i gomisiynu adroddiad gan Brifysgol Abertawe ar ganfyddiadau Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid Covid-19 GIG Cymru a'r data a gasglwyd gan Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd yn ystod yr ymateb i Covid-19. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Mehefin 2021 gyda chyfres o astudiaethau achos gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae cam gweithredu penodol wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Trawsnewid *Cymru Iachach* ddiwygiedig i sicrhau bod y cynnydd hwn yn parhau yn y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Diolch i'n cynnydd bwriadol ac arwyddocaol mewn gweithgarwch arloesi ym maes iechyd a gofal dros y 5 mlynedd diwethaf, a'r buddsoddiad mewn seilwaith sy'n cefnogi hyn, roedd modd i ni ymateb yn well i'r pandemig. Fel rhan o'r ymateb i Covid-19, rydym wedi cyflymu prosesau arloesi a newid yng ngwasanaethau'r GIG, wedi cynyddu partneriaethau â phrifysgolion a diwydiant, wedi cyflwyno technolegau newydd ar raddfa fawr ac yn gyflym ynghyd â diagnosteg a meddygaeth fanwl, ac wedi gwella ein seilwaith a'n gwasanaethau digidol. Er mwyn helpu i sicrhau nad yw'r momentwm hwn yn cael ei golli, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Rhaglen Arloesi ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar er mwyn canolbwyntio

mwy ar weithgareddau sy'n bodoli eisoes, cryfhau cyfeiriad cenedlaethol, a chynnwys newidiadau a welwyd mewn ymateb i'r pandemig, gan helpu i gynnal cyflymder a graddfa'r newid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym wedi darparu cyllid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac Ymddiriedolaeth GIG i sefydlu Hybiau Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella, gan adeiladu rhwydwaith cenedlaethol o randdeiliaid i gyfuno gwaith ymchwil, arloesi a gwella.

Mae'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn gofyn am weithlu sydd â'r arbenigedd, y sgiliau a'r hyder i sbarduno'r gwaith o ailgynllunio ein systemau er gwell. Felly, rydym yn buddsoddi dros £9m mewn Academiâu Dysgu Dwys newydd a fydd yn helpu i ddarparu hyfforddiant a chymorth trawsnewidiol ym meysydd iechyd ataliol, lechyd a Gofal Seiliedig ar Werth ac arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yr academiâu arbenigol newydd hyn, y cyntaf o'u math, yn cynnig cyfleoedd cyffrous i arweinwyr a darpar arweinwyr o bob sector sydd wedi ymrwmo i sefydlu dulliau gweithio newydd ar sail tystiolaeth trwy bartneriaeth.

Mae'n bwysig nodi, er bod y bygythiad uniongyrchol o COVID-19 wedi lleihau o bosibl, ein bod yn parhau i fod mewn argyfwng iechyd cyhoeddus. Bydd pwysau'r gaeaf hwn yn heriol a bydd angen i sefydliadau barhau i fabwysiadu dulliau gweithio newydd a darparu gofal yn nes at gartrefi pobl.

Mae'r cynlluniau adfer a luniwyd gan fyrddau iechyd yn cydnabod yr angen am fwy o ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, a'r angen i fynd i'r afael â'r rhestrau aros sydd wedi cynyddu dros y 18 mis diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys theatrau modiwl newydd, capasiti diagnostig ychwanegol, a'r bwriad i ymestyn y diwrnod gwaith a chyflwyno wythnos waith chwe diwrnod ar gyfer gwasanaethau radiotherapi. Hefyd, mae'n rhaid i gynlluniau byrddau iechyd nodi camau gweithredu cydweithredol rhwng practisau meddygon teulu a thimau iechyd a gofal cymunedol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o adolygiadau a gwiriadau rheolaidd ar gyfer pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor, megis asthma a diabetes, i'w helpu i gadw'n iach.

Mae gofal brys a gofal mewn argyfwng ledled Cymru yn cael eu trawsnewid diolch i fuddsoddiad o £25m. Mae hyn yn seiliedig ar gyflwyno a chyflawni 'chwe nod':

1. Cyd-drefnu, cefnogi a chynllunio ar gyfer pobl sydd â risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng
2. Cyfeirio at y lle iawn, y tro cyntaf
3. Mynediad at opsiynau eraill yn hytrach na derbyn i'r ysbyty, sy'n ddiogel o safbwynt clinigol
4. Ymateb brys mewn argyfwng iechyd corfforol neu iechyd meddwl
5. Y gofal gorau yn yr ysbyty ar ôl derbyn i'r ysbyty
6. Agwedd y cartref yn gyntaf, a lleihau'r risg o aillderbyn i'r ysbyty

Disgwylir i Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi mwy o bwyslais ar lesiant ac ar helpu pobl i fyw'n annibynnol er mwyn osgoi uwchgyfeirio gofal i'r sectorau gofal sylfaenol brys, ambiwlans, Adrannau Achosion Brys a gwasanaethau ysbytai.

Rydym yn cyflwyno tri model gofal penodol hefyd:

- Model 'Meddwl 111 yn Gyntaf' cenedlaethol – i gyfeirio pobl sy'n credu bod angen iddynt gael mynediad at wasanaethau gofal brys neu ofal mewn

argyfwng i'r lle iawn, y tro cyntaf. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar-lein well a threfnu slotiau amser cyrraedd i bobl yn y lle gorau ar gyfer eu hanghenion.

- 'Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys' – asesu neu drin pobl ag anghenion gofal sylfaenol brys yn ddiogel, yn gyflym ac yn effeithiol heb fod angen apwyntiad meddyg teulu neu fynd i Adran Achosion Brys, gan alluogi staff yn y gwasanaethau hynny i ganolbwyntio ar bobl ag anghenion gofal cymhleth neu anghenion gofal mewn argyfwng yn y drefn honno; a
- gwasanaethau 'Gofal Brys ar yr Un Diwrnod' i gefnogi pobl sydd angen asesiad wyneb yn wyneb, diagnosteg a / neu driniaeth i ddychwelyd adref ar yr un diwrnod lle mae'n glinigol ddiogel gwneud hynny.

5. Rôl technoleg wrth ddarparu gofal yn y dyfodol (e.e. ymgynghoriadau fideo), a seilwaith TGCh yn y system iechyd a gofal.

Ar hyn o bryd, mae TEC Cymru yn cynnal ymarfer caffael i nodi platfform mwy hirdymor ar gyfer ymgynghoriadau fideo, gyda'r nod o sicrhau ei fod yn opsiwn safonol ar gyfer clinigwyr a chleifion. Mae defnyddio ymgynghoriadau fideo yn darparu hyblygrwydd ar gyfer clinigwyr a chleifion, ac mae wedi lleihau nifer yr achosion o gleifion yn methu apwyntiadau tua 40% (o'i gymharu ag apwyntiadau wyneb yn wyneb). Hefyd, mae wedi arbed amser teithio ac aros mewn ystafelloedd aros ar gyfer clinigwyr a chleifion, gan leihau nifer y bobl mewn ystafelloedd aros a lleihau'r perygl o draws-heintio rhwng cleifion.

Bydd Ap newydd GIG Cymru yn cael ei gyflwyno gan y rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd, a bydd yn rhoi mwy o gyfle i gleifion ddefnyddio dulliau digidol o reoli eu gofal iechyd; bydd modd i gleifion ddefnyddio'r ap hwn i drefnu apwyntiad â meddyg teulu, cynnal yr apwyntiad trwy ymgynghoriad fideo, ac yna gweld bod eu nodiadau gofal sylfaenol wedi'u diweddarau yn dilyn y drafodaeth.

Yn ogystal, byddai gwybodaeth am archebu presgripsiynau rheolaidd a nodweddion rheoli meddyginiaethau eraill – fel cofnodi nad yw cleifion wedi cymryd meddyginiaeth ragnodedig ar ddiwrnod penodol a'r rheswm pam, yn cael ei nodi fel rhan o'u cofnod, a byddai'r wybodaeth ar gael i glinigwyr (er enghraifft, pe bai rhywun yn dewis peidio â chymryd presgripsiwn am 2-3 diwrnod ac yn cofnodi hyn yn yr ap, ac yn cael ei dderbyn i'r ysbyty wedyn, byddai clinigwyr yno yn gallu gweld pa feddyginiaethau roedd y claf i fod i'w cymryd a pha mor aml roedd wedi'u cymryd).

Yn y dyfodol, bydd cleifion yn gallu defnyddio'r ap i adrodd am fesurau canlyniadau – er enghraifft lefelau siwgr yn y gwaed ar gyfer cleifion diabetes, gan sicrhau bod clinigwyr yn gallu monitro cynnydd cleifion o bell heb orfod dod â'r claf i'r ysbyty am adolygiad. Mae bwriadau'r ap yn y dyfodol yn cynnwys galluoedd posibl i ryngweithio â dyfeisiau personol y mae pobl yn eu gwisgo (e.e. oriawr debyg i fitbit) sy'n gallu monitro nifer o fesuriadau megis curiad y galon a'u cofnodi wedyn trwy Ap GIG Cymru yng nghofnod meddygol y claf.

Mae nifer o raglenni eraill ar y gweill a fydd yn cynyddu effeithlonrwydd y gweithlu lechyd: dogfennau eNyrso, eBresgripsiynu, WEDS, WICIS, LINC ac eraill. Bydd Mamolaeth Ddigidol yn darparu nodiadau mamolaeth electronig ar gyfer cleifion a chlinigwyr, gan ddileu'r angen i fynd â'r "ffolder werdd" adnabyddus o nodiadau lle bynnag y bydd mamau beichiog yn mynd – a lleihau'r risg o golli neu ddifrodi'r nodiadau hynny, sy'n berygl anorfod yn y broses bresennol.

Fel rhan o raglen ePCR Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, bydd cyfrifiaduron llechen yn cael eu rhoi mewn ambiwlansys fel bod modd cael mynediad

at gofnod meddygol claf. O ganlyniad, bydd parafeddygon a thechnegwyr ambiwlans yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth mewn sefyllfaoedd argyfwng trwy gyrchu gwybodaeth berthnasol lle bynnag y bônt. Mae'r prosiect Gofal Llygaid yn digido'r broses atgyfeirio rhwng optegwyr ac adrannau gofal llygaid ysbytai – mae'r broses bresennol yn dibynnu ar ffacsio dogfennau, ac mae'r optegydd yn gorfod ffonio'r ysbyty. Yr ateb sydd wedi'i gynllunio yw ffurflen ar we sy'n cwblhau'r broses atgyfeirio mewn rhai munudau ac yn cynnwys y gallu i lanlwytho dogfennau perthnasol, sy'n golygu bod optegwyr yn gallu treulio mwy o amser gyda chleifion yn hytrach na phrosesu gwaith papur.

6. Darpariaeth iechyd meddwl ar draws y sbectrwm angen.

Nodwyd bod iechyd meddwl yn gallu gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at ffyniant a llesiant hirdymor. Hyd yn oed cyn pandemig Covid-19, roedd tua un o bob pedwar o bobl yng Nghymru yn wynebu problemau iechyd meddwl. Mae'r data diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac arolygon eraill yn dangos bod lefelau pryder ymysg y boblogaeth yn parhau i fod yn uwch yn gyffredinol na chyn y pandemig. Mae agweddau ar iechyd a llesiant personol, pryder am iechyd a llesiant pobl eraill a chyllid personol i gyd wedi peri pryder i raddau gwahanol ar gyfer unigolion yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw'r effeithiau wedi'u teimlo'n gyson ar draws pob grŵp. Dengys yr ymatebion i'r arolygon a gynhaliwyd hyd yn hyn fod rhai grwpiau o bobl, fel y rhai a oedd eisoes â chyflyrau iechyd meddwl, oedolion ifanc, cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, y rhai ar aelwydydd incwm is a menywod, er enghraifft, yn nodi bod ganddynt lefelau uwch o bryderon iechyd meddwl nag eraill, sydd wedi bod yn nodwedd gydol y pandemig.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i effaith y pandemig ar iechyd meddwl wedi canolbwyntio ar dri maes allweddol:

1. Cynnal gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pob oed ac ymateb i anghenion iechyd meddwl uniongyrchol. Dynodwyd gwasanaethau iechyd meddwl yn wasanaethau 'hanfodol' fel rhan o Fframwaith Gweithredu'r GIG drwy gydol y pandemig.
2. Cryfhau ffactorau amddiffynnol a lleihau effeithiau economaidd-gymdeithasol y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant – gan gydnabod bod yr ysgogiadau ar gyfer hyn y tu allan i'r sector iechyd. Mae'r cymorth economaidd sylweddol rydym wedi'i gynnig yn hanfodol i hyn.
3. Cefnogi'r GIG i ddiwallu'r anghenion iechyd meddwl sy'n newid yn eu hardaloedd, gan gynllunio ar gyfer tonnau'r dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc yn gallu sefydlogi ac adfer ar gyfer y hirdymor.

Ar ddechrau'r pandemig, darparwyd adnoddau ychwanegol i fyrddau iechyd i'w helpu i gynnal gwasanaethau iechyd meddwl hanfodol wrth ymateb i bwysau uniongyrchol y pandemig. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i greu capasiti ar gyfer cynnydd mewn cleifion mewnol yn y ddarpariaeth i oedolion a CAMHS, er mwyn sicrhau bod gan unedau iechyd meddwl hyblygrwydd i reoli galwadau ychwanegol, cynyddu capasiti darpariaeth y sector gwirfoddol ac ehangu cymorth iechyd meddwl haen 0/1 (mynediad uniongyrchol heb atgyfeiriad) yn sylweddol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. Hefyd, rydym wedi cryfhau llinell gymorth iechyd meddwl CALL i ateb y galw cynyddol, ac rydym yn parhau i'w hyrwyddo fel un

o'n cynigion allweddol. Rydym wedi darparu cyllid ar gyfer amrywiaeth o ddulliau rhanbarthol o leihau hunanladdiad a hunan-niweidio gan gynnwys cymorth, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o brofedigaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Adolygiad o Fynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Brys Pob Oed a gyhoeddwyd o dan nawdd Grŵp y Concordat Gofal Brys ar 21 Rhagfyr 2020. Nod yr adolygiad oedd darparu dealltwriaeth well o'r galw am wasanaethau iechyd meddwl ar draws y gwasanaethau brys. Er i'r adolygiad gael ei gynnal cyn Covid-19, mae'n amlygu'r ystod o anghenion cymdeithasol a llesiant (megis cymorth cyflogaeth, gwasanaethau cymdeithasol, cyngor ar ddyledion) sy'n ffactorau achosol ar gyfer cyfran fawr o bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaethau brys pan fyddant mewn argyfwng, yn aml y tu allan i oriau swyddfa rheolaidd. Mae argymhellion allweddol yr adolygiad yn cynnwys cytuno ar ddiffiniadau cyffredin ar gyfer argyfyngau iechyd meddwl a phryderon llesiant ledled gwasanaethau cyhoeddus, a rhannu data yn well. Hefyd, mae'n argymhell cydweithio effeithiol rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i wella canlyniadau ar gyfer pobl o bob oed sy'n wynebu argyfwng ac yn chwilio am gymorth. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau bod modd ymateb mewn ffordd amlasiantaethol ledled gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys mynediad at gyngor a chymorth 'y tu allan i oriau' ar gyfer amrywiaeth o faterion gan gynnwys dyled, tai, cam-drin domestig ac unigrywdd.

Mae'r adnoddau a'r blaenoriaethau ychwanegol hyn wedi'u hadlewyrchu yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl diwygiedig gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.

Yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22, mae buddsoddiad ychwanegol gwerth £42m ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Dyrannwyd hyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau iechyd meddwl canlynol.

- £6m ar gyfer gwasanaethau argyfwng pob oed a gwaith i gefnogi llwybr amlasiantaethol (£4m ar gyfer byrddau iechyd a £2m ar gyfer gwaith comisiynu uniongyrchol ar lefel genedlaethol).
- £4m ar gyfer gwasanaethau mynediad agored / haen 0 ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc (£1.4m ar gyfer byrddau iechyd i gomisiynu'r sector gwirfoddol yn uniongyrchol a £2.6m ar gyfer comisiynu uniongyrchol ar lefel genedlaethol).
- £3m i gefnogi gwasanaethau asesu cof / cymorth diagnostig i'w ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- Dyrannwyd £7m i fyrddau iechyd (trwy gyllid gwella gwasanaethau) i gefnogi meysydd gwella gwasanaethau allweddol ym maes iechyd meddwl (e.e. CAMHS, iechyd meddwl amenedigol ac anhwylderau bwyta).
- Cyllid gwerth £13m ar gyfer twf costau craidd yng ngwasanaethau iechyd meddwl y GIG.
- Mae £4m yn darparu cymorth ychwanegol wedi'i dargedu ar gyfer y Dull System Gyfan (y Dull Ysgol Gyfan gynt) er mwyn gwella mynediad at wasanaethau sy'n cefnogi llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- Mae cyllid arall gwerth £5.4m ar gyfer CAMHS arbenigol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi pobl ifanc sydd â diagnosis o gyflyrau iechyd meddwl trwy wasanaethau cymunedol neu arbenigol ar gyfer cleifion mewnol (£3.6m ar gyfer byrddau iechyd a £1.8m ar gyfer comisiynu uniongyrchol ar lefel genedlaethol).

Ochr yn ochr â'r cyllid hwn, mae fframwaith sy'n gallu helpu i adfer gwasanaethau iechyd meddwl ar ôl y pandemig wedi'i ddatblygu.

Er mwyn goruchwyllo ein blaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl, rydym wedi sefydlu Bwrdd Cyflawni a Goruchwyllo Gweinidogol. Dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, nod y bwrdd yw goruchwyllo'r ymateb parhaus i effaith Covid-19 ar iechyd meddwl; cryfhau goruchwyliaeth a sicrwydd er mwyn cyflwyno'r strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' a'r cynllun cyflawni cysylltiedig; a monitro tystiolaeth i lywio'r rhaglen waith yn y dyfodol a'r strategaeth sy'n olynu Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru, sy'n para 10 mlynedd.

7. Datganiadau ansawdd a'r trefniadau dilynol ar gyfer cynlluniau cyflawni ar gyfer cyflyrau difrifol.

Mae Cymru iachach wedi ymrwmo i gyflwyno Cynllun Clinigol Cenedlaethol ['Fframwaith' erbyn hyn] a Datganiadau Ansawdd. Mae'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn cyflwyno'r dull strategol ehangach o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel. Mae Datganiadau Ansawdd yn disgrifio'r canlyniadau a'r safonau y byddem yn disgwyl eu gweld mewn gwasanaethau penodol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion. O ganlyniad i'r bwriad i ddatblygu Datganiadau Ansawdd, ym mis Mawrth 2020 cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Datganiadau Ansawdd yn disodli cynlluniau cyflawni ar gyfer cyflyrau iechyd difrifol.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol a'r ddau Ddatganiad Ansawdd sylfaenol cyntaf (canser a chyflyrau'r galon) ar 22 Mawrth, ac maent ar gael yma:

[Datganiad Ysgrifenedig: Fframwaith Clinigol Cenedlaethol a Datganiadau Ansawdd \(22 Mawrth 2021\)](#)
[| GOV. CYMRU](#)

Mae'r dogfennau hyn yn cyflwyno ein dyheadau sydd i'w cyflawni'n gyson ledled Cymru dros dymor y Senedd a thu hwnt. Mae'r Datganiadau Ansawdd hyn yn datblygu'r gwaith a wnaed fel rhan o'r dull cynllun cyflawni a'u rhagflaenodd. Mae Datganiadau Ansawdd ar gyfer gwasanaethau clinigol penodol yn bodoli ochr yn ochr ag ymrwymadau polisi eraill ac maent yn canolbwyntio ar ansawdd gwasanaethau a lleihau amrywiadau di-sail. Byddant yn llywio goruchwyliaeth genedlaethol o ddarpariaeth y GIG trwy'r fframwaith cynllunio a'r system rheoli perfformiad. Mae'r dogfennau'n fyw a byddant yn cael eu datblygu trwy ychwanegu llwybrau cenedlaethol, manylebau gwasanaeth, canllawiau a metrigau gwasanaeth pan fyddant ar gael.

Mae nifer o ddatganiadau ansawdd eraill gan gynnwys datganiadau ar gyfer strôc, diabetes, gofalu am bobl sy'n ddifrifol wael ac arenol, yn cael eu datblygu gan fforymau cenedlaethol presennol, sy'n dwyn ynghyd Lywodraeth Cymru, y GIG a'r trydydd sector. Disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi eleni ar ôl cael eu cwblhau a'u cytuno. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau cyflawni a gafodd eu hymestyn am flwyddyn, megis strôc, gofalu am bobl sy'n ddifrifol wael, diabetes a chlefyd anadlol. Hefyd, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddisodli cynlluniau ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu gan Ddatganiadau Ansawdd. Ni fydd rhai cynlluniau cyflawni eraill, megis endosgopi ac iechyd meddwl, yn cael eu disodli eto. Mae Datganiadau Ansawdd yn nodi disgwyliad polisi Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid i gyrff y GIG ymateb trwy eu prosesau cynllunio. Fel mae'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn ei ddisgrifio, bydd rhaglenni cenedlaethol a rhwydweithiau clinigol

yn galluogi unrhyw arweinyddiaeth a chydgysylltu cenedlaethol sy'n ofynnol; hefyd, byddant yn cysylltu â'r drefn atebolrwydd trwy swyddogaeth arfaethedig Gweithrediaeth y GIG.

8. Cynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal, a recriwtio/cadw staff i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r GIG yng Nghymru yn cyflogi llawer iawn o staff a'r nifer fwyaf erioed o weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn hyfforddiant. Er gwaethaf hyn, yn union fel rhannau eraill o'r DU, mae Cymru yn wynebu pwysau sylweddol ar y gweithlu ledled y system iechyd a gofal.

Ym mis Hydref 2020, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd strategaeth gweithlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y strategaeth yn trawsnewid y gweithlu ledled y system ac yn sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu ar gyfer y dyfodol. Mae'n canolbwyntio ar wella llesiant, amrywiaeth, cynhwysiant, gallu a dwyieithrwydd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae capasiti a chynllunio'r gweithlu yn flaenoriaeth i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar lefel leol a rhanbarthol. Byddwn yn cynnal ac yn cynyddu buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd, gan ddarparu 12,000 yn fwy o staff clinigol erbyn 2024-25. Hefyd, byddwn yn sefydlu ysgol feddygol newydd yn y Gogledd.

Ochr yn ochr â buddsoddi yn y cyflenwad domestig o weithwyr gofal iechyd, bydd angen recriwtio cyfran fach ond pwysig o'r gweithlu o rannau eraill o'r DU a thramor. Fodd bynnag, mae'r broses hon yn digwydd yng nghyd-destun prinder llafur cenedlaethol a rhyngwladol sy'n effeithio ar y broses o recriwtio gweithwyr i'r GIG yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae byrddau iechyd yng Nghymru yn recriwtio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o dramor, yn unol ag egwyddorion recriwtio moesegol. Mae gwaith recriwtio ar lefel leol yn cael ei gefnogi gan ymgyrch farchnata 'Hyfforddi. Gweithio. Byw.' Trosglwyddwyd yr ymgyrch hon i bortffolio AaGIC yn ystod 2020-21.

Yn ogystal â denu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol i Gymru, mae gwella'r broses o gadw staff sydd eisoes yn gweithio yma yn bwysig yn strategol. Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau wedi bod yn asesu a yw staff yn debygol o adael y GIG oherwydd pwysau sy'n deillio o'r pandemig, gan fynd ati ar yr un pryd i helpu i gadw staff trwy gyflwyno polisïau amrywiol i wella ymgysylltiad a llesiant staff a helpu pobl i aros mewn gwaith.

Mae pwysau sylweddol ar y system gofal cymdeithasol ar hyn o bryd sy'n effeithio ar y broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol ac argaeledd gofal yn y cartref. Rydym yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i fonitro'r effaith a hyrwyddo dulliau gweithredu cydgysylltiedig wrth i ni nesáu at bwysau ychwanegol y gaeaf. Mae agor y sectorau manwerthu/lletygarwch a gwella cyflogau ac amodau gwaith yn y GIG yn effeithio ar recriwtio a chadw staff. Mae staff wedi blino ac o dan fwy o bwysau oherwydd absenoldebau staff a swyddi gwag. Mae gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru wedi sylwi ar gynnydd yn y galw am wasanaethau gofal, yn enwedig gofal cartref.

Rydym wedi darparu cymorth ariannol i Gofal Cymdeithasol Cymru gynnal ymgyrch recriwtio genedlaethol 3 wythnos, gan ddechrau ar 23 Awst. Nod yr ymgyrch yw hyrwyddo gyrfaeodd mewn swyddi gofal cymdeithasol ac amlygu'r porth swyddi cenedlaethol a gynhelir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Rydym wedi darparu cyllid i alluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i ddarparu cwrs hyfforddi 4 diwrnod di-dâl, 'cyflwyniad i ofal cymdeithasol' ar lefel genedlaethol er mwyn cyflwyno pobl i ofal cymdeithasol a darparu cymorth i chwilio am waith wedi hynny.

Rydym wedi sefydlu dau gynllun yn 2020 ac eleni sy'n rhoi gwobrau ariannol i staff ym maes gofal cymdeithasol er mwyn cydnabod eu hymrwymiad yn ystod Covid-19. Mae amrywiaeth o wasanaethau llesiant ar gael i staff a rheolwyr drwy Gofal Cymdeithasol Cymru.

Ar hyn o bryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn canolbwyntio ar gyfleoedd yn ymwneud ag effeithlonrwydd systemau, gwella dulliau gweithredu ar y cyd a dulliau creadigol o ddatblygu mwy o adnoddau staff – ond mae sicrhau gwelliant yn y tymor byr yn parhau i fod yn her sylweddol.

Y llynedd, aeth Llywodraeth Cymru ati i gynnull Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, grŵp partneriaeth cymdeithasol sy'n dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i edrych ar sut y gellir gwella telerau ac amodau cyflogaeth gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Sefydlwyd y Fforwm mewn partneriaeth gymdeithasol, gan ddod â llywodraeth, cyflogwyr ac undebau at ei gilydd. Mae cynrychiolwyr o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn aelodau o'r Fforwm ochr yn ochr â chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur a Darparwyr.

Mae'r Fforwm yn ystyried sut y dylid cymhwyso'r diffiniad o waith teg ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, a thrwy drafodaethau ar y cyd rhwng undebau, cyflogwyr a llywodraeth, bydd yn nodi sut y dylid mynd ati i gyflwyno arferion gwaith da yn y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys ym meysydd cyflogau, amodau gwaith, llais gweithwyr a hyfforddiant. Hefyd, gofynnwyd i'r Fforwm ddarparu cyngor ar sut y dylid gweithredu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, a disgwylir ei argymhellion ym mis Hydref.

9. Dealltwriaeth o COVID hir a'i effaith ar y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Daeth yn amlwg ym mis Ebrill 2020 y gallai'r galw hirdymor am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynyddu. Ar y pryd, y disgwyliad oedd y byddai hyn yn effeithio ar bobl â haint Covid-19 difrifol a oedd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty ac y byddai angen gwasanaethau adsefydlu a gwella mwy hirdymor arnynt; ochr yn ochr â'r rhai a gafodd eu heffeithio gan yr effeithiau ehangach megis gorfod aros am driniaeth ar gyfer cyflyrau eraill ac effaith y cyfyngiadau symud, ynysu a cholli swyddi. Gweithiodd staff iechyd a gofal cymdeithasol gyda swyddogion i ddatblygu'r fframwaith Adsefydlu a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020. Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd adnodd modelu i helpu i ragweld y galw am wasanaethau adsefydlu.

Wrth i ni gyrraedd mis Medi, nodwyd yr effaith hirdymor ar bobl nad oeddent o reidrwydd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty i gael triniaeth ar gyfer eu haint covid-19. COVID hir (Covid-19 parhaus symptomatig/ Syndrom ôl-Covid) yw'r enw sydd wedi ei fabwysiadu ar gyfer hyn. Arweiniodd Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddor Iechyd y gwaith o ddatblygu ymateb darbodus i'r galw cynyddol hwn. Canolbwyntiwyd ar drawsnewid ac ehangu mynediad at wasanaethau sy'n bodoli eisoes a chyfrannu at y dysgu a datblygiad canllawiau NICE.

Lansiwyd y Rhaglen Adferiad ym mis Mehefin eleni a fydd, gyda chyllid ychwanegol gwerth £5m, yn cefnogi cleifion sy'n dioddef symptomau sy'n gysylltiedig â COVID hir. Bydd yr arian ychwanegol yn caniatáu i'n Byrddau Iechyd ehangu darpariaeth diagnosis, triniaeth, adsefydlu a gofal, gan ddefnyddio cyllid i ddatblygu llwybrau lle mae cleifion yn gallu derbyn triniaeth bersonol ar gyfer eu hanghenion, yn ogystal â sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mor agos i'r cartref â phosibl. Bydd yr arian yn mynd tuag at y canlynol:

- Cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd i ddatblygu seilwaith i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd hyblyg er mwyn helpu pobl i wella o COVID-19, COVID hir a'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n fwy cyffredinol gan y pandemig.
- Darparu hyfforddiant ac adnoddau digidol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn helpu i wneud diagnosis, ymchwilio i COVID hir a'i drin, a chefnogi pobl fel rhan o'u triniaeth a'u hadsefydlu.
- Buddsoddi mewn adnoddau digidol a fydd yn sicrhau bod y GIG yn helpu pobl i wneud y penderfyniadau triniaeth cywir.

Fel rhan o'r Rhaglen rydym wedi lansio canllaw Adferiad Cymru Gyfan ar gyfer rheoli COVID hir. Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar Lwybr Cymunedol Cymru Gyfan ac mae'n cynnig y wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr iechyd proffesiynol am reoli COVID hir ledled GIG Cymru. Fe'i cefnogir gan becyn addysg ac adnoddau cynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys y broses atgyfeirio i ofal eilaidd lle bo angen a chanllawiau clir ar pryd i drefnu gwasanaeth diagnosteg ar gyfer pobl sy'n byw gyda COVID hir. Mae diweddariadau'n cael eu darparu yn uniongyrchol i ddefnyddwyr y canllaw wrth i dystiolaeth newydd a newidiadau ddod i'r amlwg. Yn bwysicaf oll, mae'n golygu bod gan weithwyr iechyd proffesiynol ledled Cymru fynediad at yr un wybodaeth a chynghor ar drin y cyflwr hwn, ynghyd â chanllaw clir ar sut a phryd i atgyfeirio cleifion at driniaeth a chymorth.

Mae'n anodd mesur nifer y bobl y bydd angen darparu gwasanaethau ar eu cyfer, neu pa wasanaethau y bydd angen i bobl eu defnyddio. Y prif reswm am hyn yw amrywioldeb sylweddol symptomau a phrofiad cleifion sydd â'r cyflwr hwn. Mae llawer yn gallu rheoli symptomau drwy hunanofal yn y cartref, felly nid ydynt yn defnyddio gwasanaethau lle gellir cofnodi eu cyflwr yng nghofnodion meddygon teulu. Cydnabyddir hefyd nad yw'r cyflwr yn cael ei gofnodi'n rheolaidd mewn systemau meddygon teulu, er ein bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r mater hwn trwy gynnwys cynghor ar godio yn y llwybr digidol. Yn ôl y data diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (5 Awst) amcangyfrifwyd bod 47,000 o bobl mewn cartrefi preifat wedi nodi (neu wedi amau) bod COVID hir arnynt o leiaf 12 wythnos cyn hynny (cyfnod o bedair wythnos yn dod i ben 4 Gorffennaf 2021).

Gan ein bod yn parhau i ddysgu am y cyflwr hwn, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion adolygu'r rhaglen bob chwe mis. Yn ystod y cyfnod hwn rydym yn parhau i fonitro dysgu yn y DU ac yn rhyngwladol yn ymwneud â'r pwnc pwysig hwn ac rydym wedi gofyn i Gomisiwn Bevan wneud argymhellion mewn perthynas â chreu cofrestrfa

cleifion. Mae GIG Cymru, trwy Gyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddor Iechyd a Chymuned ymarfer, yn parhau i rannu dysgu ledled y Byrddau Iechyd Perthnasol wrth iddynt sefydlu gwasanaethau i ymateb i'r cyflwr newydd hwn.

Trwy waith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cyfraniad allweddol at ymdrech y DU gyfan i gasglu tystiolaeth i fynd i'r afael ag effaith COVID-19.

Mae Cymru yn cymryd rhan yn astudiaeth y DU o'r enw 'The Post-Hospitalisation COVID-19 Study (PHOSP COVID)', sy'n cael ei hariannu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) ac MRC UK Research and Innovation o dan arweiniad Canolfan Ymchwil Biofeddygol NIHR Caerlŷr. Sefydlwyd yr astudiaeth Iechyd y Cyhoedd frys hon i asesu effeithiau hirdymor COVID-19 ar Iechyd ac adferiad cleifion, ac mae 10,000 o bobl wedi cymryd rhan ledled y DU. Mae mwy o bobl wedi'u recriwtio yng Nghymru nag yn unman arall, ac mae safleoedd ledled Cymru.

Mae'r 'Astudiaeth Adfer ar ôl COVID-19 - Hyfforddiant Mewnanadlu' wedi'i sefydlu gan Brifysgol Abertawe i fynd i'r afael ag adferiad cleifion o effeithiau COVID-19, er enghraifft, diffyg anadl a blinder. Nod yr astudiaeth yw cynorthwyo cleifion i ail-hyfforddi cyhyrau anadlol i wella techneg anadlu er mwyn lleddfu dioddefaint y claf a phwysau ar y GIG trwy'r leihau'r posibilrwydd o ail-dderbyn cleifion i'r ysbty.

Mewn ymateb i'r pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Canolfan Dystiolaeth COVID-19. Mae hwn yn fuddsoddiad 24 mis gwerth £3m i ddarparu rhaglen ymchwil, casglu tystiolaeth a defnyddio gwybodaeth sy'n benodol i Gymru gyda'r nod o wireddu blaenoriaethau a diwallu anghenion brys sy'n deillio o COVID-19, gan gynnwys effeithiau hirdymor y pandemig.

10. Y camau nesaf a'r amserlenni cysylltiedig yn dilyn ymgynghoriad cymorth *Papur Gwyn Ailgydbwysu Gofal a Chymorth*, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer deddfwriaeth.

Cyhoeddwyd y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Ailgydbwysu Gofal a Chymorth ar wefan Llywodraeth Cymru ar 29 Mehefin.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymadau i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol a deddfwriaeth i gryfhau gwaith partneriaeth a chyfuno gwasanaethau Iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymatebion i'r ymgynghoriad i Aelodau'r Senedd mewn datganiad llafar ar 6 Gorffennaf. Ymrwymodd y Dirprwy Weinidog i ymgysylltu â'r sector i ddatblygu polisi wedi'i gyd-gynhyrchu. Bydd grwpiau technegol yn cael eu sefydlu yn yr Hydref a bydd y grwpiau hyn yn llywio'r gofynion ar gyfer deddfwriaeth.

11. Cynlluniau ar gyfer diwygio'r system i dalu am ofal.

Ym mis Mawrth, cyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ddatganiad llafar i'r Senedd, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am waith a chasgliadau'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal. Mae'r Grŵp wedi gwneud llawer o waith i archwilio goblygiadau anghenion ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol wrth i'r boblogaeth gynyddu, a dewisiadau ymarferol i fynd i'r afael â nhw. Daeth y Grŵp i'r casgliad bod ateb ledled y DU i gyllid gofal

cymdeithasol yn parhau i fod yn ddewis gwell gan y gallai hyn roi ystyriaeth briodol i'r cysylltiad pwysig â'r system dreth a budd-daliadau. Er bod y Grŵp wedi dod i'r casgliad nad oedd ateb treth ar gyfer Cymru yn unig i godi arian ar gyfer gofal cymdeithasol yn ddewis yn y tymor byr oherwydd effaith economaidd y pandemig, roedd yn cefnogi buddsoddiad tymor byrrach mewn gofal cymdeithasol a allai fod yn bosibl drwy ddewisiadau cyllideb yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys darparu cymorth i'r gweithlu trwy'r Cyflog Byw Gwirioneddol sydd bellach yn un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Gwnaed penderfyniad y bydd y Grŵp yn ailymgynnull yn ystod y tymor Senedd hwn.

Ym mis Gorffennaf, cafwyd nifer o erthyglau yn y wasg genedlaethol yn nodi mai bwriad gwreiddiol Llywodraeth y DU oedd cyhoeddi ei chynlluniau ar gyfer gofal cymdeithasol cyn toriad yr haf, ond rhagwelir y daw'r cyhoeddiad yn yr hydref bellach, er nad yw'r union amseru'n hysbys.

Mae diwygio'r system ar gyfer talu am ofal yn fater cymhleth sy'n cael effaith sylweddol ar lawer o bobl. Bydd yn bwysig deall goblygiadau unrhyw gynigion a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU i Gymru, ac rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gael gwybodaeth am natur eu cynigion, ymgysylltu'n gynnar, a gofyn am eglurder ynglŷn ag amseriad unrhyw gyhoeddiad. Fel y nodwyd eisoes, os nad yw cynigion Llywodraeth y DU yn arwain at ateb sy'n cael ei ariannu'n llawn ledled y DU, byddwn yn mynd ati i ddatblygu ein cynlluniau ein hunain ar gyfer diwygio cyllid i gefnogi sector gofal cymdeithasol cynaliadwy i oedolion.

12. Cymorth i ofalwyr di-dâl.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirdymor i wella cydnabyddiaeth a chymorth i ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae'r pandemig wedi cynyddu ein hymwybyddiaeth, ac mae ein Strategaeth newydd, a lanswyd ym mis Mawrth 2021, yn ailddatgan yr ymrwymiad hwn ac yn manylu ar sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cefnogi'n fwy effeithiol ac yn gallu manteisio ar eu hawliau a'u hawliadau. Hefyd, mae'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn nodi ein bwriad i gyd-gynhyrchu Siarter newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'n blaenoriaethau cenedlaethol newydd. Ar ôl ymgysylltu â gofalwyr di-dâl a'u cynrychiolwyr, rydym wedi ychwanegu pedwaredd flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ofalwyr di-dâl ym meysydd addysg a chyflogaeth. Dyma'r blaenoriaethau cenedlaethol:

1. Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl
2. Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
3. Helpu i fyw yn ogystal â gofalu
4. Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

Gan weithio gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, rydym wedi cynnull tri gweithgor i gyd-gynhyrchu cynllun cyflawni ategol a'r Siarter newydd. Mae aelodaeth o'r grwpiau wedi'i hymestyn i gynnwys gofalwyr di-dâl a sefydliadau sy'n gweithio gyda neu ar gyfer gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r cynllun cyflawni, a chopi drafft o'r Siarter newydd, wedi'i gyd-gynhyrchu â gofalwyr o bob oed, i'w drafod yn ehangach, yn hydref 2021. Bydd y cynllun yn nodi camau gweithredu, amserlenni a mesurau clir ar gyfer monitro cynnydd ar gyfer pob un o'r pedair blaenoriaeth genedlaethol.

Er mwyn gwella ein dulliau o sicrhau bod llais y gofalwr wrth wraidd y broses o gynllunio a chyflwyno polisiau, rydym yn adolygu aelodaeth a chylch gorchwyl ein Tudalen y pecyn 70

Grŵp Ymgysylltu ac yn gweithio gyda byrddau partneriaeth rhanbarthol i hyrwyddo arferion da ym maes cefnogi cynrychiolwyr gofalwyr.

Un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu yw creu swydd newydd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru. Penodwyd Albert Heaney, Cyn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, ac un o'i flaenoriaethau cynnar yw gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, a'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol, i sicrhau pwyslais penodol ar y materion sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Cyfarfu ag aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr ar 7 Gorffennaf, cyn siarad â'r grŵp Ymgysylltu Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr ar 14 Gorffennaf er mwyn gwrando ar eu pryderon a'u hadborth a llywio gwaith y dyfodol.

Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi cynyddu'r pwysau ar ofalwyr di-dâl a oedd eisoes yn ei chael yn anodd ymdopi â'u rôl ofalu o bosibl. Yn 2021-22, rydym wedi dyrannu £3 miliwn i gynyddu ac amrywio gwasanaethau gofal seibiant ar gyfer gofalwyr di-dâl ledled Cymru. I ddechrau, mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r arian i ateb y cynnydd yn y galw am ofal seibiant wrth i gyfyngiadau symud gael eu llacio. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, rydym yn annog awdurdodau lleol i weithio ar draws sectorau i ddatblygu dulliau mwy arloesol, megis cronfa seibiannau byr.

Er mwyn llywio'r gwaith hwn a nodi ymarfer da sydd â'r potensial i gael ei efelychu ledled Cymru, comisiynwyd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac academyddion ym mhrifysgolion Abertawe a Bangor i ddrafftio adroddiad 'Map Trywydd i Seibiant'. Trwy ddatblygu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n darparu ar gyfer anghenion unigol, bydd pob gofalwr di-dâl yn cael cymorth i fanteisio ar y cyllid hwn, gan gynnwys teuluoedd plant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, gofalwyr ifanc a gofalwyr hŷn a allai fod yn byw gyda'u cyflwr iechyd eu hunain hefyd.

Cydnabyddir yr heriau penodol sy'n wynebu teuluoedd a'r rhai sy'n gofalu am blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi hosbisau plant yng Nghymru i sicrhau bod gofal priodol ar gael pan fydd angen. Rydym yn parhau i fuddsoddi dros £8.4m bob blwyddyn i gefnogi gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol ledled Cymru. Mae llawer o'r cyllid hwn yn mynd at hosbisau oedolion a phlant. Hefyd, rydym wedi dyrannu £12.3m o gyllid brys i hosbisau gydol y pandemig er mwyn diogelu gwasanaethau clinigol craidd a chryfhau cymorth profedigaeth. Mae dros £2.3m o'r cyllid hwn wedi'i ddyrannu i gefnogi hosbisau plant Cymru.

Lansiwyd y Gronfa Cymorth i Ofalwyr gwerth £1m ddiwedd mis Hydref 2020 mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a'i phartneriaid rhwydwaith ledled Cymru. Roedd £0.25m ychwanegol ar gael ddiwedd mis Ionawr 2021 i gydnabod y galw mawr a nodwyd yn ystod cam cyntaf cyflwyno'r gronfa. Cafodd y gronfa ei hysbysebu a'i hyrwyddo i ystod eang o gynulleidfaoedd yn genedlaethol ac yn lleol. Yn 2020-21, llwyddodd y gronfa i gefnogi dros 5,900 o ofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, i'w helpu i ymdopi â phwysau ariannol ychwanegol.

Dangosodd adborth gan ofalwyr di-dâl a'r gwasanaethau a oedd yn darparu'r Gronfa Gymorth ei bod wedi helpu i fynd i'r afael ag angen sylweddol nas diwallwyd ac wedi cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar ofalwyr di-dâl:

“Roeddwn i'n ddiolchgar iawn am y grant a gefais. Llwyddodd i leddfu llawer iawn o bwysau'r mis hwnnw ac fe helpodd fi i gadw fy mhlant yn gynnes. Fe

wnes i dderbyn taleb siopa, ac fe wnes i roi'r arian a arbedais o beidio â gorfod siopa yn syth yn y mesurydd nwy. Diolch yn fawr."

Yn ogystal â chynorthwyo gofaluwr sy'n wynebu anhawster ariannol, llwyddodd y cynllun i helpu i gysylltu gofaluwr nad oeddent yn cael cymorth o'r blaen â gwasanaethau cymorth ehangach. Cytunwyd ar £1m arall i barhau i ddarparu'r Gronfa Cymorth i Ofaluwr yn 2021-22, a bydd yn ceisio darparu gwasanaethau cymorth cynaliadwy ychwanegol ar gyfer y gofaluwr mwyaf agored i niwed.

Rydym yn ymwybodol y gallai fod angen cymorth wedi'i dargedu ar ofaluwr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofaluwr. Mae ein prosiect uchelgeisiol i greu cerdyn adnabod cenedlaethol i Ofaluwr Ifanc, gan gydweithio â phob un o'r 22 awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Gofaluwr Cymru, bellach wedi dechrau ar ei ail flwyddyn. Rydym wedi darparu £186,000 yn 2021-22, sef £150,000 i awdurdodau lleol ddatblygu eu gweithgarwch, a £36,000 i Ymddiriedolaeth Gofaluwr Cymru greu adnoddau cenedlaethol a chefnogi'r cyfarfodydd prosiect cenedlaethol a grwpiau clwstrw dysgu. Diolch i'r prosiect, mae awdurdodau lleol a'r darparwyr trydydd sector a gomisiynir ganddynt i ddarparu gwasanaethau i ofaluwr ifanc yn gallu profi a threialu dulliau a systemau gwahanol er mwyn nodi beth sy'n llwyddo ar lawr gwlad i ofaluwr ifanc. Erbyn hyn, mae 16 awdurdod lleol wedi lansio cerdyn adnabod neu wedi trosglwyddo cerdyn presennol i'r prosiect cenedlaethol. Y nod yw sicrhau bod pob un o'r 22 awdurdod lleol yn cynnig y cerdyn adnabod cenedlaethol erbyn diwedd Mawrth 2022.

Mae ein Cynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn parhau. Rydym yn darparu £2.6 miliwn dros dair blynedd rhwng 2020 a 2023 i Gofaluwr Cymru, Fforwm Rhieni a Gofaluwr Cymru Gyfan, Ymddiriedolaeth Gofaluwr Cymru ac Age Cymru. Mae'r pedwar prosiect yn darparu ystod o gymorth i ofaluwr o bob oed ac mae hefyd yn gweithio gyda staff iechyd a gofal cymdeithasol i wella ymwybyddiaeth o'r materion sy'n effeithio ar ofaluwr, a sut i wella cymorth iddynt. Mae pob un o'r prosiectau wedi cyflawni eu blwyddyn gyntaf ac maent yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth a thrawsnewid gwasanaethau ar gyfer gofaluwr ledled Cymru.

Rydym wedi darparu cyllid gwerth £1m i fyrddau iechyd lleol a'u partneriaethau gofaluwr yn 2020-21, a bydd yr un swm ar gael yn 2021-22. Mae'r cyllid hwn wedi bod yn hyblyg ac mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi gofaluwr sy'n cael trafferth ymdopi â phwysau cynyddol y pandemig. Mae'n cefnogi amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys cyfleoedd newydd ar gyfer mathau o gymorth ar-lein, gan barhau i weithio gyda gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd. Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn ffynhonnell arall o gymorth ariannol ar gyfer prosiectau a gweithgarwch gofaluwr di-dâl. Maent yn parhau i gael eu nodi fel un o'r grwpiau blaenoriaeth yn y canllawiau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Buddsoddwyd cyllid referniw gwerth £89 miliwn gennym yn 2020-21, a byddwn yn buddsoddi £89 miliwn arall o gyllid referniw yn 2021-22 er mwyn cydnabod manteision cadarnhaol y Gronfa.

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn bwrw ymlaen ag ail gam ein hymgyrch gyhoeddusurwydd genedlaethol lwyddiannus ynghylch hawliau gofaluwr. Fe'i cyflwynir gan Gofaluwr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofaluwr Cymru, mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru. Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar ofaluwr o bob oed yn ystod y cam hwn, gyda'r nod o helpu unigolion i ganfod a oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu a'u gwneud yn ymwybodol o'u hawl i fanteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt o bosibl.

Mae iechyd meddwl a llesiant gofalwyr di-dâl yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Darparwyd £60,000 i Gofalwyr Cymru yn 2020-21 er mwyn datblygu eu sesiynau ar-lein Amser i Mi sy'n canolbwyntio ar gymorth seicolegol a llesiant gofalwyr. Mae'r sesiynau ar-lein a'r digwyddiadau llesiant yn rhoi seibiant byr i ofalwyr o'u rôl fel gofalwyr, yn ogystal â darparu canllawiau defnyddiol ar sut i reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain.

Hefyd, mae Gofalwyr Cymru wedi lansio Hwb Llesiant ar eu gwefan fel rhan o'u prosiect "Grymuso a Llesiant Gofalwyr", sy'n cael ei ariannu trwy Gynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2020-23 Llywodraeth Cymru. Mae iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc a gofalwyr ifanc wedi derbyn cymorth hefyd, er enghraifft trwy lansio'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Ifanc sydd ar gael drwy Hwb. Hefyd, rydym wedi hyrwyddo mynediad at wybodaeth a chymorth trwy linell gymorth a gwefan MEIC a'r gwasanaeth llinell gymorth CALL cenedlaethol. Mae pobl ifanc yn parhau i allu cael gafael ar gymorth trwy wasanaethau cwnsela mewn ysgolion, ynghyd â gwybodaeth, cyngor a chymorth gan awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau lleol ar gyfer gofalwyr ifanc a gomisiynir gan awdurdodau lleol.

Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion
Gwledig
Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr
Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder
Cymdeithasol
Cadeirydd, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y
Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

16 Gorffennaf 2021

Annwyl Gadeiryddion pwyllgor

Gwaith craffu ariannol

Yn ein cyfarfod ar 8 Gorffennaf 2021, trafododd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) y rhaglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru sydd ar ddod a'n dull o graffu. Rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc i rannu ein syniadau.

Amserlen

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'r Trefnydd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn nodi y bydd y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar 20 Rhagfyr 2021 ac y bydd cynnig y Gyllideb flynyddol yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Chwefror 2022.

Ymgynghorodd y Pwyllgor Busnes â ni ar yr amserlen arfaethedig. Fel y nodwyd yn llythyr y Trefnydd, mae Canghellor y Trysorlys wedi nodi ei fwriad i gynnal adolygiad cynhwysfawr aml-flwydd o wariant, sy'n golygu na fydd Llywodraeth Cymru yn gwybod ei setliad cyllidebol nes i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant ddod i ben yn yr hydref.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddCyllid@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddFinance@senedd.wales

 0300 200 6565

Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i fynegi ein siom y bydd y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chyhoeddi yn ystod toriad y Nadolig. Er ein bod yn deall bod yr amserlen arfaethedig oherwydd amseriad adolygiad cynhwysfawr o wariant Llywodraeth y DU, hon fydd y drydedd flwyddyn yn olynol i'r amserlen arfaethedig leihau'r amser sydd ar gael i'r Senedd wneud gwaith craffu.

Y prif feysydd craffu ar y gyllideb

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i barhau â'r dull a ddefnyddiwyd yn Seneddau'r gorffennol, sy'n canolbwyntio ar bedair egwyddor gwaith craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** - edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- **Blaenoriaethu** - a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- **Gwerth am arian** - yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau'n dda - darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. canlyniadau);
- **Prosesau'r gyllideb** - a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth, a rheolaeth perfformiad a rheolaeth ariannol.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai eich gwaith craffu ar y gyllideb yn dilyn yr egwyddorion hyn.

Y dull o ran ymgysylltu

Bydd y Pwyllgor yn trafod ei ddull o ran ymgysylltu â'r Gyllideb Ddrafft ddechrau tymor yr hydref. Hoffem i'r ymgysylltiad hwn ategu a llywio gwaith y pwyllgorau polisi. Byddwn yn croesawu trafod hyn yn unigol â'r Cadeiryddion, neu yn Fforwm y Cadeiryddion.

Yn dilyn yr arfer mewn Seneddau blaenorol, mae'r Pwyllgor yn fodlon cynnal ymgynghoriad ar ran yr holl bwyllgorau. O gofio'r amserlen arfaethedig, rydym o'r farn mai cyhoeddi ein hymgyngghoriad ddechrau tymor yr hydref fyddai fwyaf addas.

Bydd Clerc y Pwyllgor Cyllid yn hysbysu eich clercod pwyllgor pan fydd yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi a byddwn yn gwerthfawrogi eich help i hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy eich adnoddau cyfathrebu eich hunan i annog cynulleidfa ehangach ac ymgysylltu â hi. Newidiodd y darpariaethau o ran adrodd gan bwyllgorau polisi yn 2017, ac rydych bellach yn gallu adrodd yn eich rhinwedd eich hunan (os dymunwch), a gall eich adroddiadau gael eu defnyddio fel dogfen ategol i'r ddadl ar y Gyllideb Ddrafft.

Dadl blaenoriaethau dan arweiniad y Pwyllgor Cyllid



Argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd y dylai Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol gynnal dadl flynyddol ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau drafod y blaenoriaethau gwariant, a dylanwadu arnynt o bosibl, cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi.

Eleni, trefnodd Llywodraeth Cymru ei dadl ei hun ynghylch *Paratoi'r Gyllideb: Blaenoriaethau ar gyfer 2022-23*, a gynhaliwyd ddydd Mawrth 13 Gorffennaf. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Cyllid a'r Pwyllgor Busnes i geisio cytundeb y bydd hon, yn y dyfodol, yn ddadl dan arweiniad y Pwyllgor Cyllid a gynhelir bob blwyddyn cyn toriad yr haf, y mae'r Gweinidog a'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno iddi. Yn y blynyddoedd i ddod, rydym yn gobeithio cynnal ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd i lywio'r ddadl hon, a byddwn yn croesawu eich syniadau ynghylch sut y gall y pwyllgorau sy'n craffu ar y Gyllideb Ddrafft weithio gyda'i gilydd i gasglu barn y cyhoedd am yr hyn y mae'n teimlo y dylai blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru fod.

Gwaith craffu ariannol ar ddeddfwriaeth

Swyddogaeth graidd y Pwyllgor yw gwneud gwaith craffu ariannol ar Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig. Fodd bynnag, dylid cynnwys gwaith craffu ariannol yn y gwaith craffu y mae'r holl bwyllgorau'n ei wneud. Erbyn hyn, mae'r amser sydd ar gael i'r Pwyllgor yn gyfyngedig ac mae ganddo lawer o rwymedigaethau statudol i'w cyflawni. Felly, rydym wedi cytuno i drafod pob Bil a gyflwynir i'r Senedd yn gychwynnol er mwyn penderfynu a fyddwn yn craffu ar oblygiadau ariannol Bil, gan ddibynnu ar lefelau'r costau a'r tryloywder a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Os byddwn yn penderfynu peidio â gwneud gwaith craffu ariannol ar Fil penodol, byddwn yn ysgrifennu at y pwyllgor craffu cyfnod un perthnasol i nodi pwyntiau o ddiddordeb y gall fod angen i'r Pwyllgor eu trafod wrth adrodd ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Gan mai dyma ddechrau Senedd newydd, gobeithio y gallwn achub ar y cyfle i archwilio ffyrdd o weithio ar y cyd â phwyllgorau eraill i sicrhau'r gwaith craffu ariannol mwyaf effeithiol ar Lywodraeth Cymru. Hoffwn awgrymu ein bod yn trafod hyn yn fanylach yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid, drwy ffonio 0300 200 6372 neu anfon e-bost i seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir





Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg**

—
**Children, Young People
and Education Committee**

Senedd Cymru
Item 4.2
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@enedd.cymru
enedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
enedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

At:

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

20 Gorffennaf 2021

Annwyl Gadeiryddion

Blaenoriaethau plant a phobl ifanc ar gyfer y Chweched Senedd

Fel Pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar yr holl faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, ein bwriad yw sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed fel mater o drefn yng ngwaith ein Pwyllgor. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 14 Gorffennaf, cytunwyd y byddai hyn yn flaenoriaeth allweddol gennym.

Er mwyn llywio ein gwaith cynllunio strategol a'n blaenraglen waith, rydym yn bwriadu cynnal rhaglen wedi'i theilwra o ymgysylltu pwrpasol â phlant a phobl ifanc. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn rhyddwr yr hydref. Bydd ein ffocws cychwynnol ar ofyn i blant a phobl ifanc beth maen nhw'n feddwl ddylai blaenoriaethau'r Chweched Senedd fod.

O ystyried y bydd yr amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan blant a phobl ifanc yn berthnasol i gylch gwaith eich pwyllgor chi, byddwn yn sicrhau bod canlyniadau'r gweithgaredd hwn yn cael eu rhannu â chi, er mwyn sicrhau y gall eich gwaith chwithau ystyried eu barn. Bydd tîm ein Pwyllgor yn sicrhau bod eich timau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau wrth iddynt ddatblygu, a byddant yn cadarnhau amserlenni maes o law.

Cofion cynnes,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol
 Llywodraeth Cymru
Drwy e-bost

15 07 2021

Annwyl Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) – proses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar gyfer y GIG

Ein hymrwymiad a'n nod parhaus fel sefydliad yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal o ansawdd da, a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol, yn unol â safonau cydnabyddedig. Un o'r blaenoriaethau allweddol a nodir yn ein [cynllun strategol](#) yw cymryd camau lle na chaiff safonau eu cyrraedd. Yn unol â'r flaenoriaeth hon, rydym yn bwriadu ffurfioli'r broses rydym yn ei defnyddio pan fyddwn yn penderfynu bod methiannau sylweddol, parhaus a/neu systemig yng ngwasanaethau'r GIG.

Yn ein [Cynllun Strategol a Gweithredol ar gyfer 2021-2022](#) rydym wedi tynnu sylw at ein bwriad i roi proses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder sy'n ymwneud â'n gweithgareddau sicrwydd y GIG ar waith, sy'n cyd-fynd â'r dull rydym yn ei ddefnyddio yn y sector gofal iechyd annibynnol. Credwn y bydd cyflwyno dynodiad Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn gwella tryloywder o ran y ffordd y mae AGIC yn cyflawni ei rôl ac yn sicrhau y gall amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys byrddau iechyd, gymryd camau breision penodol i sicrhau y caiff gofal diogel ac effeithiol ei ddarparu.

Ar hyn o bryd, mae AGIC yn dilyn proses uwchgyfeirio fewnol pan ddaw mater o bryder sylweddol i'n sylw. Yn amgaaedig gyda fy llythyr mae dogfen sy'n amlinellu'r broses hon, ynghyd â manylion pellach ynghylch sut y gall llwybr uwchgyfeirio presennol AGIC lywio unrhyw benderfyniad am y statws Gwasanaeth sy'n Peri Pryder.

Bydd y dynodiad Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn wahanol ac ar wahân i drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn llywio barn AGIC a'i chyfraniad at y trafodaethau ar statws cyffredinol cyrff y GIG.

Rwy'n cysylltu â chi i gynnig cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud unrhyw sylwadau am hyn. Bwriad AGIC yw ceisio adborth ar y cynnig hwn tan 30 Medi 2021 yn y gobaiith y bydd hyn yn rhoi digon o amser i chi rannu unrhyw farn sydd gennych â ni. Bwriad AGIC yw y caiff y broses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar gyfer y GIG ei rhoi ar waith yn ystod hydref 2021.

Fel arall, os hoffech gyfarfod â ni i drafod y cynnig hwn, a fydddech cystal â chysylltu â [REDACTED] er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer y cyfarfod hwn.

Gobeithio y bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder i chi am ddull AGIC o uwchgyfeirio yn y GIG. Yn y cyfamser, os bydd gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Rhys Jones, Pennaeth Uwchgyfeirio a Gorfodi [REDACTED] neu Scott Howe [REDACTED] Uwch-reolwr Uwchgyfeirio a Gorfodi.

Yn gywir



Alun Jones
 Prif Weithredwr Dros Dro
 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da

Checking people in Wales are receiving good care

Tudalen y pecyn 77

Llywodraeth Cymru / Welsh Government
 Parc Busnes Rhydycar / Rhydycar Business Park
 Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
 CF48 1UZ
 Tel / Ffôn 0300 062 8163
 Fax / Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**Y Broses ar gyfer Gwasanaethau
sy'n Peri Pryder i Gyrff y GIG yng
Nghymru**

Gorffennaf 2021

Cefndir

Ein hymrwymiad a'n nod parhaus yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal o ansawdd da, a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol, yn unol â safonau cydnabyddedig. Ein nod yw annog gwelliant ym maes gofal iechyd drwy wneud y gwaith iawn ar yr adeg iawn yn y lle iawn; gan sicrhau bod yr hyn a wnawn yn cael ei gyfleu'n dda ac yn gwneud gwahaniaeth.

Un o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yng [nghynllun strategol](#) Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw y byddwn yn gweithredu pan na chaiff safonau eu cyrraedd. Yn unol â'r flaenoriaeth hon, ac er mwyn anelu at fwy o dryloywder wrth gyflawni ei rôl yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd, mae AGIC yn cynnig y dylid cyflwyno proses a system ddynodi ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder i'r GIG.

Ar hyn o bryd, mae AGIC yn dilyn proses uwchgyfeirio fewnol pan dynnir ein sylw at fater sy'n peri pryder. Mae ein cynnig newydd yn awgrymu y dylid defnyddio dynodiad Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ffurfiol pan fydd AGIC yn nodi methiannau sylweddol o fewn gwasanaeth unigol, neu bryderon cronol neu systemig mewn perthynas â gwasanaeth neu leoliad. Mae proses uwchgyfeirio a gorfodi AGIC ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn defnyddio proses o'r fath ar hyn o bryd.

Credwn y bydd defnyddio dynodiad Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn gwella tryloywder o ran sut y mae AGIC yn cyflawni ei rôl ac yn sicrhau y gall amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys byrddau iechyd, gymryd camau breision penodol i sicrhau y caiff gofal diogel ac effeithiol ei ddarparu.

Bydd y dynodiad ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder yn wahanol ac ar wahân i drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn llywio barn a chyfraniad AGIC at y trafodaethau ar statws cyffredinol cyrff y GIG.

Beth yw nod AGIC wrth ymgymryd â'r gwaith ymgysylltu hwn?

- Cyfleu ein bwriad o ran dynodiad Gwasanaethau sy'n Peri Pryder y GIG i randdeiliaid, a meithrin gwell dealltwriaeth o broses uwchgyfeirio bresennol AGIC. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod cynrychiolwyr byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn ymwybodol o oblygiadau'r broses hon, ac i dynnu sylw at y ffaith ei bod yn debygol y gelwir arnynt i fynychu cyfarfodydd ffurfiol ac i roi cyfrif am faterion sy'n codi mewn lleoliadau neu wasanaethau
- Codi ymwybyddiaeth o fwriad AGIC i fynd ati i alw ar wasanaethau'r GIG i roi cyfrif am welliannau sydd eu hangen o fewn gwasanaethau, a chodi

ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd nodi gwasanaeth fel Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn gam allweddol yn ein proses uwchgyfeirio

- Ymateb i ymholiadau gan randdeiliaid a fydd o bosibl am roi adborth ar y broses hon.

Beth fydd yn digwydd?

Mae Atodiad A, *Y broses ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder i Gyrrff y GIG* yn amlinellu proses uwchgyfeirio bresennol AGIC, ac yn nodi sut y gall AGIC nodi achos posibl o Wasanaeth sy'n Peri Pryder, a sut y caiff achos o'r fath ei reoli, a'i isgyfeirio.

Os caiff Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ei nodi, bydd AGIC yn hysbysu'r cyhoedd am hyn, fwy na thebyg mewn adroddiad sy'n ymwneud ag arolygiad neu adolygiad o fwrdd iechyd/ymddiriedolaeth. Gall AGIC hefyd, gan ddibynnu ar natur y pryderon, gadw'r hawl i lunio deunydd cyfathrebu ar wahân am Wasanaeth sy'n Peri Pryder i'w roi ar ein gwefan.

Pryd y bydd yn digwydd?

Os hoffech gyflwyno sylwadau am y dull gweithredu hwn, mae croeso i chi anfon eich cyfraniadau at Scott Howe, Uwch-reolwr Uwchgyfeirio a Gorfodi [REDACTED] neu Rhys Jones, Pennaeth Uwchgyfeirio a Gorfodi [REDACTED] erbyn **30 Medi 2021**. Byddwn yn ystyried unrhyw ymatebion a gawn, er mwyn llywio'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r broses hon.

Rydym yn anelu at roi'r dull gweithredu ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder ar waith ar gyfer gwasanaethau'r GIG o hydref 2021.

Atodiad A

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**Y Broses ar gyfer Gwasanaethau
sy'n Peri Pryder i Gyrff y GIG yng
Nghymru**

Drafft 5.0

Cefndir

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn arolygu Gwasanaethau'r GIG o dan ei phwerau fel y'u nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a'i rheoliadau a'i safonau cysylltiedig.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn gweithredu fel conglfaen i'r system sicrhau ansawdd gyffredinol yn y GIG yng Nghymru. Mae arolygiadau AGIC yn seiliedig ar y safonau hyn.

Beth yw pwerau AGIC mewn perthynas â'r GIG?

O dan adrannau 72, 73, 74 a 75 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, mae gan AGIC y pwerau canlynol mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan gyrrff y GIG yng Nghymru ac ar eu rhan:

- Archwilio unrhyw ddogfennau neu gofnodion (gan gynnwys cofnodion personol), gwneud copïau ohonynt a'u symud o'r safle;
- Archwilio unrhyw eitem arall a'i symud o'r safle;
- Cyfweld yn breifat ag unrhyw berson sy'n gweithio ar y safle neu unrhyw berson sy'n cael gofal iechyd yno sy'n rhoi caniatâd i gael cyfweiliad;
- Cynnal unrhyw archwiliad arall o gyflwr y safle a'r trefniadau rheoli a'r ffordd y caiff pobl sy'n cael gofal iechyd yno eu trin;
- Gallu gofyn i unrhyw berson sy'n cadw dogfennau neu gofnodion a gedwir ar y safle neu sy'n gyfrifol am ddogfennau neu gofnodion o'r fath i'w darparu;
- Mewn perthynas â chofnodion a gedwir ar gyfrifiadur, y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r cofnodion gael eu darparu ar ffurf ddarllenadwy ac i sicrhau y gellir mynd â nhw o'r safle;
- Archwilio sut y caiff unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig a gaiff eu defnyddio neu a gafodd eu defnyddio mewn perthynas â'r cofnodion dan sylw eu gweithredu.

Mae gan AGIC y pŵer hefyd i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu unrhyw wybodaeth, dogfennau, cofnodion (gan gynnwys cofnodion personol), neu eitemau eraill sy'n ymwneud â darparu gofal iechyd gan un o gyrrff y GIG yng Nghymru neu ar ei ran iddi. Byddai hyn yn ddeunydd sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag un o gyrrff y GIG yng Nghymru ac y mae AGIC o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n ddoeth iddi ei gael at ddibenion adrannau 72, 73, 74 a 75.

Yn unol â Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Arolygiadau Gofal Iechyd) (Cymru) 2005, gall AGIC:

- Ei gwneud yn ofynnol i'r bobl a enwir isod i roi esboniad, yn bersonol neu'n ysgrifenedig, o unrhyw ddogfennau, cofnodion neu eitemau a gaiff eu harchwilio, eu copïo neu eu darparu o dan y Ddeddf:

- Un o gyrff y GIG yng Nghymru;
- Cadeirydd, aelod, cyfarwyddwr, cyflogai, aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor un o gyrff y GIG yng Nghymru;
- Darparwr gwasanaeth;
- Cadeirydd, Cyfarwyddwr neu gyflogai darparwr gwasanaeth;
- Person, ac eithrio'r rheini a enwir uchod, sy'n helpu darparwr gwasanaeth i ddarparu gofal iechyd ar ran un o gyrff y GIG yng Nghymru;
- Person, ac eithrio'r rheini a enwir uchod, sy'n helpu, sydd wedi helpu neu a fydd yn helpu un o gyrff y GIG yng Nghymru i arfer ei swyddogaethau.

Ni all AGIC gymryd camau gorfodi yn erbyn gwasanaethau'r GIG. Mae [proses Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru](#) yn nodi sut yr ymdrinnir â phryderon ehangach am wasanaethau'r GIG.

Mae arolygiadau ac adolygiadau AGIC yn canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir, a'r profiad a'r canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Pan fydd y gwasanaethau a ddarperir neu'r canlyniadau i bobl yn wael, bydd AGIC yn cymryd camau. Gall hyn gynnwys cyhoeddi hysbysiadau gwella, uwchgyfeirio pryderon i'r tîm gweithredol ac aelodau'r bwrdd mewn bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth, neu i Lywodraeth Cymru. Bydd AGIC hefyd yn uwchgyfeirio pryderon sylweddol am wasanaethau'r GIG i Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru, a all effeithio ar statws uwchgyfeirio cyffredinol un o gyrff y GIG yng Nghymru, neu wasanaeth unigol a ddarperir gan un o gyrff y GIG yng Nghymru.

Sut y caiff Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ei nodi?

Mae'r *Llwybr ar gyfer Gwasanaethau'r GIG sy'n Peri Pryder* (atodiad 1) yn dangos proses uwchgyfeirio AGIC mewn perthynas â gwasanaethau'r GIG, a sut y gellir nodi, rheoli ac isgyfeirio Gwasanaeth sy'n Peri Pryder. Nodir pob cam o'r broses isod.

Casglu gwybodaeth drwy arolygiadau AGIC, adolygiadau, pryderon a hysbysiadau, a/neu gyrff eraill. Mae'n bosibl y bydd AGIC yn ceisio dilysu unrhyw wybodaeth allanol.

Caiff yr holl wybodaeth a gesglir ynghyd gan AGIC ei hystyried yn ystod y cam cychwynnol hwn. Caiff gwybodaeth na chafodd ei dilysu'n fewnol gan AGIC ei chadarnhau os yw'n bosibl, naill ai drwy ohebiaeth neu drwy waith ar y safle.

Cam 1 – Cynnal trafodaeth Brysbennu Camau Uwchgyfeirio i benderfynu a oes angen cymryd camau pellach a lefel yr uwchgyfeirio.

Bydd AGIC yn ystyried y wybodaeth hon ac yn trefnu cyfarfod *brysbennu camau uwchgyfeirio* i benderfynu ar y camau nesaf, ac a oes angen camau uwchgyfeirio pellach. Gall y drafodaeth fewnol hon fod ar sawl ffurf a gall gynnwys gwahanol gynrychiolwyr AGIC. Y nod yw cadarnhau ai camau uwchgyfeirio yw'r llwybr mwyaf priodol. Caiff y drafodaeth hon, ynghyd ag unrhyw benderfyniadau a'r rhesymeg, eu cofnodi. Gall hyn gynnwys trafodaeth â'r Rheolwr Cydberthynas perthnasol ynghylch cynnal gweithgareddau sicrhau pellach (camau dilynol) ac uwchgyfeirio'r achos i Gam 2. Fodd bynnag, os bydd AGIC o'r farn bod y risgiau i ddiogelwch cleifion yn ddigon sylweddol, gellir uwchgyfeirio'r mater i gyfarfod Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn ystod Cam 3.

Cam 2 – Trafodaeth am weithgareddau dilynol / ôl-ddilynol i benderfynu a oes angen camau uwchgyfeirio pellach neu gamau isgyfeirio

Yn dilyn y penderfyniad a wnaed yn ystod cam 1, mae'n bosibl y bydd AGIC yn cynnal arolygiad dilynol. Gall yr arolygiad hwn fod ar ffurf gwiriad ansawdd er mwyn cael rhagor o wybodaeth y gellir cael gafael arni oddi ar y safle. Arolygiad â phwyslais penodol neu arolygiad llawn pellach ar y safle. Ni fyddai hyn o reidrwydd wedi'i gyfyngu i un darn o waith. Fodd bynnag, cynhelir trafodaeth cam 1 ar ôl pob darn o waith er mwyn penderfynu ar y cam nesaf mwyaf priodol.

Sut y caiff Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ei ddynodi?

Cam 3 – Cynnal cyfarfod Gwasanaeth sy'n Peri Pryder i benderfynu a yw gwasanaeth yn bodloni'r trothwy ar gyfer Gwasanaeth sy'n Peri Pryder

Yr elfen allweddol a fydd yn penderfynu a ddylid dynodi Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yw a yw AGIC o'r farn bod risg glir a sylweddol i ddiogelwch cleifion. Wrth benderfynu hyn, gellir bodloni o leiaf un o'r cwestiynau trothwy er mwyn i wasanaeth gael ei ddynodi'n Wasanaeth sy'n Peri Pryder. Nodir y tri chwestiwn trothwy isod:

a) A gafodd argymhellion Cynllun Sicrwydd Uniongyrchol a/neu Gynllun Gwella eu rhoi ar waith i safon dderbyniol ac yn unol â'r terfynau amser y cytunwyd arnynt?

Os cyhoeddir cynllun Sicrwydd Uniongyrchol neu gynllun gwella yn dilyn arolygiad, mae hynny'n nodi bod pryderon difrifol am wasanaeth o ran diogelwch cleifion. Gwneir y penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad sicrwydd uniongyrchol drwy ymgynghori â rheolwr yr arolygiad, Pennaeth Arolygu'r GIG a chynghorydd clinigol. Yn ogystal â'r dystiolaeth a gesglir, caiff dyfarniadau blaenorol am ansawdd a diogelwch lleoliad eu hystyried hefyd.

Ar ôl cael hysbysiad Sicrwydd Uniongyrchol, bydd yn ofynnol i fwrdd iechyd/ymdiriedolaeth gyflwyno cynllun gwella uniongyrchol er mwyn dangos sut y

bydd yn cyflawni'r gwelliant. Bydd methu â chydymffurfio â'r broses hon yn golygu y caiff y mater ei uwchgyfeirio i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder.

Yn dilyn gweithgaredd sicrwydd, rhoddir cynllun gwella llawn i fwrdd iechyd/ymddiriedolaeth. Bydd yn nodi'r gwelliannau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y safonau a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Gall methu â chwblhau'r holl welliannau i safon dderbyniol neu o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, yn arbennig ar gyfer materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â diogelwch cleifion, arwain at uwchgyfeirio'r mater i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder.

b) A gafodd yr un materion eu codi yn ystod arolygiadau/adolygiadau blaenorol ond na wnaed gwelliannau digonol?

Os bydd AGIC yn parhau i ganfod yr un materion neu faterion tebyg, naill ai ar ôl cynnal arolygiadau neu adolygiadau dilynol o wasanaeth, neu ar draws gwasanaethau tebyg o fewn bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth, mae'n bosibl y caiff y gwasanaeth ei uwchgyfeirio i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder.

Os na fydd y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth wedi arwain at welliannau digonol, neu os na fydd y camau gweithredu yn cael yr effaith ddymunol, neu os na fydd AGIC yn fodlon bod y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth wedi dysgu digon yn dilyn gweithgaredd sicrwydd, mae'n bosibl y caiff y gwasanaeth ei uwchgyfeirio i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder.

c) A ydym wedi cael gwybodaeth ddibynadwy neu wedi casglu tystiolaeth i nodi mater y mae angen cymryd camau brys yn ei gylch?

Os bydd AGIC yn nodi risg(iau) sylweddol uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gall hyn arwain at uwchgyfeirio'r mater ar unwaith i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder, yn ogystal â chyhoeddi hysbysiad Sicrwydd Uniongyrchol ar ôl cwblhau gweithgaredd sicrwydd.

Os gellir rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau trothwy a/neu fod risg i ddiogelwch cleifion, yna caiff y trothwy ar gyfer nodi 'Gwasanaeth sy'n Peri Pryder' ei fodloni.

Caiff y cyfarfod hwn, ynghyd ag unrhyw benderfyniadau a'r rhesymeg, eu cofnodi.

Sut y caiff Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ei reoli?

Ar ôl ei nodi, bydd Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn destun gwaith monitro lefel uwch gan AGIC. Bydd y tîm Uwchgyfeirio a Gorfodi yn adolygu pob gwasanaeth sy'n peri pryder.

Bydd AGIC yn cyfathrebu'n ysgrifenedig i gyfleu'r penderfyniad hwn, gan gynnwys crynodeb o'n pryderon ac, os ystyrir ei fod yn berthnasol, gopi o unrhyw gynllun

gwella uniongyrchol neu wybodaeth arall. Bydd yr ohebiaeth hefyd yn cynnwys gwahoddiad i gyfarfod gwasanaeth ar ddyddiad ac amser penodol. Anfonir copi i'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth, Llywodraeth Cymru, ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill.

Cyfarfodydd gwasanaeth

Mae cyfarfodydd gwasanaeth yn gam hanfodol yn y llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder. Unwaith y caiff gwasanaeth ei ddynodi'n Wasanaeth sy'n Peri Pryder, caiff cyfarfod gwasanaeth ei drefnu. Gellir gwahodd y partïon canlynol i'r cyfarfod:

- Cynrychiolydd AGIC
- Cynrychiolydd y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth
- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolwyr rhanddeiliaid perthnasol eraill

Mae'r cyfarfod hwn yn cynnig cyfle i'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth drafod y pryderon a godwyd yn uniongyrchol ag AGIC a phartïon eraill. Mae'n gyfle i ddarparu unrhyw gamau lliniaru a sicrwydd, yn ogystal â manylion ynghylch sut y mae'r gwasanaeth yn bwriadu ymdrin â'r gwelliannau a'r materion a nodwyd. Caiff canlyniadau posibl y cyfarfod eu rhestru isod:

- Cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen / cytuno bod gwelliant digonol wedi'i wneud neu'n mynd rhagddo
- Cytuno ar gamau pellach a therfynau amser ar gyfer rhoi sicrwydd i AGIC
- Trefnu gweithgareddau sicrwydd pellach (lle rhoddir rhybudd/dirybudd)

Caiff crynodeb ysgrifenedig ei lunio o'r cyfarfod hwn ac anfonir llythyr at bob parti a oedd yn bresennol yn amlinellu'r hyn a drafodwyd a'r camau gweithredu dilynol. Rhoddir cyfle i'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth hysbysu AGIC am unrhyw anghywirdebau ffeithiol neu gywiriadau yr hoffai iddynt gael eu hystyried. Dylid eu derbyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Cyfrifoldeb y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth yw sicrhau y cymerir camau ac y caiff y gwelliannau gofynnol eu cyflawni. Mae'n bosibl y bydd AGIC hefyd yn cynnal gweithgareddau sicrwydd pellach, a chaiff canlyniad unrhyw weithgareddau o'r fath eu cyfleu i'r partïon â diddordeb drwy'r un broses.

Caiff cyfarfodydd gwasanaeth pellach eu trefnu, fel y bo'n briodol, hyd nes y bydd AGIC yn fodlon bod y gwelliannau wedi'u gwneud a bod y risg i ddiogelwch cleifion wedi lleihau. Gall methiant parhaus i roi sicrwydd, neu i ymgysylltu â'r broses ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder, arwain at gamau uwchgyfeirio pellach drwy Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.

Sut y caiff Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ei isgyfeirio?

Caiff Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ei isgyfeirio unwaith y bydd AGIC yn fodlon â'r camau gweithredu a gymerwyd gan y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth i ymdrin â'r gwelliannau gofynnol. ** Gall fod angen trefnu cyfarfodydd gwasanaeth pellach a chynnal gweithgareddau sicrwydd pellach cyn y bydd AGIC yn fodlon bod y gwelliannau wedi'u gwneud a bod y risg i ddiogelwch cleifion wedi lleihau.

Yn dilyn unrhyw weithgaredd sicrwydd, caiff cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder ei drefnu i drafod y canlyniadau ac i benderfynu a yw barn AGIC am y gwasanaeth wedi newid.

Pan fydd AGIC yn fodlon ar y camau gweithredu a gymerwyd gan wasanaeth ac y bydd yn penderfynu isgyfeirio'r gwasanaeth, caiff hyn ei gyfleu'n ysgrifenedig i'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth berthnasol, i Lywodraeth Cymru, ac i unrhyw randdeiliad perthnasol arall/rhanddeiliaid perthnasol eraill.


Monitro a Llywodraethu

Mae tîm Uwchgyfeirio a Gorfodi AGIC yn gyfrifol am fonitro gwasanaethau sy'n peri pryder. Caiff pob Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ei adolygu'n rheolaidd.

Bydd statws Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn rhan o dystiolaeth AGIC i broses Cytundeb Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG, a gall felly ddylanwadu ar ganlyniad y broses honno.

Atodiad 1

Llwybr ar gyfer Gwasanaethau'r GIG sy'n Peri Pryder



Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Eitem 4.4



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

27 Gorffennaf 2021

Annwyl Dai

Gweler ynghlwm ein hymateb i'r argymhellion a wnaed yn eich adroddiad gyda'r teitl: Gwaddol y Pumed Senedd. Gan oedd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn aelod o'r pwyllgor ar y pryd, mae hi wedi nodi'r ymateb er gwybodaeth y tro hwn, er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Eluned Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Julie Morgan'.

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau
Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon 'Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd'.

Nodir Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd barhau i wella manylder ac eglurder y wybodaeth am ddyraniadau cyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chyllidebau blynyddol drafft.

Ymateb: Derbyn.

Byddwn yn parhau i adolygu strwythur y gyllideb ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried sut y gellir gwella gwybodaeth am ddyraniadau cyllid. Er enghraifft, yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 fe wnaethom greu Llinell Wariant yn y Gyllideb i ddangos y cyllid ar gyfer Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar wahân. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio papurau tystiolaeth am y gyllideb i roi manylion pellach am y dyraniadau cyllid i'r GIG a gyflwynir yn y dogfennau a gyhoeddir am y gyllideb. Byddwn hefyd yn parhau i gyhoeddi'r dyraniadau refeniw blynyddol i'r byrddau Iechyd Lleol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau ariannol – Dim.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd ystyried effaith ei rhaglen deddfwriaethol ar allu pwyllgorau i graffu'n effeithiol ar Ffiliau, ac i ddarparu ar gyfer gwaith craffu o'r fath yn eu rhaglenni gwaith ehangach.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi gwerth mawr ar waith craffu pwyllgorau ar Ffiliau ac mae bob amser yn ystyried yr effeithiau arnynt wrth amserlennu ei rhaglen deddfwriaethol, er enghraifft, ymdrechu i beidio â chael mwy nag un Bil gerbron Pwyllgor ar unrhyw un adeg. Er hynny, mae yna adegau pan fo gofynion polisi neu sbardunau allanol eraill yn gosod cyfyngiadau ar hyblygrwydd y llywodraeth i amserlennu hynt Bil trwy'r Senedd. Un enghraifft oedd yr angen i gwblhau ystyriaeth Cyfnod 1 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) cyn i Ddeddf 2017 ddod i rym. Gall hyn wedyn arwain at alwadau cystadleuol rhwng dyletswyddau deddfwriaethol Pwyllgor a'i ddyletswyddau craffu ar bolisi.

Goblygiadau ariannol – Dim.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd gymryd camau i sicrhau ei bod yn gallu rhoi cymaint o rybudd a chymaint o amser â phosibl ar gyfer y gwaith o graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo fel mater o egwyddor i roi cymaint o rybudd ac amser i graffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol (LCMs) â phosibl i bwyllgorau'r Senedd. Er hynny, fel y mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cydnabod, penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU sy'n pennu amserlenni LCMs yn bennaf.

Goblygiadau ariannol – Dim.

Vaughan Gething AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

18 Mawrth 2021

Annwyl Weinidog

Yn dilyn eich presenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 3 Mawrth, rwy'n ysgrifennu i dynnu sylw at themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o gam olaf ein hymchwiliad i effaith pandemig COVID-19 ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'r ymateb iddo.

Fel y gwyddoch, yn dilyn yr achosion o COVID-19 yng Nghymru yng ngwanwyn 2020, penderfynodd y Pwyllgor atal ei holl waith arall a chanolbwyntio ar effaith y pandemig ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'i reolaeth. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi cymryd tystiolaeth ar ystod eang o faterion ac wedi cynhyrchu tri adroddiad, yn ymdrin â materion fel Cyfarpar Diogelu Personol, profi, iechyd meddwl a lles, a'r effaith ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl.

Mae ein gwaith craffu diweddaraf wedi canolbwyntio ar faterion yn cynnwys y rhaglen frechu, profi, effaith y pandemig ar amseroedd aros, a COVID hir. Tra bod yr amser cyfyngedig sydd ar ôl inni cyn diwedd y Senedd hon wedi ein hatal rhag cynhyrchu adroddiad ar y materion hyn, mae'r atodiad sydd ynghlwm yn tynnu sylw at themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth a glywsom.

Hoffwn ddiolch i chi, eich cyd-Weinidogion a'ch swyddogion am y ffordd gadarnhaol yr ydych wedi ymgysylltu â ni drwy gydol y pandemig. Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol sydd wedi bod arnoch chi a'ch cydweithwyr, ac rydym yn ddiolchgar ichi am y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a ddarparwyd gennych sydd wedi ein galluogi i barhau i gyflawni ein dyletswyddau craffu a goruchwylio adeiladol. Rydym wedi gwerthfawrogi'n arbennig y sesiynau briffio wythnosol gan y Gweinidog, gan fod y rhain wedi ein helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf yng nghyd-destun yr argyfwng iechyd cyhoeddus sy'n newid yn gyflym.

Er ein bod yn falch iawn bod y sefyllfa yng Nghymru yn gwella, nid yw popeth wedi'i ddatrys eto. Rwy'n siŵr y bydd ein pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd yn dymuno parhau i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth nesaf Cymru wrth i Gymru adfer yn dilyn COVID-19.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddIechyd@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddHealth@senedd.wales

0300 200 6565

Atodiad: themâu allweddol

Trosolwg

Rydym yn falch iawn bod y sefyllfa ledled Cymru o ran lefelau'r haint wedi parhau i wella, gyda gostyngiad pendant yng nghyfraddau'r haint. Mae cydymffurfriad y cyhoedd â chyfyngiadau parhaus a mesurau'r cyfnod clo, ynghyd â gwelliannau mewn dealltwriaeth a thriniaethau ar gyfer COVID-19 a chyflwyno'r brechlyn, i gyd yn helpu i atal y feirws.

Fodd bynnag, nid oes lle i laesu dwylo. Mae ein gwasanaethau iechyd yn parhau i fod dan bwysau, a bydd y feirws a'i niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol gyda ni am amser hir. Er bod y rhaglen frechu yn rhoi gobaith inni i gyd, mae llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch y pandemig, yn enwedig yn sgil ymddangosiad amrywiadau newydd.

Rydym yn cytuno'n gryf â'r pum pwynt a nodwyd gan y Prif Swyddog Meddygol fel meysydd allweddol y dull o ymdrin yn llwyddiannus â chamau nesaf y pandemig:

1. Brechu pobl cyn gynted ag y gallwn.
2. Llacio'r cyfyngiadau symud yn araf ac yn ofalus.
3. Monitro unrhyw newidiadau ac ymateb iddynt.
4. Bod yn ymwybodol o amrywiadau a chadw nifer yr achosion i lawr.
5. Cynnal hyder y cyhoedd a chydymffurfriad y cyhoedd â'r mesurau gweddilliol.

Argymhelliad 1. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch llacio cyfyngiadau, dylai Llywodraeth Cymru gydbwysu'r effaith bosibl o ran trosglwyddo'r feirws yn erbyn manteision posibl unrhyw lacio i wahanol grwpiau a chymunedau. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gweithgareddau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol, a lles emosïynol y rhai sydd wedi cael eu taro waethaf gan y pandemig. Dylai hyn gynnwys rhoi blaenoriaeth i gael plant a phobl ifanc yn ôl i ddysgu wyneb yn wyneb mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill.

Hyder y cyhoedd a chyfathrebu

Mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi chwarae rhan aruthrol o ran helpu i atal y feirws drwy gadw at y cyfyngiadau, ond mae cymaint yn dibynnu arnynt o hyd. Felly mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cynnal hyder y cyhoedd yn ei dull gweithredu. Er mwyn sicrhau hyn, bydd angen darparu eglurder i'r cyhoedd ynghylch pam mae penderfyniadau penodol yn cael eu gwneud, a thryloywder parhaus ynghylch y data a'r cyngor y mae penderfyniadau'n seiliedig arnynt.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gadw ffocws clir ar gyfathrebu. Dylai hyn gynnwys gweithio gyda phartneriaid a rhwydweithiau ledled Cymru i



sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth glir o ffynonellau dibynadwy, a mynd i'r afael yn rhagweithiol â'r gamwybodaeth a ledaenir yn ein cymunedau.

Y rhaglen frechu

Y nifer sy'n cymryd y brechlyn a'r hyder ynddo

Yn gyntaf, hoffem ganmol Llywodraeth Cymru a phawb sydd ynghlwm â'r rhaglen frechu am eu hymdrech enfawr o ran datblygu a darparu rhaglen lwyddiannus, a hynny ar fyrder.

Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cynnig y brechlyn yn unol â grwpiau blaenoriaeth y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, gan gynnwys magu hyder yn y brechlyn ymhlith pobl a allai fod yn mynegi 'petruster am y brechlyn' neu sydd wedi gwrthod cael brechiad. Mae gwahaniaethau mawr yn y nifer sy'n cymryd y brechlyn ymhlith grwpiau ethnig. Mae data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn dangos bod lefelau uwch o betruster am y brechlyn ymlith y grŵp ethnig du. Mae canfyddiadau tebyg mewn perthynas â phobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae cyfraddau marwolaeth o COVID-19 hefyd yn uwch yn y grwpiau hyn, sy'n codi pryderon y bydd y bobl hyn yn wynebu risg uchel iawn pe bai trydedd ton.

Rydym felly'n croesawu agwedd 'neb ar ôl' Llywodraeth Cymru tuag at y rhaglen frechu.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyfathrebu'n rhagweithiol â phobl o grwpiau neu gymunedau sy'n llai tebygol o gymryd y brechlyn ac sydd â llai o hyder ynddo, yn enwedig lle gallai grwpiau o'r fath hefyd fod yn fwy agored i niwed o COVID-19.

Cyflwyniad parhaus y brechlyn

Wrth symud ymlaen, bydd rôl bwysig i ofal sylfaenol, yn enwedig meddygon teulu a fferylliaeth gymunedol, o ran helpu i ddarparu'r rhaglen frechu. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i weddill y rhaglen frechu gychwynnol, ond hefyd i'r gwaith o ddarparu unrhyw bigiadau atgyfnerthu y gall fod eu hangen i fynd i'r afael ag amrywiadau newydd, neu i unrhyw frechiadau rheolaidd pellach, pe canfyddid bod y brechlyn COVID-19 yn debyg i'r brechlyn ffliw. Yn ogystal, bydd angen llawer o'r un staff sy'n cefnogi'r rhaglen frechu ar hyn o bryd, i hwyluso'r broses o ddychwelyd i wasanaethau arferol.

Wrth i gyfyngiadau ddechrau cael eu llacio, gall cyfleusterau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel canolfannau brechu torfol ddechrau dychwelyd i'w defnydd arferol. O ganlyniad, bydd angen dosbarthu mwy o frechlynnau mewn lleoliadau cymunedol llai. Bydd fferyllfeydd yn arbennig o allweddol o ran cyrraedd y boblogaeth sy'n gweithio wrth i'r rhaglen symud y tu hwnt i Grŵp 6.

Yn olaf, dywedwyd wrthym na all fferyllwyr cymunedol fynd i ganolfannau brechu torfol yn ystod oriau gwaith, gan ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt fod ar eu safle, er y byddent yn hapus i gefnogi'r broses o gyflwyno'r brechlyn ar benwythnosau neu y tu allan i oriau.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol a darparwyr gofal sylfaenol eraill i sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti ac



adnoddau i hwyluso'r broses barhaus o gyflwyno'r rhaglen frechu ochr yn ochr â darparu eu gwasanaethau arferol.

Adnoddau

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru 2021-22 am £380 miliwn ychwanegol ar gyfer chwe mis cyntaf 2021-22, a fydd yn cynnwys cyllid ar gyfer parhau i gyflwyno'r rhaglen frechu. Fodd bynnag, yn ystod ein gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft, dywedodd y Gweinidog wrthym fod ansicrwydd sylweddol ynghylch y costau posibl sy'n gysylltiedig â brechu yn erbyn COVID-19, yn rhannol oherwydd nad yw'n glir eto a yw'r brechlynnau presennol yn darparu amddiffyniad tymor hir yn erbyn y feirws neu a fydd angen rhaglenni brechu pellach. Nid yw rhaglenni brechu yn rhad i'w darparu ond maent yn anghenrheidiol. Felly mae'n rhaid adolygu'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu'r angen am y brechlyn, yn enwedig os bydd rhaid cyflwyno'r rhaglen yn flynyddol neu hyd yn oed yn amlach.

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu'r adnoddau ar gyfer cyflwyno'r brechlyn, gan gynnwys cyfleusterau a staffio yn ogystal â'r brechlyn ei hun, ac ymchwilio i opsiynau i ddyrannu rhagor o gyllid yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 os oes angen.

Profi ac olrhain cysylltiadau

Strategaeth profi a chynlluniau peilot profi torfol

Mae strategaeth profi ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer COVID-19 yn cynnwys pum haen: Profi i wneud diagnosis; Profi i ddiogelu; Profi i ddarganfod; Profi i gynnal; a Phrofi i alluogi. Rydym yn cefnogi'r strategaeth hon, a chredwn y bydd ei gweithredu yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i'r cyfyngiadau symud ddechrau cael eu llacio.

Er mwyn cyflawni strategaeth profi Llywodraeth Cymru, bydd angen mynediad at gapasiti labordy digonol, gan gynnwys argaeledd parhaus Labordy'r Goleudy yng Nghasnewydd. Er mwyn cyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus hefyd bydd angen digon o adnoddau a phrofion, ac, yn bwysicaf oll, hyder a chydweithrediad y cyhoedd. Bydd angen i bobl ddeall pryd a sut i gael eu profi - gan gynnwys y gwahanol rolau y mae Profion Llif Unffordd (LFT) a phrofion Adwaith Cadwynol Polymerasau (PCR) yn eu chwarae - a'r cyfyngiadau o ran yr hyn y gall profi, ar ei ben ei hun, ei gyflawni. Fel y dywedodd Steve Moore, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym:

"...all of these different testing tools are imperfect in different ways and therefore we need to use them with care and consideration [...] so they aren't seen as a panacea, but they are seen, actually, as an important weapon at our disposal and a way in which we can help to control this pandemic into the medium term".

Clywsom gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fod y gwerthusiad interim o'r cynlluniau peilot profi asymptomatig ym Merthyr Tudful a Chynon yn dangos lefelau uchel o dderbyniad gan y cyhoedd ac arwyddion bod profi ardaloedd cyfan wedi atal yr haint rhag lledaenu. Mae hyn yn gadarnhaol iawn, a bydd yn bwysig bod y gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot hyn mewn perthynas â Phrofion Llif Unffordd torfol yn cael eu rhoi ar waith mewn manau eraill.



Argymhelliad 6. Nodwn fod adroddiadau gwerthuso'r cynlluniau peilot profi asymptomatig torfol wedi'u cyhoeddi ar 15 Mawrth 2021. Rhaid i Lywodraeth Cymru nawr sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhoi ar waith ledled Cymru wrth weithredu ei strategaeth profi COVID-19.

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth glir, syml a hygyrch i'r cyhoedd am y gwahanol fathau o brofion (o ran pum haen y strategaeth profi a Phroffion Llif Unffordd / profion Adwaith Cadwynol Polymerasau), sut a phryd y dylent gael y gwahanol fathau o brofion, a pha gamau y dylent eu cymryd yn dilyn canlyniadau prawf positif neu negyddol.

Profi, Orlhain, Diogelu a hunanynysu

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, mae olrhain cysylltiadau fwyaf effeithiol os nad yw'r amser rhwng cychwyn symptomau a chwariantin o leiaf 80 y cant o'u cysylltiadau yn fwy na thridiau. Rydym yn cytuno y dylid olrhain cysylltiadau cyn gynted â phosibl, gan y bydd hyn yn atal oedi diangen cyn cynghori pobl i hunanynysu. Yn ein hadroddiad cyntaf ar effaith pandemig Covid-19 ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'i reolaeth, gwnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd cyfranogiad y cyhoedd o ran olrhain cysylltiadau er mwyn sicrhau ei lwyddiant.

Yn ystod hydref 2020, clywsom gan yr Athro Devi Sridar am rai o'r enghreifftiau mwyaf llwyddiannus o raglenni olrhain cysylltiadau. Yn ninas Efrog Newydd, er enghraifft, roedd y gyfradd hunanynysu yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig oddeutu 98 y cant. Priodolodd ran o'r llwyddiant hwnnw i'r ffordd y cafodd pobl eu cefnogi, yn ariannol ac yn emosiynol, i hunanynysu. Roedd yn siomedig felly bod gwaith ymchwil y bu i Wasanaeth Ymchwil y Senedd ei gomisiynu gan Brifysgol Abertawe ganfod mai dim ond 8 y cant o'r rhai a ymatebodd i arolwg yng Nghymru a oedd wedi cael gwybod am y cynllun cymorth hunanynysu pan gysylltodd swyddogion olrhain cysylltiadau â nhw.

Dywedodd y Gweinidog fod y gwaith ymchwil wedi cael ei wneud yn ystod mis Rhagfyr 2020, pan oedd y gwasanaeth Profi Orlhain Diogelu dan bwysau sylweddol, ond cydnabu fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau pellach gyda'r ymchwilwyr i ddod o hyd i welliannau posibl. Ychwanegodd Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr rhaglen Profi Orlhain Diogelu Llywodraeth Cymru, fod y sgriptiau olrhain cysylltiadau wedi cael eu diweddarau'n ddiweddar i sicrhau bod y cynllun cymorth hunanynysu newydd a'r taliad cysylltiedig bellach yn cael eu crybwyll. O ganlyniad, pe bai'r swyddog olrhain cysylltiadau yn dilyn y sgript (y mae'r "rhan fwyaf ohonynt yn gwneud yn effeithiol iawn" meddai hi) byddai pobl yn gwybod bod cymorth ar gael iddynt pan ofynnir iddynt hunanynysu.

Gwyddom, heb gymorth ariannol digonol, y gall pobl gael eu temtio i anwybyddu symptomau a chynghor, a mynd i'r gwaith. Felly mae'n hanfodol bod **pawb** y mae swyddogion olrhain cysylltiadau yn cysylltu â nhw yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael ac nad yw hyn yn dibynnu a yw'r sgript wedi'i dilyn yn iawn ai peidio. Felly, rydym yn croesawu cynnwys £60 miliwn yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru 2021-22 ar gyfer olrhain cysylltiadau i gefnogi recriwtio a chynllunio'r gweithlu, ac rydym yn argymhell bod hyn hefyd yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi staff olrhain cysylltiadau'n barhaus.



Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ac adolygu'r wybodaeth sy'n cael ei dosbarthu gan staff olrhain cysylltiadau'n rheolaidd. Dylai hyn gyd-fynd â rhaglen hyfforddi barhaus i sicrhau negeseuon cyson mewn perthynas â'r cymorth sydd ar gael i'r sawl sy'n gorfod hunanynysu.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru werthuso cyfraddau cydymffurfio hunanynysu, gyda'r bwriad o ddeall y rhwystrau posibl rhag hunanynysu ac a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael â hwy.

Amseroedd aros

Mae'r pandemig wedi rhoi pwysau aruthrol ar y gwasanaeth iechyd, ac wedi cynyddu'n sylweddol amseroedd aros am wasanaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19. Yn y gorffennol, mae strategaethau ar gyfer mynd i'r afael ag amseroedd aros gormodol wedi cynnwys tynnu ar gapasiti'r GIG yn Lloegr neu'r sector preifat. Fodd bynnag, mae'r opsiynau hyn yn llai tebygol o fod ar gael bellach, o ystyried y pwysau sy'n cael ei brofi ledled y DU gyfan.

Dywedwyd wrthym hefyd, er bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn awyddus i aildechrau gwasanaethau cyn gynted â phosibl, y byddai'n afrealistig disgwyl i staff ddechrau gweithio'n ddi-baid cyn gynted ag y bydd pwysau ar y gwasanaethau iechyd yn sgil y pandemig wedi lleihau; bydd angen cyfnod o orffwys a myfyrio wrth i staff wella o'r trawma a'r pwysau y maent wedi'u profi.

Graddfa'r ôl-groniad

Clywsom gan fyrddau iechyd am yr anhawster i asesu graddfa lawn y galw a'r ôl-groniad, gan fod lefelau'r galw yn debygol o fod wedi'u hatal gan y pandemig. Wrth i Gymru adfer yn dilyn COVID-19, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y galw hwn yn dod i'r wyneb eto, gan greu pwysau ychwanegol ar ein gwasanaethau iechyd a allai fod yn uwch na'r lefelau cyn-COVID.

Ym mis Rhagfyr 2020, roedd 538,861 o bobl yng Nghymru yn aros am driniaeth ysbyty, ac roedd 226,138 ohonynt wedi bod yn aros am fwy na 36 wythnos. Yn ogystal â'r rhestrau aros yr adroddwyd amdanynt, clywsom bryder hefyd ynghylch lefel y galw 'cudd'. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Pobl a allai fod wedi profi symptomau ond nad ydynt wedi mynd at y gwasanaeth iechyd, er enghraifft oherwydd pryderon am haint, neu nad ydynt, fel arall, wedi cael eu cyfeirio am driniaeth.
- Pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl neu iechyd corfforol cronig, ond nad oeddent efallai wedi gallu cael mynediad at eu gwasanaethau arferol. Gall y galw am wasanaethau iechyd gynyddu wrth i bobl ddechrau cael mynediad at wasanaethau unwaith yn rhagor. Efallai fod anghenion rhai pobl hefyd wedi dod yn fwy difrifol neu gymhleth o ganlyniad i beidio â chael eu gwasanaethau arferol yn ystod y pandemig.
- Pobl sydd eisoes ar restrau aros, ond y mae eu cyflyrau wedi dirywio wrth iddynt aros, ac y gallai eu hachosion fod yn fwy cymhleth bellach neu a allai fod angen lefel uwch o



'ragsefydlu' neu wasanaethau eraill cyn eu bod yn ddigon ffit neu'n alluog yn glinigol i gael llawdriniaeth neu driniaeth arall.

Dywedodd byrddau iechyd wrthym fod y capasiti ychwanegol a ddarparwyd gan yr ysbytai maes hyd yma wedi eu galluogi i adsefydlu cleifion a rheoli hyd estynedig arosiadau sy'n aml yn angenrheidiol ar gyfer cleifion COVID-19. Bydd mwy o angen adsefydlu am gryn amser i ddod; er mwyn diwallu'r angen hwn, bydd angen digon o adnoddau, o ran cyfleusterau a staffio.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i lunio cynllun adfer ar gyfer amseroedd aros erbyn diwedd mis Mawrth 2021, a'r arwyddion gan fyrrddau iechyd a Llywodraeth Cymru o'r bwriad i ddarparu gwasanaethau ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol fel sy'n briodol i gefnogi'r adferiad. Fodd bynnag, rhaid inni osgoi'r risg y bydd unrhyw ran o Gymru yn cael ei gadael ar ôl (yn enwedig gan fod yr asesiadau gan fyrrddau iechyd ynghylch yr amser posibl y bydd yn ei gymryd i fynd i'r afael ag ôl-groniadau yn amrywio'n sylweddol).

Argymhelliad 10. Rhaid i gynllun adfer GIG Llywodraeth Cymru fod yn fanwl ac yn benodol, a chynnwys cerrig milltir mesuradwy ac unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau, fel bod pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ac fel y gellir dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cyfathrebu â chleifion

Clywsom gan y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned fod cyfathrebu â chleifion yn faes pryder penodol. Tynnodd sylw at yr angen am gyfathrebu clir, mynediad hawdd at gyngor, cymorth a gwybodaeth, cynnwys cleifion yn briodol ac yn weithredol mewn penderfyniadau am eu gofal eu hunain, ailgyflwyno gwasanaethau'n deg ledled Cymru, a mynd i'r afael â phryderon pobl sy'n pryderu am amseroedd aros a chael mynediad at ofal, ond a all fod yn amharod i ofyn am gymorth. Er bod cyfathrebu â phawb ar y rhestr aros yn gorff sylweddol o waith, mae pobl yn naturiol yn poeni eu bod wedi bod yn aros cryn dipyn heb glywed dim ac nid ydynt yn gwybod pryd i fynd ar drywydd y mater eu hunain, neu a oes angen iddynt wneud hynny.

Rydym yn cydnabod yr heriau cynhenid o ran cyfathrebu'n dda â nifer fawr o bobl, rhai ohonynt mewn poen neu drallod, a rhai a all weld eu hamseroedd aros eu hunain yn cynyddu os yw pobl eraill yn cael eu hasesu fel rhai sydd â mwy o angen clinigol. Felly mae'n bwysig dod o hyd i ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â chleifion, a'u cefnogi yn ystod y cyfnod hwn er mwyn osgoi dirywiad yn eu cyflyrau lle mae hynny'n bosibl.

Ymhlith y ffyrdd y mae byrddau iechyd wedi'u mabwysiadu i wneud hyn hyd yma mae: sgysiau rhithwir unigol â chleifion, yn enwedig y rhai yr ystyrir eu bod â'r risg glinigol fwyaf; adolygiadau bob pedair wythnos o gleifion canser gan nyrsys arbenigol; sefydlu un pwynt cyswllt i gleifion orthopedig ofyn am gyngor neu gymorth; ac ymdrechion i alluogi a chefnogi cleifion i gymryd mwy o ran yn eu gofal, gan gynnwys cyfleoedd i gleifion adrodd am eu symptomau eu hunain, a chael mwy o reolaeth dros eu gofal dilynol.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd i hwyluso rhannu arfer da o ran cyfathrebu â chleifion sy'n aros am driniaeth ysbyty a'u cefnogi.



Trawsnewid Gwasanaethau

Mae profiad y pandemig wedi dangos yr angen am wytnwch yn ein gwasanaethau iechyd. Mae'r pandemig wedi gwaethygu amseroedd aros yn sylweddol, ac rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser ac adnoddau i ddychwelyd i'r sefyllfa yr oeddem ynddi cyn y pandemig. Fodd bynnag, credwn fod cyfleoedd trwy drawsnewid gwasanaethau, darparu adnoddau priodol, gweithio ar y cyd, a chanolbwyntio ar iechyd ataliol, ymyriadau cynnar a gofal sylfaenol, i wella mynediad pobl ledled Cymru at y gwasanaethau iechyd sydd eu hangen arnynt, ac i sicrhau bod ein gwasanaethau iechyd mewn gwell sefyllfa i ymateb i unrhyw sioc systemig yn y dyfodol.

Rydym wedi clywed gan weithwyr iechyd proffesiynol a byrddau iechyd bod awydd gwirioneddol i drawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys dysgu o'r ffyrdd newydd o weithio a'r modelau newydd o ddarparu gwasanaethau a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig, a'u hymgorffori. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd inni gan fyrddau iechyd roedd gweithio ar y cyd rhwng byrddau iechyd ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; darparu mwy o ofal rhithwir; mwy o ofal dan arweiniad y claf a gweithio gyda grwpiau o gleifion; mwy o ddefnydd o dimau amlddisgyblaethol rhithwir a gweithio integredig ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd; mwy o bwyslais ar ofal sylfaenol; a datblygu llwybrau gofal amgen.

Fodd bynnag, tynnodd byrddau iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol sylw hefyd at rwystrau a allai atal cyflymder neu hyd a lled y broses o drawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys lefelau ymwybyddiaeth ddigidol ac allgáu digidol; capasiti'r gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau diagnostig; unrhyw ddiffyg hyblygrwydd yn yr amgylchedd gofal; ac i ba raddau y mae arloesedd yn cael ei gynyddu a'i gyflwyno yn dilyn cynlluniau peilot. Ymhlith y materion eraill a godwyd gyda ni mae'r angen i gynnal ffrydiau gwaith ar wahân ar gyfer COVID-19 a gwaith nad yw'n ymwneud â COVID-19, a'r angen i edrych yn feirniadol ar bwy sy'n gwneud beth o ran darparu gofal ar gyfer cyflyrau cronig.

Rydym yn croesawu'r awydd a'r brwdfrydedd i drawsnewid gwasanaethau, y credwn y bydd yn angenrheidiol nid yn unig i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran amseroedd aros, ond hefyd i ddatblygu gwytnwch. Fodd bynnag, mae'r pryderon a godwyd gyda ni am y rhwystrau posibl i drawsnewid yn adlewyrchu'r rhai yr ydym wedi'u codi'n gyson drwy gydol y Bumed Senedd ynghylch a oes gweledigaeth strategol glir i arwain y broses o drawsnewid gwasanaethau, ac i ba raddau y mae gwasanaethau iechyd wedi gallu prif ffrydio'u gweithgaredd trawsnewid gwasanaethau, yn enwedig o ystyried y pwysau arnynt o ran galw a chostau a methiant parhaus rhai byrddau iechyd i fantoli'r cyfrifon.

Crynhodd Steve Moore, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y mater hwn, gan ddweud wrthym:

"...one of the things that I think has characterised our response to the pandemic is we've done things at speed, at scale. Actually, one of the challenges going forward is: how do we nail that and make it comprehensive, make it consistent across all patient groups?;[...] the trick is not to allow ourselves to fall back into what we were doing previously".



Gyda'r pwysau ychwanegol ar wasanaethau iechyd a'r gweithlu iechyd o ganlyniad i'r pandemig, rydym yn parhau i fod â phryderon ynghylch a oes capasiti digonol yn y system i yrru trawsnewidiad ar y cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol, ac ynghylch sut y bydd y trawsnewidiad hwn yn cael ei yrru a'i arwain.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd ei chynllun adfer GIG yn cyd-fynd â'r broses bresennol o drawsnewid gwasanaethau, ac yn adeiladu arni, sut y bydd yr hyn a ddysgir o gynlluniau llwyddiannus yn cael ei brif ffrydio, a sut y bydd maint ac effaith trawsnewid gwasanaethau yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau eu bod yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

COVID hir

Efallai y bydd angen gwasanaethau adsefydlu parhaus ar bobl sy'n profi COVID-19 aciwt, yn enwedig y rhai sydd yn yr ysbyty, fel rhan o'u hadferiad. Fodd bynnag, fel y dywedodd yr Athro Danny Altmann o Goleg Imperial Llundain wrthym, wrth i heintiau aciwt ddechrau cael eu rheoli drwy gyflwyno'r brechlyn, efallai mai yn sgil COVID hir y daw'r effaith a'r pwysau mwyaf ar wasanaethau iechyd mewn gwirionedd.

Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth ar COVID hir ar 10 Mawrth 2021 i ymchwilio i faterion allweddol yn ymwneud â COVID hir gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o'r cyflwr, academyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Ymwybyddiaeth, effaith a dealltwriaeth

Mae COVID hir yn gyflwr newydd a chymhleth, y mae angen ei gymryd o ddifrif. Nid oes digon yn hysbys eto am nifer yr achosion o COVID hir na'r ffactorau risg, nac effaith y brechlyn ar COVID hir. Yr amcangyfrifon presennol yw bod 20 y cant o'r holl bobl a oedd wedi profi'n positif am COVID-19 yn dangos symptomau am bum wythnos neu fwy a 10 y cant yn dangos symptomau am gyfnod o ddeuddeg wythnos neu fwy. Mae gwaith ymchwil presennol hefyd yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod COVID hir yn effeithio ar fenywod a phobl ifanc yn fwy na dynion, er nad yw'n glir eto a yw hyn yn adlewyrchu gwahaniaethau yn nifer yr achosion o'r cyflwr, mwy o betruster ymhlith dynion i fynd at eu meddygon teulu, neu ffactorau eraill. Mae hyn yn bryder yn arbennig gan nad yw plant a phobl ifanc yn rhan o'r rhaglen frechu.

Mae Long COVID Wales yn galw am drin COVID hir fel clefyd galwedigaethol, a fyddai'n gwneud gweithwyr rheng flaen sy'n datblygu COVID hir yn gymwys i gael taliadau iawndal rheolaidd. Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu wrthym fod angen mwy o dealltwriaeth ymhlith cyflogwyr am y cyflwr, a'i effaith ar allu pobl i weithio neu eu hangen am addasiadau rhesymol.

Symptomau

Disgrifiodd pobl sydd â phrofiad byw o COVID hir ystod o symptomau, sy'n digwydd ac yn ail-ddigwydd ar wahanol adegau, a'r effaith sylweddol ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd a'u bywydau teuluol. Clywsom bryderon bod meddygon teulu wedi diystyru symptomau rhai pobl i ddechrau; awgrymodd aelodau Long COVID Wales mai dyma oedd profiad mwyafrif aelodau'r grŵp. Cydnabu Dr Mair Hopkin o Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu fod hyn yn wir yn ôl pob



tebyg yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, ond dywedodd fod mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o COVID hir ymhlith meddygon teulu bellach. Dywedodd hefyd fod angen mwy o eglurder ar feddygon teulu o ran ble i gyfeirio pobl â COVID hir, a thynnodd sylw at anawsterau'n ymwneud â'r ffaith bod gan fyrddau iechyd wahanol lwybrau a lefelau amrywiol o ddarpariaeth.

Hygyrchedd gwasanaethau amlddisgyblaethol

Dywedwyd wrthym fod angen gwasanaethau amlddisgyblaethol arbenigol sy'n hawdd eu cyrraedd, gan ddod â phobl ac adnoddau ynghyd i ddatblygu gwasanaethau a thriniaethau COVID hir newydd. Gallai'r gwasanaethau arbenigol hyn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r cyflwr a'r gwasanaethau sydd eu hangen yn hytrach na chyfeirio pobl at wasanaethau sy'n bodoli eisoes, sydd â rhestrau aros hir yn barod. Mae llawer o bobl â COVID hir yn dioddef blinder a nam gwybyddol ac felly mae arnynt angen un lle penodol i fynd yn hytrach na cheisio ffitio i mewn i wasanaethau presennol. Fodd bynnag, clywsom farn wahanol gan Long COVID Wales a'r gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch a yw'r gwasanaethau arbenigol hyn yn cael eu darparu orau gan glinigau COVID hir arbenigol amlddisgyblaethol ai peidio. Clywsom hefyd fod angen ariannu a darparu adnoddau i'r gwasanaethau hyn ar wahân, ac nid eu hychwanegu at wasanaethau adsefydlu sydd eisoes o dan bwysau.

Efallai nad yw anghenion pobl sy'n profi COVID hir yn cyd-fynd â gwasanaethau a strwythurau iechyd presennol, felly mae angen gwell dealltwriaeth o'r symptomau er mwyn datblygu gwasanaethau i drin pobl. Fodd bynnag, er bod dealltwriaeth o'r cyflwr yn dal i ddod i'r amlwg, mae'n hanfodol bod pobl yn cael eu cefnogi drwy eu diagnosis, eu triniaeth a'u hadferiad, a bod yr adnoddau cywir ar gael i ddarparu'r gwasanaethau adsefydlu a'r gwasanaeth perthynol i iechyd y bydd eu hangen arnynt.

Hunanreoli

Dywedwyd wrthym fod ap Adferiad GIG Cymru yn offeryn pwysig o ran hunanreoli ac roeddem yn falch o glywed bod Long COVID Wales ynghlwm â'r gwaith o helpu i ddatblygu adran COVID hir ar gyfer yr ap. Fodd bynnag, dylai'r ap fod yn ychwanegol at wasanaethau gofal iechyd ac nid yn eu lle, yn enwedig gan fod pobl â symptomau meddwl pŵl yn ei chael hi'n anodd defnyddio adnoddau digidol, ac efallai na fydd gan eraill sgiliau digidol na mynediad at dechnoleg ddigidol addas na chysylltedd rhyngwyd dibynadwy.

Negeseuon cyhoeddus a chyfathrebu

Yn olaf, credwn fod angen negeseuon cyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth o COVID hir, yn enwedig wrth i gyfyngiadau symud gael eu llacio ac wrth i'r brechlyn gael ei gyflwyno. Mae perygl y bydd pobl yn ystyried bod y niwed iddynt hwy a'u teuluoedd yn sgil COVID wedi'i leihau ar ôl iddynt gael eu brechu. Er y bydd y brechlyn yn lleihau'r risg o niwed difrifol neu farwolaeth o COVID aciwt, credwn fod angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn deall bod COVID hir yn gyflwr cas a hirdymor a allai effeithio arnynt hwy neu eu plant.

Argymhelliad 13. Dylai cynllun adfer GIG Llywodraeth Cymru gynnwys camau gweithredu ac adnoddau ar gyfer gwaith ymchwil pellach i COVID hir ac ar gyfer sicrhau bod gan bobl a



chymunedau ledled Cymru fynediad cyson a theg at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar gyfer diagnosis, triniaeth, adferiad ac adfsefydlu yn sgil COVID hir mewn amrywiaeth o leoliadau.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu drwy ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i sicrhau bod y cyhoedd yn deall yn llawn risgiau, effaith a goblygiadau hirdymor COVID hir, yn enwedig wrth i'r broses o gyflwyno'r brechlyn barhau ac wrth i'r cyfyngiadau symud ddechrau cael eu llacio.

Anghydraddoldebau iechyd

Mae'r pandemig wedi amlygu a dirywio anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd, oedran, rhyw a lefelau amddifadedd. Bydd anghydraddoldebau o'r fath wedi effeithio'n uniongyrchol ar brofiad pobl o'r pandemig. Er enghraifft, lle mae anghydraddoldebau iechyd wedi cyfrannu at fwy o achosion o gyflyrau cronig, gallai hyn yn ei dro fod wedi gadael pobl yn fwy agored i niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol yn sgil COVID-19. Yn drasig, y canlyniad yw mai'r grwpiau a'r cymunedau a oedd eisoes dan anfantais anghymesur sydd wedi profi'r niwed mwyaf yn sgil y pandemig.

Nid yw'r anghydraddoldebau a ddaeth i'r amlwg yn sgil y pandemig yn newydd. Fodd bynnag, maent wedi cael mwy o amlygrwydd yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Er enghraifft, croesewir y ffaith bod y data a gyhoeddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y nifer sy'n cymryd y brechlyn yn cael ei ddadansoddi fesul grŵp blaenoriaeth, oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd. Er bod y data'n tynnu sylw at wahaniaethau amlwg a phryderus yn nifer y bobl o wahanol gefndiroedd ethnig sy'n cymryd y brechlyn a'r bobl sy'n byw mewn ardaloedd cyfoethocach a thlotach yng Nghymru, mae cyhoeddi data o'r fath yn rheolaidd yn ei gwneud yn bosibl i adnabod a meintioli'r materion hyn. Mae hefyd yn hwyluso datblygiad ymyriadau wedi'u targedu, a'u rhoi ar waith.

Mae gwaith agos Llywodraeth Cymru gydag arweinwyr cymunedol, er mwyn deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r pryderon a allai gyfyngu nifer y rhai sy'n cymryd y brechlyn, wedi bod yn ffactor pwysig o ran mynd i'r afael â chamwybodaeth, magu hyder a sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at yr amddiffyniad y mae'r brechlynnau Covid-19 yn ei gynnig, a bydd hynny'n parhau i fod yn ffactor bwysig. Credwn y gallai adeiladu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol â chymunedau ledled Cymru er mwyn deall eu hanghenion yn well a dod o hyd i ffyrdd o oresgyn unrhyw rwystrau hefyd helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd eraill. I'r perwyl hwn, wrth i Gymru symud tuag at adferiad, mae'n rhaid inni i gyd sicrhau nad ydym yn colli golwg ar yr angen i weithio gyda chymunedau i sicrhau bod gan bawb ledled Cymru fynediad teg ac amserol at y gofal iechyd a'r gofal cymdeithasol ataliol ac adweithiol sydd eu hangen arnynt i fyw yn iach ac i wneud y gorau o'u lles.

Felly, mae'n rhaid i gynllun adfer GIG Llywodraeth Cymru gydnabod a myfyrio ar yr angen am ddulliau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau cleifion. Dylai hyn gynnwys dysgu o'r ymyriadau wedi'u targedu a ddatblygwyd ac a weithredwyd drwy'r rhaglen frechu er mwyn ceisio cau'r bwlch o ran y nifer sy'n cymryd brechlyn ac sydd â hyder ynddo mewn gwahanol gymunedau, ac ymgorffori dysgu o'r fath yn rhagweithiol yng nghynllun mentrau iechyd cyhoeddus eraill.



Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei chynllun adfer GIG COVID-19 yn cynnwys pwyslais parhaus ar adnabod anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â hwy drwy ymyriadau wedi'u targedu a'u teilwra, cyhoeddi data tryloyw, cydweithio â rhanddeiliaid a chymunedau, a chyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol sy'n magu hyder y cyhoedd ledled Cymru.

Y gweithlu

Hoffem gofnodi ein diolch diffuant i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol am yr ymrwymiad, y dewrder a'r ymroddiad y maent wedi'u dangos drwy gydol y pandemig.

Gwyddom fod staff wedi blino'n lân a bod angen amser i orffwys ac adfer arnynt ar ôl y pwysau a'r trawma y maent wedi'u profi. Mae'n anochel y bydd hyn yn cael effaith ar lefelau staffio. Mae'n debygol hefyd y bydd y gwasanaeth yn colli nifer fawr o staff, er enghraifft o ganlyniad i absenoldeb salwch, pobl wedi ymddeol a ddychwelodd i helpu yn ystod y pandemig yn unig, neu bobl y gallai eu llwybr gyrfa fod wedi newid. Bydd angen i bobl sydd wedi bod ar adleoliad hirdymor yn ystod y pandemig ddychwelyd i'w hadran neu arbenigedd arferol, ac efallai y bydd angen cymorth arnynt i loywi eu sgiliau.

Rydym wedi clywed gan weithwyr iechyd proffesiynol, byrddau iechyd a'r Gweinidog am y cyfleoedd a'r angen i drawsnewid gwasanaethau. Er mwyn cyflawni'r trawsnewidiad hwn bydd angen adnoddau staff, ond efallai y bydd angen datblygu sgiliau newydd yn ein gweithlu iechyd hefyd. Er enghraifft, awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg y gallai therapyddion chwarae rhan drwy asesu atgyfeiriadau orthopedig; uwchsgilio gwyddonwyr biofeddygol i wneud mwy o brofion; a defnyddio Cydlynwyr Lles Cymunedol i gynorthwyo unigolion i gael mynediad at wasanaethau sy'n ymwneud â dewisiadau ffordd iach o fyw. Bydd angen cefnogi staff presennol i ddatblygu sgiliau newydd o'r fath.

Yn ogystal â chefnogi a datblygu'r gweithlu presennol, bydd angen i'n gwasanaethau iechyd hyfforddi a recriwtio staff newydd. Clywsom gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon yn benodol fod atal llawer o wasanaethau iechyd a drefnwyd ymlaen llaw yn ystod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar hyfforddiant, gyda goblygiadau o ran cadw llawfeddygon dan hyfforddiant, a'u cynnydd. Yn yr un modd, dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon wrthym gan fod myfyrwyr meddygol wedi gorfod ymuno â'r gweithlu yn gynnar, nid oeddent wedi cael symud o un swydd i'r llall. Felly roeddent wedi treulio blwyddyn gyfan gydag un tîm mewn un arbenigedd, a oedd wedi effeithio ar ehangder eu profiad.

Er y croesewir cyhoeddiad strategaeth gweithlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Hydref 2020, nid ydym wedi ein hargyhoeddi eto bod digon o eglurder ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o gapasiti staff ar draws y gwasanaeth iechyd i ymateb i heriau parhaus y pandemig, yr angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad amseroedd aros cynyddol a'r angen i sicrhau bod staff sydd wedi ysgwyddo baich y pandemig ar y rheng flaen yn cael y seibiant sydd ei angen arnynt ac y maent yn ei haeddu. I'r perwyl hwn, credwn y dylai'r strategaeth drosfwaol y gweithlu gael ei thanategu gan gynllun gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol manwl.



Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd strategaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ac unrhyw gynllun gweithlu manwl dilynol yn sicrhau bod gan y gweithlu'r capasiti, y cydnerthedd a'r cymysgedd sgiliau priodol i ymateb i'r pandemig parhaus, a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei adfer a'i drawsnewid.



Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA-EM-2623-21

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

27 Gorffennaf 2021

Annwyl Russell

Gweler ein hymateb i'r argymhellion yn eich adroddiad diweddar, Covid-19: Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r ffordd y cafodd ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Blaenoriaethau ar gyfer y cam nesaf. Gan fod y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn aelod o'r pwyllgor ar y pryd, mae wedi nodi'r ymateb er gwybodaeth y tro hwn, er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Eluned Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Julie Morgan'.

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau
Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r enw Covid-19: Ymchwiliad i effaith COVID-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: blaenoriaethau'r cyfnod nesaf

Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch llacio cyfyngiadau, dylai Llywodraeth Cymru gydbwysu'r effaith bosibl o ran trosglwyddo'r feirws yn erbyn manteision posibl unrhyw lacio i wahanol grwpiau a chymunedau. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gweithgareddau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol, a lles emosiynol y rhai sydd wedi cael eu taro waethaf gan y pandemig. Dylai hyn gynnwys rhoi blaenoriaeth i gael plant a phobl ifanc yn ôl i ddysgu wyneb yn wyneb mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud droeon mai ein prif flaenoriaeth oedd galluogi plant a myfyrwyr i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Rydym wedi egluro na ddylai newidiadau eraill i gyfyngiadau beryglu'r amcan hwnnw. Ar ôl i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen a rhai myfyrwyr galwedigaethol ddechrau dychwelyd ym mis Chwefror, fe wnaeth pob dysgwr ddychwelyd i ddysgu ar y safle ar ôl gwyliau'r Pasg ar 12 Ebrill.

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o Gynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd Diwygiedig yng Nghymru (Mawrth 2021) yn nodi sut y byddwn yn mynd ati'n ofalus ac yn raddol i lacio cyfyngiadau'r coronafeirws. Ein ffocws yn y lle cyntaf oedd lleddfu'r cyfyngiadau a oedd yn ceisio gwella lles mewn lleoliadau awyr agored lle mae'r risg o drosglwyddo'r feirws yn llai.

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gadw ffocws clir ar gyfathrebu. Dylai hyn gynnwys gweithio gyda phartneriaid a rhwydweithiau ledled Cymru i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth glir o ffynonellau dibynadwy, a mynd i'r afael yn rhagweithiol â'r gamwybodaeth a ledaenir yn ein cymunedau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyrch gyfathrebu heb ei thebyg wrth ymateb i'r pandemig. Mae wedi cynnwys ymgyrch proffil uchel Diogelu Cymru, a fabwysiadwyd gan gyrrff cyhoeddus ledled Cymru fel y brand cenedlaethol; cynadleddau rheolaidd i'r wasg a ddarlledir yn fyw ar BBC Wales a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol; hysbysebion digidol, ar y teledu, ar y radio, y tu allan i'r cartref ac yn y wasg, a chyfeirio pobl at wefannau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael gwybodaeth gywir. Datblygir negeseuon cyfathrebu sydd wedi'u targedu'n fanwl gan weithio gyda rhanddeiliaid ac fe'u cyflwynir mewn partneriaeth; hyd yma, rydym wedi gweithio gyda 250 a mwy o bartneriaid a dylanwadwyr i gyrraedd cynulleidfaoedd allweddol gan gynnwys pobl ifanc a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae esbonio'r rhesymau dros benderfyniadau yn hanfodol ac rydym yn rhoi esboniadau ochr yn ochr â newidiadau mewn rheoliadau a chanllawiau yn ein negeseuon cyfathrebu a thrwy gyhoeddi cyngor gwyddonol i Weinidogion. Gan weithio gydag arbenigwyr i fynd i'r afael â chamwybodaeth, mabwysiadwyd y strategaeth o hyrwyddo negeseuon cadarnhaol a ffeithiol gywir i wrthddadlau naratifau anghywir a chamarweiniol a rhannu'r rhain â'r holl rhanddeiliaid i'w defnyddio i ddelio â materion penodol. Byddwn yn parhau â'r dull hwn wrth symud ymlaen.

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyfathrebu'n rhagweithiol â phobl o grwpiau neu gymunedau sy'n llai tebygol o gymryd y brechlyn ac sydd â llai o hyder ynddo, yn enwedig lle gallai grwpiau o'r fath hefyd fod yn fwy agored i niwed o COVID-19.

Ymateb: Derbyn

Ein nod yw sicrhau bod pob person yn gallu gwybod am, deall a manteisio ar eu cynnig o'r brechlynnau ac nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl. I'r perwyl hwn, cyhoeddwyd ein Strategaeth Frechu ar 11 Ionawr a chyhoeddwyd diweddariadau i'r strategaeth ar 26 Chwefror, 23 Mawrth a 7 Mehefin. Hefyd, rydym yn cyhoeddi diweddariadau wythnosol i rannu'r manylion diweddaraf i bobl am hynt y rhaglen frechu a'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithlonrwydd a diogelwch y brechlyn. Mae ein strategaeth frechu a'n diweddariadau dilynol yn pwysleisio'n glir pa mor dyngedfennol o bwysig yw cyfathrebu'n rhagweithiol a'n bod yn parhau i sicrhau bod y lefelau sy'n manteisio ar y brechlyn mor uchel â phosibl. Mae hyn hefyd yn golygu deall y rhesymau pam mae rhai grwpiau yn dewis peidio cael eu y brechlyn – boed yn fynediad, logisteg, amseru, diwylliant, pryderon ffydd neu ieithoedd - a gweithio gyda chymunedau a lleisiau dibynadwy er mwyn chwalu unrhyw rwystrau a mynd i'r afael â phryderon.

Mae'r bwlch yn y niferoedd sy'n manteisio ar y brechlyn wedi gostwng yn sylweddol ymhlith grwpiau ymylol, sy'n galonogol. Llwyddwyd i gyflawni hyn drwy amryw o ddigwyddiadau ymgysylltu, gweminarau mewn ieithoedd gwahanol, sesiynau bord gron, digwyddiadau holi ac ateb lle gallai pobl 'holi'r arbenigwyr' a sgwrsio gyda lleisiau dibynadwy. Yn ogystal, mae saith bwrdd iechyd Cymru yn edrych yn fanwl ar eu data 'heb fynychu' (DNA) ac maent wedi addasu eu trefn weithio i sefydlu clinigau dros dro er mwyn brechu pobl mewn cymunedau lleol, sy'n debygol o ddenu mwy, fel safleoedd Teithwyr a Mosgiau. Bydd hyn yn parhau wrth i ni gyflwyno'r rhaglen frechu i'r to iau. Rydym yn hynod ddiolchgar i fudiadau gwirfoddol, arweinwyr grwpiau ffydd a'u sefydliadau cymorth sydd wedi helpu yn hyn o beth.

Ein bwriad yw sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Does dim dyddiad terfyn ar gynnig brechlyn, ac rydym yn gwybod efallai y bydd llawer a oedd yn gyndyn i ddechrau am fanteisio ar y cynnig maes o law ar ôl pwysu a mesur. Hefyd, efallai y byddant yn teimlo'n hapusach os gall aelodau iau o'u teuluoedd fod gyda nhw ar yr un siwrnai frechu. Rydym hefyd yn ailgysylltu â'r rhai a oedd efallai'n sâl pan gynigiwyd y brechlyn iddyn nhw'n wreiddiol, ac nad oeddent yn gallu mynychu'r apwyntiad ar y pryd.

Rydym wedi sefydlu ein Pwyllgor Brechu Teg, sy'n rhoi cyngor ar sut i sicrhau bod pawb yng Nghymru sy'n gymwys i gael brechiad COVID-19 yn cael mynediad teg a chyfle teg i gael eu brechlyn, er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau sy'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau poblogaeth heb eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae hyn yn cynnwys anghenion grwpiau a allai fod cwmpo drwy'r rhwyd o'r blaen, fel pobl ag anableddau corfforol, synhwyraidd a dysgu, a'r rhai heb gartref, neu'r rhai ag anghenion iechyd meddwl. Fe'i llywir gan adroddiad misol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y nifer sy'n manteisio ar y brechlyn. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwybodaeth am gydraddoldeb y rhaglen frechu yng Nghymru yn ôl rhyw, amddifadedd economaidd-gymdeithasol a grŵp ethnig.

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol a darparwyr gofal sylfaenol eraill i sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti ac adnoddau i hwyluso'r broses barhaus o gyflwyno'r rhaglen frechu ochr yn ochr â darparu eu gwasanaethau arferol.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Cynllun Gofal Sylfaenol ar gyfer lmiwneiddio rhag COVID-19 (PCCIS) yn caniatáu i fyrddau iechyd gontractio ar delerau cyfartal â'r holl gontractwyr Gofal Sylfaenol. Mater i fyrddau iechyd yw penderfynu a ydynt yn dymuno defnyddio'r dull hwn a sut maen nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae pob contractiwr yn cael tâl o £12.58 am bob brechlyn a roddir, a hyd yma mae tua 34% o'r holl frechlynnau wedi'u darparu drwy'r dull hwn. Mae'r dull hwn yn galluogi byrddau iechyd i osgoi gorlwytho un gwasanaeth, sy'n gorfod parhau â'i fusnes arferol wrth gymryd rhan yn y rhaglen frechu.

Mae'r gwaith o adeiladu seilwaith yn parhau ac mae'n addasu'n barhaus er mwyn gweddu'r carfanau sy'n cael eu brechu. Mae'r gymuned gofal sylfaenol wedi bod yn allweddol yn y broses, gan ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol, a chymryd rhan ganolog yn y gwaith o gyflwyno'r brechlyn. Diben brechu grwpiau gwahanol mewn lleoliadau gwahanol yw hwylusrwydd gweithredol.

Mae ein seilwaith wedi ehangu'n aruthrol ers dechrau'r flwyddyn.

Yn yr wythnos yn dechrau 12 Gorffennaf 2021, roeddem yn rhoi brechlynnau mewn dros 226 o leoliadau, gan gynnwys 50 o ganolfannau brechu torfol, 15 lleoliad meddyg teulu, 27 fferyllfa, 22 lleoliad ysbyty a 7 tîm symudol ar hyd a lled Cymru.

Mae cynllun pob bwrdd iechyd ar gyfer ymdrin â'r rhaglen frechu yn ystyried poblogaeth a capasiti'r bwrdd a'r lleoliadau brechu gwahanol sydd ar gael iddo, er mwyn cynnal effeithlonrwydd a chyflwyno'r cyfan yn esmwyth, yn gyflym ac yn effeithiol. Cafodd y cynlluniau hyn eu profi a'u hadolygu yn y Bwrdd Cyflawni Gweithredol lle rhoddodd pob bwrdd iechyd sicrwydd y gellid darparu'r rhaglen frechu yn ogystal â'r gwasanaethau arferol.

Prif ffocws unedau symudol yw cyrraedd y rhai anodd eu cyrraedd – fel cartrefi gofal. Efallai na fydd nifer yr unedau symudol sydd dan ofal ein nyrsys cymunedol o reidrwydd yn tyfu; hwyrach y byddant yn lleihau ar ôl i garfanau'r cartrefi gofal gael eu brechu, gyda thimau'n dychwelyd i ganolfannau brechu fel bod capasiti'n cynyddu yno.

Rydym hefyd wedi gweld cyflwyno Canolfannau Brechu Cymunedol. Mae Canolfannau Brechu Cymunedol yn dwyn ynghyd ystod o ymarferwyr gofal sylfaenol, gan gynnwys deintyddion ac optometryddion, sy'n cynnig ateb mewn

cymunedau lleol ond gyda'r gallu i frechu mwy o bobl na phractisau meddyg teulu yn unig wrth i gyflenwadau gynyddu.

Mae mwy o fferyllwyr – a chontractwyr gofal sylfaenol eraill, fel deintyddion ac optegwyr – wedi cael eu gwahodd i helpu'r ymdrech enfawr i frechu pobl rhag y coronafeirws yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Hyd yma mae 61 o fferyllfeydd wedi bod yn rhan o raglen frechu COVID-19. Mae fferyllfeydd wedi chwarae rhan bwysig yn y rhaglen frechu yn enwedig o ran darparu'r brechlyn COVID-19 mewn ardaloedd gwledig anos eu cyrraedd yma yng Nghymru, gan gynnig cyfleustra i bobl leol.

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol.

Argymhelliad 5

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu'r adnoddau ar gyfer cyflwyno'r brechlyn, gan gynnwys cyfleusterau a staffio yn ogystal â'r brechlyn ei hun, ac ymchwilio i opsiynau i ddyrannu rhagor o gyllid yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 os oes angen.

Ymateb: Derbynn

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 am £380 miliwn ychwanegol ar gyfer chwe mis cyntaf 2021-22, a fydd cynnwys cyllid ar gyfer parhau i gyflwyno'r rhaglen frechu. Fel yr amlinellwyd yn ystod sesiwn graffu'r Gyllideb, mae ansicrwydd ynghylch costau posibl gweddill y rhaglen yn y dyfodol, yn rhannol oherwydd diffyg eglurder o ran a ydy'r brechlynnau presennol yn darparu amddiffyniad hirdymor yn erbyn y feirws ac amrywiolion newydd. Cafwyd cyngor interim am gam 3 y rhaglen frechu gan y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI), sy'n argymhell bod ymgyrch pigiad atgyfnerthu'r hydref yn dechrau ym mis Medi 2021. Byddwn yn adolygu'r adnoddau sydd ar gael yn barhaus, yn enwedig os oes rhaid cyflawni'r rhaglen hon bob blwyddyn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Uned Cyflawni Ariannol GIG Cymru (FDU), sydd wedi cysylltu â byrddau iechyd unigol, i ddatblygu asesiad ariannol parhaus o'r rhaglen. Mae'r gwaith hwn yn mynd

rhagddo a bydd yn parhau gydol y rhaglen frechu. Mae'r FDU yn monitro'n ofalus sut mae byrddau iechyd yn ariannu'r rhaglen frechu bob mis, er mwyn sylwi'n gynnar ar unrhyw newidiadau mewn costau. Cynhelir cyfarfod misol o arweinwyr Cyllid GIG Cymru gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, arweinwyr FDU ac arweinydd gweithredol y rhaglen weithredu. Mae arweinwyr FDU a swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod bob wythnos i drafod unrhyw faterion. Bydd swyddogion yn parhau i gysylltu'n agos â'r FDU ynghylch monitro ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gweinidog Cyllid. Mae adroddiadau ffurfiol ar wariant ar weithredu'r brechlyn wedi'u cynnwys yn y Ffurflenni Monitro Misol ar gyfer GIG Cymru

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol.

Argymhelliad 6

Nodwn fod adroddiadau gwerthuso'r cynlluniau peilot profi asymptomatig torfol wedi'u cyhoeddi ar 15 Mawrth 2021. Rhaid i Lywodraeth Cymru nawr sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhoi ar waith ledled Cymru wrth weithredu ei strategaeth profi COVID-19.

Ymateb: Derbyn

Roedd y datganiad - <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-covid-19-profi-i-ddarganfod> - a gyhoeddwyd ar 22 Mawrth am elfen Profi i Ddarganfod y Strategaeth Profi yn nodi sut roedd y gwersi a ddysgwyd o gynllun peilot profi asymptomatig yn ardaloedd Merthyr Tudful a Chwm Cynon Isaf yn cael eu rhoi ar waith mewn cynlluniau i'w gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn amserlenni ar gyfer y rhaglen profi gymunedol tan ddiwedd mis Medi er mwyn helpu i reoli achosion a thargedu ardaloedd sy'n gweld cynnydd cyflym mewn achosion ac sy'n profi trosglwyddo parhaus. Defnyddiwyd y dull hwn yn llwyddiannus fel rhan o'r cynllun i ymateb i'r achosion yng Nghaerdybi yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill ac yn fwy diweddar yng Nghonwy a rhannau eraill o'r Gogledd oherwydd amrywiolyn delta. Roedd hefyd yn nodi sut y byddai sianeli dosbarthu newydd yn cael eu defnyddio er mwyn helpu pobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar brofion yn y gweithle ac nad ydynt yn gallu gweithio gartref i gael gafael ar hunanbrofion i'w defnyddio gartref wrth i'r

cyfyngiadau lacio. Mae gwirfoddolwyr ac unigolion na allant weithio gartref wedi gallu casglu profion llif unffordd o safleoedd profi lleol ledled Cymru ers 16 Ebrill. Ers 26 Ebrill, mae pobl hefyd wedi gallu gwneud cais am brofion llif unffordd i'w danfon yn syth i'w cartref, drwy'r hyn a elwir yn sianel LFD Direct. Fe wnaethom lansio Pharmacy Collect ar 5 Gorffennaf er mwyn cynnig mynediad mwy cyfartal i gymunedau o Fôn i Fynwy gan y bydd fferyllfeydd sy'n cymryd rhan yn darparu mannau casglu ar gyfer profion llif unffordd.

Rydym yn dysgu ac yn asesu'n barhaus sut rydym yn gweithredu ein strategaeth brofi ac yn darparu ymateb ystwyth i achosion ac amgylchiadau sy'n newid. Mae hyn yn cynnwys arolygon deall ymddygiad a gwerthuso.

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol.

Argymhelliad 7

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth glir, syml a hygyrch i'r cyhoedd am y gwahanol fathau o brofion (o ran pum haen y strategaeth brofi a Phrofion Llif Unffordd / profion Adwaith Cadwynol Polymerasau (PCR)), sut a phryd y dylent gael y gwahanol fathau o brofion, a pha gamau y dylent eu cymryd yn dilyn canlyniadau prawf positif neu negyddol.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth glir a hygyrch am brofion sy'n nodi diben y mathau gwahanol o brofion a phryd i'w defnyddio. Datblygwyd fideos, taflenni a chanllawiau ynghylch y mathau o brofion sydd ar gael a sut a phryd i gael gafael arnynt i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd, ac yn benodol i grwpiau a lleoliadau sy'n cael profion asymptomatig rheolaidd o dan bum llinyn y strategaeth. Mae hyn wedi cynnwys gwrando ar adborth gan bartneriaid a rhanddeiliaid lleol, yn enwedig mewn perthynas â gweithredu ar ganlyniadau, a darparu canllawiau ac eglurder pellach ar berfformiad y profion a gwahanol rolau profion llif unffordd a PCR. Lanswyd arolwg gennym ym mis Mehefin ar gyfer pobl sy'n profi'n rheolaidd ar draws grwpiau gwahanol er mwyn deall profiadau pobl ac anghenion cyfathrebu ychwanegol yn well a helpu i gynllunio pa fath o brofion y dylem eu cynnig yn y dyfodol.

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ac adolygu'r wybodaeth sy'n cael ei dosbarthu gan staff olrhain cysylltiadau'n rheolaidd. Dylai hyn gyd-fynd â rhaglen hyfforddi barhaus i sicrhau negeseuon cyson mewn perthynas â'r cymorth sydd ar gael i'r sawl sy'n gorfod hunanynysu.

Ymateb: Derbyn

Mae rhoi gwybod i bobl am y cymorth sydd ar gael i hunanynysu yn flaenoriaeth ar gyfer olrhain cysylltiadau. O'r herwydd, caiff yr holl ganllawiau olrhain cysylltiadau eu hadolygu a'u diwygio'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn gywir. Er enghraifft, diweddarwyd sgriptiau olrhain cysylltiadau yn ddiweddar pan aeth y Cynllun Cymorth Hunanynysu newydd, mwy hael, yn fyw fel bod y taliad bellach yn cael ei grybwyll yn benodol yn ystod y sgwrs gychwynol â'r rhai y gofynnwyd iddynt hunanynysu.

Ar ben hynny, anfonir neges destun ar wahân gyda neges am y Cynllun Cymorth Hunanynysu a rhif achos yr unigolyn i'w annog i wneud cais am y taliad, a lanswyd ymgyrch gyfathrebu wedi'i thargedu ym mis Mawrth i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth ariannol sydd ar gael drwy'r Cynllun Cymorth Hunanynysu.

At hynny, ffurfiwyd Grŵp Deall Ymddygiad o ran Systemau Olrhain Cysylltiadau ym mis Tachwedd 2020, i gydnabod y ffaith bod swyddogion olrhain cysylltiadau yn geidwaid ar gyfer ymyriadau 'Diogelu' ac yn gwneud cyfraniad allweddol wrth helpu achosion a chysylltiadau i gadw at reolau hunanynysu. Drwy'r grŵp hwn, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru waith gyda'r gweithlu olrhain cysylltiadau a datblygu raglen 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' ar gyfer y swyddogion hyn ledled Cymru.

Mae'r hyfforddiant hwn yn ymdrin â'r hyn sydd angen i swyddogion olrhain cysylltiadau ddeall am ymddygiad pobl i'w cynorthwyo i ddilyn rheolau hunanynysu, gan gynnwys galluogi mynediad at ymyriadau 'Diogelu' o

safbwynt cymorth ariannol ac iechyd meddwl. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu i hyfforddwyr swyddogion olrhain ledled Cymru ar hyn o bryd.

Yn ogystal, er mwyn parhau â'n huchelgais i wella'r gwasanaeth, mae llinellau ffôn ar waith ers dechrau mis Ebrill ar gyfer timau olrhain cysylltiadau lleol er mwyn helpu'r cyhoedd i gael cyngor yn hawdd a chyflym, codi cwestiynau a gofyn am gymorth.

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru werthuso cyfraddau cydymffurfio hunanynysu, gyda'r bwriad o ddeall y rhwystrau posibl rhag hunanynysu ac a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael â hwy.

Ymateb: Derbynn

Ddydd Gwener 30 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun i ddarparu cymorth i bobl sy'n gorfod hunanynysu oherwydd eu bod nhw neu rywun y maent wedi bod mewn cysylltiad â nhw wedi cael prawf positif am Covid-19. Mae'r Cynllun Cymorth Hunanynysu wedi'i gynllunio i ddileu'r rhwystrau ariannol sy'n wynebu rhai pobl wrth orfod hunanynysu. Mae'r cynllun wedi'i anelu'n benodol at bobl sydd naill ai mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth ac a fydd yn colli incwm o ganlyniad i gael cais i hunanynysu gan wasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu GIG Cymru.

Mae'r data diweddaraf yn dangos cyfradd dderbyn o 42% ar gyfer ceisiadau ar draws awdurdodau lleol. Mae gwaith wedi'i wneud er mwyn nodi gwelliannau i gymhwysedd a hygyrchedd y cynllun. Daeth y newidiadau diweddaraf i'r cynllun i rym ar 7 Mehefin 2021 ac mae'n sicrhau y bydd mwy o bobl yn gallu cael cymorth ariannol sydd ei angen arnynt er mwyn hunanynysu'n llwyddiannus gartref.

Gydol fis Mawrth a mis Ebrill, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot i annog pobl i hunanynysu yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Er mwyn cefnogi Rhaglen Brofi Gymunedol Cwm Taf Morgannwg, cafodd rhai a gafodd brawf positif neu a nodwyd fel cyswllt agos eu cyfeirio at linell gymorth hunanynysu Cwm Taf Morgannwg a chynigiwyd cymorth ychwanegol gyda bwyd ac eitemau hanfodol i'w helpu i hunanynysu a lleihau trosglwyddo. Gwnaed cyfanswm o 47 o atgyfeiriadau i rwydweithiau bwyd lleol ar draws pob un o'r 3 ardal awdurdod lleol sydd wedi helpu dros 130 o bobl i hunanynysu gartref. Mae gwerthusiad llawn o'r cynllun peilot ar y gweill a bydd yn nodi faint o bobl wnaeth gydymffurfio â rheoliadau hunanynysu, a oedd y cymorth a gynigiwyd wedi helpu pobl i hunanynysu a lleihau trosglwyddo, a bydd yn ystyried hefyd a oes modd cynnig cymorth Diogelu pellach.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr Diogelu i ddatblygu dull tebyg o ymestyn cymorth Diogelu yn y Gogledd. Rydym yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol i lansio cynlluniau peilot mewn pum cymuned ddifreintiedig i brofi dull cyfannol o gefnogi cymunedau.

Mae pob Hyb Cymorth Covid yn cynnig yr un gwasanaethau craidd:

- Dyfeisiau llif unffordd ar gyfer profion asymptomatig
- Gwybodaeth am gyllid a dyled
- Cymorth gyda thlodi tanwydd a bwyd
- Cymorth a chwrsela iechyd meddwl
- Cynhwysiant digidol

O fewn y mis cyntaf, mae'r peilot wedi llwyddo i gyflwyno cannoedd o brofion dyfeisiau llif unffordd, gan adlewyrchu'r pryderon ar lawr gwlad am drosglwyddo Covid ac amrywiolion newydd. Rydym wedi casglu astudiaethau achos sy'n dangos bod unigolion yn manteisio ar y cynnig ehangach o wasanaethau, ac yn cysylltu'r agweddau gwahanol i gynnig cymorth eang.

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol.

Argymhelliad 10.

Rhaid i gynllun adfer GIG Llywodraeth Cymru fod yn fanwl ac yn benodol, a chynnwys cerrig milltir mesuradwy ac unrhyw newidiadau arfaethedig i

wasanaethau, fel bod pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ac fel y gellir dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Ymateb: Derbyn

Ar 22 Mawrth 2021 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg *Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych tua'r dyfodol* (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel Edrych tua'r dyfodol)

<https://llyw.cymru/gwella-iechyd-gofal-cymdeithasol>

<https://gov.wales/improving-health-and-social-care>

Mae *Edrych tua'r dyfodol* yn nodi effaith sylweddol COVID-19 ar gymdeithas ac ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros y 12 mis diwethaf. Mae'n nodi rhai o'r cyfleoedd a'r risgiau, gan edrych ymlaen at gam nesaf ymateb y pandemig ac at adferiad. Mae'r ddogfen yn nodi ystod o flaenoriaethau, y bydd y system iechyd a chymdeithasol gyfan yn eu dilyn yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Mae'n ddarlun lefel uchel o 'lle rydyn ni arni nawr' a 'lle rydym am fod'. Mae cydnabyddiaeth nad yw amserlen gadarn ar gyfer adferiad yn wyneb y pandemig parhaus a'r ansicrwydd presennol yn bosibl. Dyna pam mae *Edrych tua'r dyfodol* yn nodi dull gweithredu yn hytrach na chynllun diffiniol. Y nod fydd parhau i weithio ochr yn ochr â'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu cynlluniau manylach wrth i'r pandemig leddfu, gan adeiladu tuag at gynaliadwyedd ac adferiad cyn gynted â phosibl gan gydnabod natur anferthol a chymhleth yr her sydd o'n blaenau.

Law yn llaw ag *Edrych tua'r dyfodol*, cyhoeddwyd y [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol](#) ym mis Mawrth 2021 hefyd. Mae'n rhoi arweiniad ar ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd, ac yn ei dro, caiff ei ategu gan lawer o ddogfennau mwy penodol a fydd yn disgrifio disgwyliadau mewn amrywiaeth o feysydd gwasanaeth penodol. Datganiad Ansawdd y Gwasanaethau Canser yw'r cyntaf o gyfres sy'n gosod y weledigaeth, yr uchelgais a'r disgwyliadau ar gyfer canlyniadau gwell i bobl Cymru. Bydd Datganiadau Ansawdd ar gyfer cyflyrau blaenllaw eraill yn dilyn dros y misoedd nesaf.

<https://llyw.cymru/y-datganiad-ansawdd-ar-gyfer-canser>

<https://llyw.cymru/y-datganiad-ansawdd-ar-gyfer-cyflyrau-ar-y-galon>

[Darparodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad anghylchol o £100m er mwyn helpu i weithredu *Edrych tua'r dyfodol* yn gynnar. Mae byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi datblygu cynlluniau i ddechrau mynd i'r afael â'r twf mewn rhestrau aros sydd wedi digwydd dros yr 16 mis diwethaf o ganlyniad i'r pandemig.](#)

[Mae cynlluniau blynyddol y GIG ar gyfer 2021-22 yn cael eu cwblhau'n derfynol hefyd, a byddant yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2021. Byddant yn cynnwys rhagor o fanylion am y cerrig milltir adfer.](#)

Goblygiadau ariannol – Bydd costau'r adferiad, er nad ydynt yn hysbys eto, yn sylweddol. Mae £100m wedi'i ymrwymo er mwyn helpu i weithredu *Edrych tua'r dyfodol* yn gynnar.

Argymhelliad 11.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd i hwyluso rhannu arfer da o ran cyfathrebu â chleifion sy'n aros am driniaeth ysbyty a'u cefnogi.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru a'r GIG yn pryderu'n fawr am yr effaith ar gleifion sy'n gorfod aros yn hir am driniaeth ac adolygiadau clinigol (apwyntiadau newydd a dilynol).

Cytunwyd ar ddull cyfathrebu cenedlaethol gyda phob bwrdd iechyd ac er ei fod wedi'i anelu i ddechrau at gleifion sy'n aros dros 52 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf, bydd yn cael ei ymestyn i bawb sy'n disgwyl am yr apwyntiad claf allanol cyntaf (dros 16 wythnos maes o law, y flaenoriaeth yw'r rhai sy'n aros dros 52 wythnos) a'r rhai sy'n aros am apwyntiad dilynol. Mae gwaith ar droed i sicrhau bod y rhai sy'n aros am driniaeth yn cadw'n dda ac yn iach wrth aros.

Datblygwyd llythyr cenedlaethol y cytunwyd arno, wedi'i ategu gan holiadur i ddeall cyflwr presennol y claf. Anfonwyd y llythyrau at gleifion o fis Mai 2021

ymlaen i sicrhau bod cleifion ar y rhestrau aros cywir. Cytunwyd ar brosesau asesu ac adolygu clinigol a dechreuwyd eu gweithredu ddiwedd mis Mai. Bydd hyn yn cymryd amser i'w gwblhau, ond y bwriad yw, unwaith y bydd y byrddau iechyd wedi cysylltu â phawb sy'n aros dros 52 wythnos, byddant yn cysylltu â'r rhai sy'n aros dros 36 wythnos ac yna 26 wythnos. Datblygwyd y rhain ar y cyd a bydd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio yn parhau i hwyluso rhannu arfer gorau yn y maes hwn.

Goblygiadau ariannol – Dim ychwanegol.

Argymhelliad 12.

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd ei chynllun adfer GIG yn cyd-fynd â'r broses bresennol o drawsnewid gwasanaethau, ac yn adeiladu arni, sut y bydd yr hyn a ddysgir o gynlluniau llwyddiannus yn cael ei brif ffrydio, a sut y bydd maint ac effaith trawsnewid gwasanaethau yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau eu bod yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych tua'r dyfodol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn nodi'r dull o ailadeiladu'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn pwysleisio'r neges bod rhaid i Gymru elwa ar y manteision yn ddaeth yn sgil delio â'r pandemig. Mae *Edrych tua'r dyfodol* yn pwysleisio bod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gorfod bod wrth wraidd ailadeiladu'r genedl.

Mae cydnabyddiaeth o'r rôl ehangach y gall technoleg ei chwarae wrth helpu cleifion i gael gafael ar gyngor a gofal. Mae pennod benodol ar gymorth digidol effeithiol yn nodi sut i GIG Cymru allu cyflwyno systemau digidol newydd yn genedlaethol yn gyflym, ac yn dangos sut y gall gweithwyr proffesiynol a chleifion newid yn gyflym i ffyrdd newydd o weithio a alluogir gan dechnoleg. Daeth gweithio o bell, ymgynghoriadau fideo a diagnosteg ar raddfa fawr fel profion COVID-19 yn norm yn gyflym, gydag ap COVID-19 y GIG wedi'i lawrlwytho dros 700,000 o weithiau erbyn mis Mawrth 2021.

Rhaid parhau â chyflymder y trawsnewidiad digidol hwn. Yn yr un modd, rhaid adeiladu ar y buddsoddiad a wnaed yn ddiweddar mewn seilwaith a gwasanaethau digidol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cadarnhau buddsoddiad cynyddol mewn trawsnewid digidol i £75m ar gyfer 2021-22, ochr yn ochr â sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chynnydd o £10m mewn cyllid craidd ar gyfer ein sefydliad gwasanaethau digidol cenedlaethol.

Er mwyn manteisio ar y trawsnewid gwasanaethau ac arferion arloesol sydd wedi dod i'r amlwg wrth ymateb i'r pandemig, cafodd astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid COVID-19 GIG Cymru ei chynnal ar draws Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru, gan ddangos themâu ac astudiaethau achos llwyddiannus a all alluogi, ehangu a chynnal ffyrdd arloesol a thrawsnewidiol o weithio.

Cynhyrchwyd astudiaeth o'r canfyddiadau gan Brifysgol Abertawe, a ariannwyd mewn partneriaeth gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac AaGIC.

Cyhoeddwyd adroddiad cryno ym mis Mawrth 2021 yn tynnu sylw at y prif themâu sy'n dod i'r amlwg:

- Adnodd staff hyblyg
- Lles staff
- Cydweithio
- Cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau
- Cynnal cyflymder arloesi
- Mynediad a hyder digidol
- Croesawu technoleg newydd

Cyhoeddwyd yr adroddiad llawn a'r astudiaethau achos ar 23 Mehefin 2021:

<https://www.nhsconfed.org/publications/gig-cymru-adroddiad-astudiaeth-arloesi-thrawsnewid-covid-19>

Goblygiadau ariannol – Bydd costau'r adferiad, er nad ydynt yn hysbys eto, yn sylweddol. Mae £100m wedi'i ymrwmo i gefnogi camau gweithredu ar unwaith mewn ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd yn *Edrych tua'r dyfodol*.

Argymhelliad 13/14

Dylai cynllun adfer GIG Llywodraeth Cymru gynnwys camau gweithredu ac adnoddau ar gyfer gwaith ymchwil pellach i COVID hir ac ar gyfer sicrhau bod gan bobl a chymunedau ledled Cymru fynediad cyson a theg at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar gyfer diagnosis, triniaeth, adferiad ac adsefydlu yn sgil COVID hir mewn amrywiaeth o leoliadau

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu drwy ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i sicrhau bod y cyhoedd yn deall yn llawn risgiau, effaith a goblygiadau hirdymor COVID hir, yn enwedig wrth i'r broses o gyflwyno'r brechlyn barhau ac wrth i'r cyfyngiadau symud ddechrau cael eu llacio.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith bosibl COVID hir ar unigolion, cymunedau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Cyfrannodd Cymru at y gwaith o ddatblygu canllawiau NICE a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2020 (<https://www.nice.org.uk/guidance/ng188>) ac mae'n cymryd rhan weithredol mewn astudiaethau ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol. Cyhoeddodd papur y Grŵp Cynghori Technegol 'COVID hir – beth ydyn ni'n ei wybod a beth sydd angen i ni ei wybod?' (<https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-covid-hir>) ym mis Chwefror.

Ysgrifennodd Dr Andrew Goodall at Brif Weithredwyr y GIG ar 22 Chwefror 2021 yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau yn Llwybr Cymunedol Cymru Gyfan ar gyfer COVID Hir. Ers hynny mae pob Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda phractisau meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol i roi llwybrau lleol ar waith, er mwyn sicrhau bod pobl â COVID hir yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, boed yn asesiad, ymchwiliad, triniaeth a chymorth adsefydlu aml-broffesiynol, mor agos â phosibl i'w cartrefi gan wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol. Mae pobl sydd angen gwasanaethau mwy

arbenigol nad ydynt ond ar gael gan wasanaethau mewn ysbytai yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau hynny, a gall meddygon teulu gael cyngor arbenigol gan ysbytai i helpu pobl yn y gymuned. Mae gwasanaethau'n seiliedig ar egwyddorion osgoi niwed, hyrwyddo a chefnogi hunanreoli, a gofal di-dor seiliedig ar werthoedd gan y gweithwyr iechyd proffesiynol neu'r gwasanaeth iechyd cywir, nail ai gartref neu mor agos â phosib i'r cartref. Efallai y bydd gan bobl sydd â COVID hir ystod eang iawn o symptomau ac anghenion felly bydd gofal, triniaeth ac adsefydlu yn unol â chanllaw clinigol NICE ac wedi'u teilwra i anghenion iechyd a lles penodol pob unigolyn.

Mae *Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych tua'r dyfodol* yn cyfeirio at effaith COVID hir ar rai pobl, boed yn gleifion neu'n staff ac yn cydnabod bod angen deall mwy am sut mae hyn yn effeithio ar bobl sy'n cael triniaeth, gofal a chymorth, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae *Edrych tua'r dyfodol* yn cydnabod yr angen i gefnogi'r gwaith o reoli COVID hir wrth i'r system iechyd a gofal cymdeithasol adeiladu eu cynlluniau at y dyfodol.

Mae GIG Cymru wedi datblygu grŵp Cymuned Ymarfer COVID Hir, sy'n cynnwys arweinwyr o bob bwrdd iechyd yn cydweithio i safoni gofal a rhannu gwybodaeth, dealltwriaeth a dysgu am y cyflwr newydd hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr ystod eang o symptomau a brofir gan bobl, sy'n golygu bod angen i ystod o arbenigedd proffesiynol fod ar gael, tra'n bod yn cadw nifer yr apwyntiadau ac asesiadau lluosog mor isel â phosibl. Er mwyn sicrhau cysondeb, mae canllawiau digidol Cymru gyfan ar gyfer trin COVID hir bellach ar gael i bobl gweithiwr iechyd proffesiynol, sy'n cynnwys tiwtorialau a chynghor ar sut i gefnogi cleifion, gan gynnwys dulliau atgyfeirio at wasanaethau lleol.

Mae proses gyfathrebu â gweithwyr iechyd proffesiynol ar y gweill hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl â COVID hir a'r llwybrau lleol i wasanaethau fel eu bod yn gallu cyfeirio pobl yn gyflym ac yn effeithiol at wasanaethau lleol pan fyddant yn mynd at unrhyw ddarparwr iechyd.

Datblygwyd canllawiau cefnogol eraill i gefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol i gefnogi'r rhai sydd wedi dioddef effeithiau gwael o ganlyniad i'r pandemig.

Gydol y pandemig, wrth i ni ddysgu mwy, rydym wedi addasu ein negeseuon i'r cyhoedd er mwyn cefnogi'r egwyddor sylfaenol allweddol 'Diogelu Cymru'. O'r herwydd, ac wedi llwyddiant y rhaglen frechu, byddem yn rhagweld y bydd angen i'n negeseuon i'r boblogaeth gynnwys y mathau eraill o niwed a all ddeillio o COVID 19.

Goblygiadau ariannol – bydd costau'r adferiad, er nad ydynt yn hysbys eto, yn sylweddol. Mae £100m wedi'i ymrwymo i gefnogi'r camau gweithredu uniongyrchol mewn ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd yn *Edrych tua'r dyfodol*. Cyhoeddwyd £5m er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau i'r rhai sydd â COVID hir ac eraill sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig. Bydd yr arian yn canolbwyntio ar ofal sylfaenol a chymunedol.

Argymhelliad 15.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei chynllun adfer GIG COVID-19 yn cynnwys pwyslais parhaus ar adnabod anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â hwy drwy ymyriadau wedi'u targedu a'u teilwra, cyhoeddi data tryloyw, cydweithio â rhanddeiliaid a chymunedau, a chyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol sy'n magu hyder y cyhoedd ledled Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae *Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych tua'r dyfodol* yn nodi effaith sylweddol COVID-19 ar gymdeithas ac ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n nodi dull realistig o ailgodi'r system iechyd a gofal yng Nghymru, gyda thegwch a chwarae teg wrth wraidd y cyfan.

<https://llyw.cymru/gwella-iechyd-gofal-cymdeithasol>

<https://gov.wales/improving-health-and-social-care>

Mae *Edrych tua'r dyfodol* yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau ac yn cynnwys pennod benodol ar effaith COVID-19 ac anghydraddoldebau iechyd. Mae COVID-19 wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd ac economaidd sy'n bodoli'n barod, ond mae hefyd wedi dyfnhau ein dealltwriaeth o'r materion hyn.

Mae COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru ond mae anghydraddoldebau i'w gweld ar draws cymunedau a grwpiau eraill hefyd. Ochr yn ochr ag ethnigrwydd, mae COVID-19 wedi cael mwy o effaith ar y rhai sy'n ordew ac yn dioddef problemau iechyd niferus. Mae *Edrych tua'r dyfodol* yn cydnabod bod mwy nag un salwch neu gyflwr yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth ar gyfer COVID-19. Roedd angen cymorth ychwanegol ar rai grwpiau, megis pobl a oedd yn cael eu gwarchod, sydd â mynediad anghyfartal at amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys iechyd a chymorth cymdeithasol. Hefyd, gwelwyd bod gordewdra yn ffactor cyson ymhlith y rhai a gafodd eu derbyn i'r ysbyty, eu cymryd i'r uned gofal dwys a marw.

Yn ystod yr 16 mis diwethaf, mae cyfraddau heintiau a throsglwyddo'r feirws wedi dangos bod rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig wedi dioddef yn anghymesur. Mae amodau tai gwaeth, gorlenwi, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, neu weithio mewn swyddi â chyflog is wedi golygu bod llawer o bobl wedi gweld a theimlo effaith COVID-19 yn bersonol.

Mae *Edrych tua'r dyfodol* yn pwysleisio pwysigrwydd ymchwil barhaus i ddeall beth yw'r ffactorau risg ar gyfer pobl agored i niwed a'r ffordd orau o leihau'r rhain, boed hynny drwy'r brechlyn, triniaeth neu ymyriadau lles. Rhaid lleihau'r gwahaniaethau mewn amodau byw sy'n cael effeithiau negyddol ar iechyd a lles pobl Cymru. Mae mynediad at dai diogel o ansawdd da yn bwysig, ac mae angen adeiladu ar y cymorth a gynigwyd i'r rhai sy'n ddigartref yn ystod COVID-19. Mae *Edrych tua'r dyfodol* yn ategu'r angen i ddarparu cymorth i rannau mwyaf bregus ac agored i niwed o'n cymdeithas wrth adfer ein system iechyd a gofal cymdeithasol.

Cafodd camau gweithredu *Cymru Iachach* eu hadolygu ym mis Mawrth 2021 i sicrhau bod ein cynllun hirdymor ar gyfer system iechyd a gofal integredig yn parhau'n berthnasol wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau.

Cyflwynwyd camau gweithredu newydd i ganolbwyntio ar anghydraddoldebau ym maes iechyd, iechyd meddwl, plant a phobl ifanc a datgarboneiddio er mwyn sicrhau bod y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn agored, yn dryloyw ac yn helpu pawb.

Goblygiadau ariannol – Bydd costau'r adferiad, er nad ydynt yn hysbys eto, yn sylweddol. Mae £100m wedi'i ymrwmo i gefnogi camau gweithredu ar unwaith mewn ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd yn *Edrych tua'r dyfodol*.

Argymhelliad 16.

Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd strategaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ac unrhyw gynllun gweithlu manwl dilynol yn sicrhau bod gan y gweithlu'r capasiti, y cydnherthedd a'r cymysgedd sgiliau priodol i ymateb i'r pandemig parhaus, a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei adfer a'i drawsnewid

Ymateb: Derbyn

Mae cynllunio, ymgysylltu a hyblygrwydd y gweithlu wedi bod o'r pwys mwyaf yn ystod y pandemig, ond pwysleisiodd hefyd mai'r gweithlu oedd y cyfyngiad allweddol a disgwylir i hyn barhau dros y cyfnod adfer. Bydd maint yr heriau a'r cyfleoedd i'r gweithlu yn effeithio ar bob maes o gynllunio a darparu gwasanaethau wrth i weithgarwch nad yw'n ymwneud â covid gynyddu'n raddol.

Bydd capasiti a chynllunio'r gweithlu yn parhau i fod yn ffocws sylweddol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar lefel leol a rhanbarthol. Yn genedlaethol, Cynllun Blynyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer 2021-22 fydd y cynllun cyflawni ar gyfer elfennau iechyd strategaeth y gweithlu.

Bydd galluogi staff i orffwys ac adfer, a'u gallu i helpu'r system i adfer wrth barhau i gyflwyno'r rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu a'r rhaglen frechu dorfol, yn hollbwysig i'n llwyddiant.

Goblygiadau ariannol – dim ychwanegol

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb
a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Equality and Social Justice
Committee**

Senedd Cymru
Item 4.7
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

At Gadeiryddion:

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau
Rhyngwladol; Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Y
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Y Pwyllgor
Cyllid; Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Y Pwyllgor
Deisebau; Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

10 Awst 2021

Annwyl Gadeiryddion,

Cydweithio rhwng pwyllgorau yn ystod y Chweched Senedd

Fel pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar bob agwedd ar gydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae ein cylch gorchwyl eang yn cynnwys nifer o faterion trawsbynciol pwysig sydd o ddiddordeb i'ch pwyllgor chi ac sy'n cynnig cyfleoedd posibl i gydweithio.

Ar ran y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, hoffwn eich gwahodd i drafod y cyfleoedd hyn i gydweithio fel rhan o unrhyw drafodaethau rydych yn eu cael ar gynlluniau strategol eich pwyllgor yn nhymor yr hydref. Os oes gan eich pwyllgor unrhyw syniadau ar gyfer gwaith ar y cyd yr hoffech eu trafod, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm clericio.

Byddaf yn anfon llythyr tebyg at Gadeiryddion pwyllgorau eraill y Senedd.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Our Ref: AH/SMM

11 August 2021

Jenny Rathbone MS
Chair
Equality and Social Justice Committee

Dear Jenny

I recently met with RNIB Cymru (Royal National Institute of Blind People) and was interested to learn more about the challenges that people with sight loss face daily in Wales.

Since the pandemic, blind and partially sighted people have faced additional challenges, some exacerbated by the necessitated changes and restrictions. For example, social distancing is by definition more difficult – if not impossible – for those who cannot use vision to judge distance.

I understand that there have been and continue to be issues with the accessibility of public health information. For example, letters inviting individuals for a vaccine, have not routinely been available in accessible formats. Information available and guidance at vaccine centres has not been accessible and we have heard of the particularly poor experiences of some individuals with sight loss going to receive their vaccine. I feel this is a matter of equality. Blind and partially sighted members of our community should have equal access to care.

In eye care, we know that the pandemic has meant a huge backlog of appointments across all eye conditions. However, even before coronavirus, people were losing sight because of the phenomenal waiting times. In January 2021, of the highest risk category patients, 57.3 per cent – **nearly two thirds of the waiting list** – were beyond target and therefore listed as being at risk of irreversible harm or significant adverse outcome.

WELSH PARLIAMENT

Cardiff Bay, Cardiff
CF99 1SN

REGIONAL OFFICE

80 High Street, Gorseinon,
Swansea SA4 4BL

SENEDD CYMRU

Bae Caerdydd, Caerdydd
CF99 1SN

SWYDDFA RANBARTHOL

80 Stryd Fawr, Abertawe
Abertawe SA4 4BL

t: 0300 200 7259

e: altaf.hussain@senedd.wales

 [altafhussainsww](https://twitter.com/altafhussainsww)

Tudalen y pecyn 124



Ceidwadwyr
Cymreig





The Welsh Government introduced Eye Care Measures in 2018 to support Health Boards to prioritise patients based on their clinical needs. As the first country in the UK to have dedicated targets for eye care, these should be welcomed, but what we have now is stark evidence as to the scale of the problem being faced. No one should lose their sight because of needless waits for treatment.

Given the disproportionate impact that this community continues to feel, I would be keen to bring the challenges to the attention of the Committee.

Yours sincerely

Altaf

Dr Altaf Hussain
Shadow Minister for Equalities

WELSH PARLIAMENT

Cardiff Bay, Cardiff
CF99 1SN

REGIONAL OFFICE

80 High Street, Gorseinon,
Swansea SA4 4BL

SENEDD CYMRU

Bae Caerdydd, Caerdydd
CF99 1SN

SWYDDFA RANBARTHOL

80 Stryd Fawr, Gorseinon,
Abertawe SA4 4BL

t: 0300 200 7259

e: altaf.hussain@senedd.wales

altafhussainsww

Tudalen y 125



Ceidwadwyr
Cymreig



**Equality and Social Justice
Committee**

Altaf Hussain AS

11 Awst 2021

Annwyl Altaf

Eich cyfarfod ag RNIB Cymru

Diolch yn fawr iawn am roi gwybod imi am eich trafodaeth ddiweddar gydag RNIB.

Mae'n frawychus bod 57 y cant o'r bobl sy'n aros am apwyntiad llygaid bellach yn cael eu hystyried fel rhai sydd mewn perygl o golli eu golwg yn sgil yr amser y maent wedi bod yn aros am driniaeth. Mae'n debyg mai'r Pwyllgor Iechyd fyddai'r Pwyllgor gorau i wneud gwaith dilynol ar y mater hwn. Mae hyn oherwydd bod y mater, i raddau helaeth, yn ymwneud ag effeithlonrwydd y broses brysbennu ar gyfer cleifion llygaid, i ba raddau y maent yn cael eu cyfeirio'n briodol at yr ystod lawn o glinigwyr llygaid, ac i ba raddau y mae delweddau TG sy'n cael eu creu gan optometryddion ar y stryd fawr yn cael eu defnyddio er mwyn tynnu sylw at y bobl y mae angen eu gweld ar frys. Felly, byddaf yn anfon copi o'ch llythyr at Russell George, sef Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd.

Mae'r holl faterion eraill yn faterion cydraddoldeb pwysig y gallwn eu trafod yn ystod ein cyfarfod strategaeth nesaf ym mis Medi.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Copi at: Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/EM/1562/21

Russel George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

27 Awst 2021

Annwyl Russell,

ADRODDIAD Y PWYLLGOR IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A CHWARAEON AR Y DDARPARIAETH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL AR YR YSTÂD CARCHARDAI I OEDOLION YNG NGHYMRU

Gweler ein hymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Pwyllgor blaenorol y Senedd, 'Darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru'. Gan fod y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn aelod o'r pwyllgor ar y pryd, mae wedi nodi'r ymateb er gwybodaeth y tro hwn, er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

Mae'r ddogfen amgaaedig yn nodi ein hymatebion i bob argymhelliad.

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau
Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I DDARPARIAETH
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YN YR YSTAD CARCHARDAI I
OEDOLION YNG NGHYMRU**

AWST 2021

Argymhelliad 1

Dylai pwyllgor y Chweched Senedd sydd â chyfrifoldeb am iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystâd carchardai oedolion yng Nghymru geisio cael ymateb i'n hargymhellion gan Lywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd, monitro pa gynnydd sy'n cael ei wneud, a chynnwys gwaith dilynol ar y materion hyn ar adeg briodol yn ei raglen waith.

Ymateb: Amherthnasol i Lywodraeth Cymru

Mater i'w ystyried gan Bwyllgor y Chweched Senedd yw hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mater i Bwyllgor y Senedd yw hwn.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o wybodaeth am aelodaeth a rhaglen waith y Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai (PHSCOG), ac ymrwmo i gyhoeddi agendâu a chofnodion y PHSCOG o hyn ymlaen.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai (PHSCOG), yn unol â'r hyn a nodir yn yr argymhelliad. Bydd y wybodaeth yn cael ei darparu ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2021 a bydd yr agendâu a'r cofnodion cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar yr adeg briodol ar ôl pob cyfarfod.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) i sicrhau bod gwaith Bwrdd Diwedd Contract Parc yn cynnwys datblygu trefniadau arolygu cadarn sy'n gyson â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer carchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi cael sicrwydd bod Bwrdd Diwedd Contract Parc yn cynnwys datblygu trefniadau arolygu cadarn sy'n gyson â charchardai eraill yn y sector cyhoeddus. Mae'r carchar a'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ailsefydlu Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Carchar, ac os oes angen, bydd modd uwchgyfeirio materion na ellir eu datrys yn lleol yn unol â charchardai eraill i'r Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu'n barhaus â Bwrdd Diwedd Contract Parc yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfrwng deddfwriaethol addas cyntaf i gyflwyno gwelliannau i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 i gynnwys yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn y rhestr o gyrff y gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gydweithredu â nhw mewn ymchwiliad.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y mater hwn ymhellach gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn archwilio goblygiadau diwygio deddfwriaethol i ehangu cylch gwaith yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ac ar gyfer y cydweithrediad ymchwiliol ychwanegol.

Goblygiadau Ariannol - Ymdrinnir â goblygiadau ariannol y gwaith hwn fel rhan o'r trafodaethau gyda HMPPS a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ymestyn rôl yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i'w alluogi i gwestiynu barn

broffesiynol a chlinigol wrth arfer ei swyddogaeth o ymchwilio i gwynion am wasanaethau iechyd mewn carchardai preifat yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y mater hwn ymhellach gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i weld a oes unrhyw hyblygrwydd deddfwriaethol i ehangu cylch gwaith yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ar gyfer yr ymchwiliad clinigol ychwanegol.

Goblygiadau Ariannol - Ymdrinnir â goblygiadau ariannol y gwaith hwn fel rhan o'r trafodaethau gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid trwy'r PHSCOG, gyhoeddi asesiad blynyddol o i ba raddau y cyflawnir nod y cytundeb Partneriaeth y dylai carcharorion allu cael gwasanaethau iechyd o safon gyfwerth i'r rhai sydd ar gael yn y gymuned.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn gan nodi y bydd yn monitro cynnydd trwy'r pedair ffrwd waith o dan y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer lechyd Carchardai. Bydd hyn yn sefydlu safonau ar gyfer gofal iechyd troseddwr y gellir eu cymharu ar draws carchardai ac â'r gymuned. Cyflwynir adroddiad i'r Bwrdd Goruchwyllo a chyhoeddir cofnodion perthnasol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o fanylion am sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau cyfiawnder a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar ddyddiadau rhyddhau a chynlluniau rhyddhau carcharorion, gan gynnwys pa rolau y gallai'r PHSCOG ac Awdurdod Iechyd Arbennig GIG Cymru yn y maes Digidol chwarae yn y gwaith hwn.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru i gyhoeddi canllawiau penodol i gefnogi prosesau rhyddhau carcharorion yn ystod y pandemig. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru ym meysydd tai, fferylliaeth, iechyd meddwl, Covid-19, camddefnyddio sylweddau a gofal sylfaenol wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau. Yn ystod y pandemig, gwelwyd gwelliannau sylweddol yn y maes hwn a byddwn yn ceisio ymgorffori'r rhain wrth symud ymlaen.

Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfer carcharorion sydd wedi cael prawf positif am Covid-19 neu sy'n arddangos symptomau wrth gael eu rhyddhau. Roedd y canllawiau hyn yn helpu i sicrhau bod y gwaith o ddarparu cymorth llety, gofal a thrafnidiaeth yn cael ei gydlynu a'i fod yn addas ar gyfer unigolion sy'n gadael y carchar â diagnosis o Covid-19 neu sy'n arddangos symptomau cyn cael eu rhyddhau. Cyhoeddwyd y canllawiau am y tro cyntaf ar 28 Ebrill 2020 cyn cael eu diweddarau yn Hydref 2020 i adlewyrchu diweddariadau i'r broses o gadw carcharorion yn y ddalfa.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i archwilio dewisiadau ar gyfer defnyddio systemau TG i wella'r broses o rannu gwybodaeth yn y cyswllt hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ba ystyriaeth a roddwyd i fabwysiadu yng ngharchardai Cymru y dull gweithredu a ddefnyddir yn Lloegr i sicrhau bod cofnodion meddygol carcharorion cyn iddynt fynd i'r carchar ar gael i wasanaethau iechyd y carchar.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r dull gweithredu yn Lloegr ac yn sefydlu gweithgor i ystyried mabwysiadu hyn yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol - Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adolygiad o'r gwaith yn Lloegr a sut y gellid mabwysiadu unrhyw d dull gweithredu yng Nghymru.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu dangosydd perfformiad cenedlaethol ar gyfer mynychu apwyntiadau gofal iechyd, a dylai weithio gyda'i phartneriaid trwy'r PHSCOG i hwyluso rhannu dysgu ac arferion gorau mewn perthynas â'r rhesymau dros golli apwyntiadau a mesurau y gellir eu cymryd i sicrhau bod pob carcharor yn gallu cael y gwasanaethau iechyd sydd eu hangen arno yn amserol.

Ymateb: Derbyn

Bydd dangosydd perfformiad cenedlaethol yn cael ei ddatblygu a bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i adolygu'r argymhelliad hwn. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gasglu data cyson yn y maes hwn a rhannu arferion gorau. Hefyd, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu rhannu i'w trafod yn y Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Fodd bynnag, ymdrinnir â goblygiadau ariannol ar gyfer datblygu'r dangosydd fel rhan o'r trafodaethau oddi mewn i'r gweithgor.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth yn y cytundeb Partneriaeth mewn perthynas ag iechyd meddwl yn cael ei fonitro, gan gynnwys sut y bydd cyfraniad y safonau cenedlaethol newydd yn cael ei asesu ac a yw'r dull 'safon genedlaethol' yn cynnig unrhyw ddysgu ar gyfer mynd ati i ddarparu gofal iechyd neu gymdeithasol arall yn yr ystad ddiogeled yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o gynlluniau i gyflwyno safonau iechyd meddwl newydd yn y carchardai, bydd pwyslais parhaus ar ganlyniadau. Y bwriad yw cyflwyno'r safonau newydd dros gyfnod o 12 mis, gan ddechrau yn 2022. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn adolygu cynnydd y safonau newydd i ddarparu gofal a thriniaeth i ddynion sydd yn y carchar. Er mwyn cefnogi cyfatebiaeth, lle y bo'n briodol, bydd yn bwysig defnyddio'r un dangosyddion ag sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r set ddata Craidd Iechyd Meddwl i fonitro mynediad at wasanaethau a chanlyniadau iechyd meddwl yn y carchardai.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Yn ogystal, mae gwaith i ddatblygu'r safonau yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, o dan gontract i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at bwylgor y Chweched Senedd sy'n gyfrifol am ofal iechyd carchardai i ddarparu manylion y strategaeth ar gyfer cleifion mewnol diogel a ddatblygwyd o dan y fersiwn ddiwygiedig o Law yn Llaw at lechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni, amlinellu unrhyw welyau diogel ychwanegol a fydd yn cael eu darparu o ganlyniad, ac esbonio sut y bydd yr effaith ddilynol ar amseroedd aros yn cael ei monitro.

Ymateb: Derbyn

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio ac ailgyhoeddi Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at lechyd Meddwl mewn ymateb i effaith COVID-19. Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cleifion mewnol diogel ac ymrwymiad i ddatblygu strategaeth ar gyfer cleifion mewnol diogel yng Nghymru. Rhagwelir y bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau ac yn gwneud argymhellion yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol diogel (oedolion a phlant a phobl ifanc) erbyn mis Hydref 2021.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlenni arfaethedig ar gyfer datblygu'r llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai, gan gynnwys sut y bydd y dull arfaethedig o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn cael ei adolygu i sicrhau nad yw'n cael ei oedi'n ormodol gan y cyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn sgil y pandemig COVID-19.

Ymateb: Derbyn

Yn unol â Chynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 Llywodraeth Cymru, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gomisiynu i baratoi drafft diwygiedig o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau (SMTF) - "Trin Troseddwyr" i Lywodraeth Cymru. Bydd y fersiwn ddrafft o SMTF yn cael ei hystyried yn ystod digwyddiadau ymgysylltu Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru.

Bydd y digwyddiadau hyn yn ailddechrau ar ôl cael eu gohirio oherwydd COVID-19. Aed ati i ymgysylltu â'r holl rolau carchar a chymunedol perthnasol drwy weithdai rhithwir yn ystod Cam 1 ym mis Mai/Mehefin 2021. Canolbwyntiwyd ar ddisgrifio'r llwybr rheoli clinigol a nodi rhwystrau ac atebion i gamau gweithredu effeithiol a theg.

Mae canfyddiadau Cam 1 yn cael eu coladu a'u rhannu â'r grŵp gorchwyl a gorffen sy'n goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith. Bydd gweithdai Cam 2 yn cynnwys ymgysylltiad ar draws lleoliadau/disgyblaethau/rolau i fynd i'r afael â materion gweithredu ledled yr ystad carchardai. Hefyd, byddant yn ymdrin â materion yn ymwneud â pharhad gofal, rheoli gwybodaeth a monitro a gwerthuso parhaus. Cynhelir gweithdai Cam 2 yn ystod mis Medi/Hydref 2021. Y nod yw darparu drafft terfynol o'r SMTF i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan y Gweinidog erbyn mis Rhagfyr 2021.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Yn ogystal, mae gwaith i ddatblygu'r safonau yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan lechyd Cyhoeddus Cymru, o dan gontract i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar flaenoriaethau a chynllun gwaith diwygiedig y grŵp i fynd at wraidd y mater, gan gynnwys sut yr eir ati i fonitro cynnydd o ran dileu rhwystrau sy'n wynebu carcharorion a chyn-droseddwyr sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, sy'n ceisio cael gafael ar gymorth yn y carchar neu ar ôl cael eu rhyddhau.

Ymateb - Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r Grŵp At Wraidd y Mater Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl wrthi'n diweddarau ei gynllun gwaith, sy'n canolbwyntio ar sicrhau mynediad at wasanaethau yn y gymuned i bob unigolyn, gan gynnwys cyn-droseddwyr. Byddwn yn darparu diweddariad ar waith y grŵp i'r Pwyllgor erbyn mis Mawrth 2022, gan gynnwys y trefniadau monitro. Prif ffocws y grŵp hwn yw dileu rhwystrau i fynediad at wasanaethau integredig, cofleidiol ar gyfer pob grŵp yn y gymuned, gan gynnwys cyn-droseddwyr, er na fyddant yn wasanaethau i gyn-droseddwyr yn benodol.

Yn ogystal, mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau - "Trin Troseddwyr" yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â charcharorion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at bwyllgor y Chweched Senedd sydd â chyfrifoldeb am ofal iechyd carchardai i roi diweddariad ar drafodaethau gyda HMPPS ynghylch buddion posibl sefydlu Grŵp Cyngtori Arbenigol ar gyfer Meddyginiaethau.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn fel rhan o ffrwd waith Rheoli Meddyginiaethau Cytundeb Partneriaeth Llywodraeth Cymru/HMPPS, sy'n creu safonau cyson ar gyfer rhagnodi ym mhob carchar ac a fydd yn cael ei llywio gan Gynghorwyr Arbenigol ar gyfer Meddyginiaethau.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Yn ogystal, mae gwaith i ddatblygu'r safonau yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, o dan gontract i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu llwybr dementia ar gyfer carcharorion yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys cyflwyno, fel mater o frys, sgrinio a diagnosis cynnar ar gyfer dementia yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ynghyd â threfniadau i sicrhau bod pobl sy'n cael diagnosis dementia yn derbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Ymateb: Derbyn

Mae'r safonau iechyd meddwl ar gyfer y carchar yn cynnwys pwyslais penodol ar ddementia. Mae'r safonau ar gyfer cymorth dementia yn y carchardai yn adlewyrchu'r safonau dementia ar gyfer y gymuned a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

<https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/newyddion-a-chyhoeddiadau/chyhoeddiadau/safonau-dementia/>

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Yn ogystal, mae gwaith i ddatblygu'r safonau yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, o dan gontract i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid o fewn ffrwd waith iechyd Bwrdd Diwedd Contract Parc i sicrhau bod y fanyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn CEM Parc yn cynnwys sgrinio a diagnosis cynnar ar gyfer dementia, a threfniadau i sicrhau bod pobl sy'n cael diagnosis dementia yn derbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Fanyleb Iechyd ar gyfer Carchar EM y Parc yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gan HMPPS yng Nghymru mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'n cynnwys pwyslais penodol ar anghenion dynion hŷn yn y carchar a'r angen am lwybr dementia.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â Bwrdd Diwedd Contract Parc yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid trwy'r PHSCOG i ddatblygu a gweithredu hyfforddiant ar gyfer staff carchardai - gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - ar gefnogi carcharorion hŷn a charcharorion â dementia.

Ymateb: Derbyn

Cafodd cynlluniau i ddarparu hyfforddiant dementia ar gyfer staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a HMPPS eu gohirio oherwydd y pandemig. Mae hyn yn flaenoriaeth yn y Cynllun Adfer a ddrafftwyd ar gyfer carchardai yng Nghymru. Hefyd, mae'n un o ymrwymadau Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag aelodau o Is-grŵp Dysgu a Datblygu'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym

maes Dementia (DOIIG) er mwyn bwrw ymlaen â'r ymrwymiad pwysig hwn ar drothwy cyfnod adfer ar gyfer y carchardai.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Bydd trafodaethau ag Is-grŵp Dysgu a Datblygu'r DOIIG yn canfod rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r hyfforddiant hwn.

Argymhelliad 18

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd blaenoriaethau cenedlaethol cytunedig PHSCOG ar gyfer carcharorion hŷn yn cael eu hintegreiddio i'r blaenoriaethau a nodir yn y cytundeb Partneriaeth, pa gamau a gymerir i'w gweithredu, a sut y bydd unrhyw welliannau i'r dull o ddiwallu anghenion carcharorion hŷn yn cael eu monitro a'u hasesu.

Ymateb: Derbyn

Fel y nododd y Pwyllgor, mae gan bobl sy'n cael eu cadw yn yr ystad ddiogel yr un hawliau â phobl yn y gymuned allanol. O ganlyniad, mae angen arweinyddiaeth gan yr holl bartneriaid yng Nghymru i sicrhau'r hawliau hynny. Mae'r PHSCOG yn darparu gweithgareddau ffrwd waith fel Amgylchedd y Carchar a datblygu'r Llwybr Dementia. Bydd hyn yn galluogi carcharorion a'r gweithlu i nodi cyfleoedd a mynd i'r afael â'r heriau sy'n cael effaith benodol ar garcharorion hŷn fel rhan o ddull gweithredu cydlynol ac integredig gan y carchar cyfan.

Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain, hwyluso a grymuso partneriaid i ymgorffori'r hawliau hyn drwy weithgareddau cynllunio, comisiynu a chyflawni ar bob lefel. Mae Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai yn darparu amgylchedd traws-sector i nodi rhwystrau a datblygu a rhannu atebion sy'n gwella canlyniadau i garcharorion ledled yr ystad ddiogel yng Nghymru. Bydd y PHSCOG yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth a chymorth fel bod Partneriaethau yn gallu rhoi eu blaenoriaethau ar waith.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 19

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid trwy'r PHSCOG i flaenoriaethu gweithgareddau yn y ffrwd waith amgylchedd y carchar yn unol â'u brys a'u pwysigrwydd priodol. Dylai hyn gynnwys nodi unrhyw

welliannau cyflym neu ddysgu sy'n deillio o newidiadau i amgylcheddau neu gyfundrefnau carchardai yn ystod y pandemig, a sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen wrth weithredu gwelliannau a allai effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant carcharorion.

Ymateb: Derbyn

Yng nghyd-destun Cytundeb Partneriaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a HMPPS, mae gwaith i wella ffrwd waith Amgylchedd y Carchar yn parhau o dan arweiniad HMPPS. Bydd ymateb y carchar i'r pandemig yn cael ei gynnwys fel dysgu allweddol, a byddwn yn nodi pa newidiadau a gyflwynwyd a pha arferion newydd rydym am eu cadw a'u hehangu. Mae'r blaengynllun ar gyfer y ffrwd waith hon yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau sy'n cael yr effaith fwyaf yn cael eu rhoi ar waith i ddechrau. Mae diweddariadau ar gynnydd o dan y ffrwd waith hon yn cael eu cyflwyno i PHSCOG.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 20

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y cyd-strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 yn mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw mewn perthynas â gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol carchardai.

Ymateb: Derbyn

Mae strategaeth gweithlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, a lansiwyd ym mis Hydref 2020, yn sefydlu proses trawsnewid y gweithlu ledled y system ac yn sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu ar gyfer y dyfodol. Bydd cyrhaeddiad gwaith datblygu'r gweithlu o fewn y strategaeth yn ymestyn i staff cyflogedig byrddau iechyd sy'n darparu gofal iechyd mewn carchardai.

Caiff gwaith datblygu pellach ei lywio gan ganlyniadau ein hymgyngoriad diweddar ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gwaith partneriaeth. Llwyddodd yr ymgynghoriad hwn i atgyfnerthu sut mae parhad y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar y canlyniadau llesiant y mae pobl yn eu sicrhau.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 21

Dylai Llywodraeth Cymru ddod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar sefydlu llinell sylfaen deg, ddigonol a chynaliadwy ar gyfer cyllid trwy Floc Cymru o'r ddarpariaeth gofal iechyd yn y carchardai sector cyhoeddus lle mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd. Dylai gael ei hategu gan asesiadau trylwyr sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r anghenion gofal iechyd yn y carchardai hyn, a dylai gynnwys mecanwaith uwchraddio sy'n ddigon hyblyg i ystyried chwyddiant, rhagolygon o boblogaeth carchardai, ac unrhyw newidiadau mewn anghenion gofal iechyd.

Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhelliad hwn yn fanylach ac yn gweithio gyda HMPPS gyda'r nod o gryfhau asesiadau o anghenion gofal iechyd mewn carchardai. Ar ôl gwneud hyn, rhoddir ystyriaeth i sut i adrodd yn ôl yn effeithiol i Lywodraeth y DU (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) er mwyn cefnogi trafodaethau ariannu yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Bydd y costau gweithredu yn dibynnu ar drafodaethau â Llywodraeth y DU.

Argymhelliad 22

Waeth sut mae gofal iechyd ym mhob carchar yng Nghymru yn cael ei ariannu, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol trwy'r PHSCOG i goladu, adolygu a chyhoeddi gwybodaeth am gostau darparu gofal iechyd ar draws pob un o'r chwe carchar yng Nghymru, ac i hwyluso meincnodi a rhannu arferion gorau.

Ymateb: Derbyn

Yn dilyn sesiwn y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Ionawr 2020 (a fynychwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Byrddau Iechyd perthnasol ynglŷn â chyllid ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a gofal eilaidd yn ystad y carchardai. Gofynnwyd am wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd yn y carchardai, sy'n cael eu hysgwyddo gan y Byrddau Iechyd (gan gynnwys costau cyfalaf, refeniw a chostau staffio blynyddol ar gyfer darparu gofal iechyd). Fodd bynnag, gohiriwyd y broses o gasglu'r wybodaeth sylfaenol hon oherwydd y pandemig. Byddwn yn gofyn am ddiweddariad gan y Byrddau Iechyd perthnasol ar y mater hwn erbyn diwedd mis Tachwedd 2021 eleni.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 23

Dylai Llywodraeth Cymru fonitro lefel y galw, y ddarpariaeth a'r gwariant mewn perthynas â darpariaeth gofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru, a dylai roi sicrwydd i'n pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd nad yw'r model cyllido na lefel gyffredinol y cyllid yn atal pobl sy'n cael eu cadw yng ngharchardai Cymru rhag cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae gan bob carcharor yr un hawliau â phobl yn y gymuned i gael asesiad o'i anghenion am ofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, a'r hawl i sicrhau bod ei anghenion cymwys yn cael eu diwallu. Mae Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai yn darparu gwaith craffu ac atebolrwydd traws-sectorau i sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu sicrhau. Byddwn yn ystyried sut y gellir adlewyrchu'r rolau a'r canlyniadau hyn a'u cysoni â'r sicrwydd a roddir fel rhan o'r trefniadau o dan argymhelliad 6 ac argymhellion tebyg a wnaed gan y Pwllgor.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 24

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlenni disgwylidig ar gyfer ailddechrau'r gwaith ar ddatblygu set o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, nodi erbyn pryd y mae'n disgwyl i'r dangosyddion fod ar waith, a sut a phryd y bydd perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn cael ei adrodd a'i gyhoeddi.

Ymateb: Derbyn

Roedd gwaith i ddatblygu set o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol wedi'i ohirio gan fod angen newid blaenoriaethau yn ystod yr ymateb i'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailddechrau'r darn allweddol hwn o waith bellach, a bydd yn creu set o ddangosyddion drafft dros y deuddeg mis nesaf. Yn dilyn hyn, bydd perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn cael ei adrodd a'i gyhoeddi bob 12 mis.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 25

Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid trwy'r PHSCOG, nodi, datblygu a chyhoeddi'n rheolaidd setiau data penodol i Gymru mewn perthynas â'r boblogaeth carchardai gyfredol a'r boblogaeth carchardai a ragwelir.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

HMPPS a ddylai ystyried ai bwrw ymlaen ag ef gan ei fod yn ymwneud â phoblogaeth carchardai.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â HMPPS yng Nghymru sydd wedi cytuno i ailsefydlu gweithgor i nodi'r bylchau data presennol a datblygu dulliau o ddefnyddio'r data hwn yn gyson ar gyfer holl Garchardai Cymru a chyhoeddi'r setiau data yn rheolaidd. Bydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu gwahodd i fod yn aelodau allweddol o'r grŵp hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mater i HMPPS yw hwn.

Argymhelliad 26

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn ei dangosfwrdd COVID19 wybodaeth am nifer yr achosion a marwolaethau COVID-19 ymhlith carcharorion a gedwir yng Nghymru, a nifer y brechiadau COVID-19 sydd wedi eu cynnig a'u derbyn ymhlith y boblogaeth carchardai.

Ymateb: Derbyn

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei monitro a'i chadw gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i ystyried a ellir cynnwys y wybodaeth hon yn ystadegau Dangosfwrdd Covid Llywodraeth Cymru, a sut i wneud hynny.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Argymhelliad 27

Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid trwy'r PHSCOG, ystyried yr hyn y gellid ei ddysgu o ffyrdd o weithio a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys cyfraniad posibl technoleg ddigidol a thechnoleg o bell at wella mynediad carcharorion at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ymateb: Derbyn

Mae camau amrywiol wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo'r broses o ddefnyddio meddalwedd ymgynghori o bell Attend Anywhere yng ngharchardai Cymru, defnyddio Consultant Connect, a darparu mynediad at Linell Wrando a Chymorth (C.A.L.L) Llinell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru ym mhob carchar yng Nghymru a diwygio gwasanaethau fferylliaeth i'w darparu'n ddiogel yn ystod y pandemig. Yn ogystal, cyflwynwyd y defnydd o byprenorphine i'w chwistrellu fel rhan o waith cynllunio 'Trwy'r Giât' ar gyfer y rhai â dibyniaeth opioid. Rhoddir ystyriaeth i sicrhau bod meysydd arferion gorau yn cael eu mabwysiadu lle bo hynny'n briodol.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

Llywydd

Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

16 Awst 2021

Annwyl Lywydd

Amserlen pwyllgor y Chweched Senedd

Diolch am eich llythyr ar 14 Gorffennaf 2021 ynghylch amserlen pwyllgor y Chweched Senedd. Gan fod y Pwyllgor Busnes yn bwriadu adolygu'r amserlen yn barhaus, rwy'n ysgrifennu i amlinellu barn gychwynnol aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Byddwn, wrth gwrs, yn fwy na pharod i ddarparu adborth pellach maes o law i lywio adolygiad y Pwyllgor Busnes.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Jayne Bryant AS.

Slotiau cyfarfod bob pythefnos ac 'wythnosau gwarchoddedig'

Rydym yn bwriadu neilltuo peth amser yn gynnar yn yr hydref i ddatblygu ymagwedd strategol tuag at ein cylch gwaith; bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y byddwn yn blaenoriaethu'r amser cyfarfod ffurfiol sydd ar gael inni. Serch hynny, mae gennym rai pryderon cychwynnol ynghylch effaith bosibl yr amserlen ar ein gallu i drefnu ein gwaith yn hyblyg, i symud yn gyflym, ac i weithio'n ystwyth i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg neu ymgymryd â gweithgarwch sy'n hanfodol o ran amser.

Er enghraifft, nodwn fod y cyfuniad o gyfarfodydd bob pythefnos ac wythnosau gwarchoddedig yn golygu y bydd gennym lawer llai o gyfarfodydd a llai o gyfanswm amser cyfarfod nag y byddai ein pwyllgor blaenorol wedi'i gael yn amserlen pwyllgor 1.5 cyfarfod bob pythefnos y Bumed Senedd cyn y pandemig. Yn yr un modd, er y bydd cyfanswm yr amser cyfarfod sydd ar gael inni yn debyg yn fras i'r amser a oedd ar gael i'r pwyllgor blaenorol o fewn amserlen y pandemig, gall symud i gyfarfodydd bob pythefnos gyfyngu ar hyblygrwydd ein rhaglen waith, ein gallu i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg, a'r potensial i ddarparu ar gyfer argaeledd rhanddeiliaid heb amharu ar gyflymder ein gwaith na thrylwyredd ein gwaith o gasglu tystiolaeth a chraffu.

Cyfarfodydd drwy'r dydd

Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynrychioli etholaethau neu ranbarthau yng ngogledd Cymru neu ganolbarth a gorllewin Cymru. Yn ein cyfarfod cyntaf, buom yn trafod rhai o'r materion ymarferol sy'n codi o ddyrannu slotiau cyfarfod drwy'r dydd, gan gynnwys materion posibl o ran blinder a llesiant sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd rhithwir neu hybrid hir, a'r amser teithio sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd hybrid neu gorfforol ar gyfer Aelodau sy'n cynrychioli etholaethau a rhanbarthau gryn bellter o Fae Caerdydd.

Er ein bod yn bwriadu bod yn hyblyg yn ein hamseroedd cyfarfod yn unol â gofynion busnes y Pwyllgor, nid ydym yn credu y bydd yn ymarferol cwrdd yn rheolaidd y tu hwnt i 15.00 ar brynhawn dydd Iau.

Potensial i ofyn am slotiau cyfarfod ffurfiol ychwanegol

Rydym yn croesawu'r awgrym bod y Pwyllgor Busnes yn bwriadu edrych yn ffafriol ar geisiadau gan bwyllgorau am slotiau cyfarfod ffurfiol ychwanegol i ddarparu ar gyfer cyfnodau prysur o ran llwythi gwaith neu dasgau newydd. Rydym o'r farn y byddai hyn yn briodol i ddarparu ar gyfer gwaith mewn perthynas â'r amserlenni neu waith cwblhau lle mae gan bwyllgorau ddisgresiwn cyfyngedig, er enghraifft gwrandawiaidau cyn penodi neu atgyfeiriadau gan y Pwyllgor Busnes o Filiau neu Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Nodwn hefyd fod gennym hyblygrwydd, yn amodol ar argaeledd Aelodau ac adnoddau'r Comisiwn, i ymgymryd â gweithgarwch anffurfiol y tu allan i'r amserlen ffurfiol; er na fyddai'n briodol nac yn dryloyw i'r holl weithgarwch a fyddai fel arall yn digwydd mewn cyfarfodydd ffurfiol gael ei gynnal yn anffurfiol.

At hynny, nodwn fod cwrdd cyfyngedig yn yr amserlen wythnosol i drefnu gweithgarwch ychwanegol o'r fath ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiaid eraill yr Aelodau o ran pwyllgorau, y Comisiwn a'r Cyfarfod Llawn, a'r angen i sicrhau bod amser ar gael i baratoi ar gyfer busnes ffurfiol ac ar gyfer cyfrifoldebau pwysig eraill yr Aelodau. Er enghraifft, nodwn gyda phryder arbennig y cynnig y dylai dydd Gwener - sydd wedi'i gadw'n draddodiadol ar gyfer ymrwymiaid etholaethol a rhanbarthol yr Aelodau - ddod yn rhan o amserlen fusnes ffurfiol y Senedd fel mater o drefn i ddarparu ar gyfer gwaith craffu deddfwriaethol.

Rhannu slot cyfarfod gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Rydym yn croesawu'r cyfleoedd posibl y mae rhannu slot cyfarfod â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn eu darparu o ran gweithio ar y cyd ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Fodd bynnag, er y bydd y ddau bwyllgor yn ceisio osgoi, lle bo modd, gosod galwadau croes ar ein rhanddeiliaid a rennir, gall yr anhyblygrwydd cynyddol yn ein rhaglenni gwaith o ganlyniad i'r amserlen bob pythefnos wneud hyn yn fwy anodd.


Rydym yn rhagweld y gall y slot cyfarfod a rennir gael effaith arbennig ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dau Ddirprwy Weinidog, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur megis



y gwaith craffu blynyddol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Gweinidogion yn atebol i'r ddau bwyllgor, a byddwn yn disgwyl iddynt ystyried cyfyngiadau amserlen y pwyllgor, i fod yn hyblyg wrth dderbyn ceisiadau i roi tystiolaeth, a blaenoriaethu ceisiadau pwyllgorau dros weithgareddau eraill.

Er gwaethaf y materion a amlinellir uchod, rwy'n croesawu'r cadarnhad yn eich llythyr bod y Pwyllgor Busnes yn bwriadu cadw hyblygrwydd ac ymatebolrwydd wrth wraidd ei benderfyniadau ynghylch amserlennu pwyllgorau. Rwy'n gobeithio bod myfyrdodau aelodau'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol o gymorth yn hyn o beth.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a long horizontal flourish underneath.

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon